



Adroddiad i Gyngor Sir Gâr

gan Nicola Gulley MA MRTPI

Ian Stevens BA (Anrhydedd) MCD MRTPI

Arolygwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad: 28/09/2026

Report to Carmarthenshire County Council

by Nicola Gulley MA MRTPI

Ian Stevens BA (Hons) MCD MRTPI

Inspectors appointed by the Welsh Ministers

Date: 28/09/2026

DEDDF CYNLLUNIO A PHRYNU GORFODOL 2004 (FEL Y'I DIWYGIWYD)

ADRAN 64

ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD I GYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN 2018 – 2033

Cyflwynwyd y cynllun i'w archwilio ar 10 Mehefin 2024

Cynhaliwyd gwrandawiadau archwilio rhwng 15 Hydref a 26 Tachwedd 2024, ac ar 17 a 18 Medi 2025.

Cyf ffeil / File ref: CAS-03092-M1R9T8

Rhestr Byrfoddau

AALISTh	Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr
AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
ACI	Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
ACT	Asesiad Cymeriad Tirwedd
AFDL	Asesiad o'r Farchnad Dai Leol
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
AHA	Adroddiad Hyfywedd Ariannol
AEG	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
AMT	Ardaloedd Marchnadoedd Tai
AP	Asesiad Priodol
ARhC	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
ATA	Ardal Tirwedd Arbennig
BMVAL	Tir Amaethyddol Gofal a Mwyaf Amlbwrrpas
CCA	Canllawiau Cynllunio Atodol
CCMA	Ardal Rheoli Newid Arfordirol
CD	Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040
CDLIM/D	Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig / Diwygiedig
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CT	Cyflenwad Tai
Deddf LICD	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Deddf yr Amgylchedd	Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
DCWW	Dŵr Cymru / Welsh Water
FMfP	Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio
fms	Fesul Metr Sgwâr
GT	Gofyniad Tai
GTDG	Gwaith Trin Dŵr Gwastraff
LSA	Ardal Chwilio Lleol
LSE	Effeithiau Arwyddocaol Tebygol
LIC	Llywodraeth Cymru
LICD	Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3 (Mawrth 2020)
MACs	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
N/LNR	Gwarchodfa Natur Genedlaethol / Leol
NN	Niwtraliaeth Maetholion ar gyfer Nitrogen
PCC	Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12 / Chwefror 2024
RLCEA	Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel
Rheoliadau CDLI	Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005
S/FCA	Asesiad Canlyniadau Strategol / Llifogydd
SGG	Seilwaith Gwyrdd a Glas
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SuDS	Cynlluniau Draenio Trefol Cynaliadwy
TAN	Nodyn Cyngor Technegol
WEMS	Safleoedd Morol Ewropeaidd Cymru

Crynodeb Annhechnegol

Daw'r adroddiad hwn i'r casgliad, yn amodol ar y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd (MACs) a argymhellir sydd wedi'u nodi yn Atodiad A, bod Cynllun Datblygiad Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (CDLID neu'r Cynllun) yn darparu sail briodol ar gyfer cynllunio'r Sir hyd at 2033. Mae gan y CDLID dystiolaeth ddigonol i gefnogi'r strategaeth ac mae wedi dangos bod ganddo ragolygon realistig o gael ei gyflawni.

Mae angen nifer o newidiadau i fodloni gofynion cyfreithiol a statudol a sicrhau bod y Cynllun yn gadarn. Nid yw'r rhain yn newid sylwedd strategaeth gyffredinol y Cyngor ac nid ydynt yn tanseilio'r arfarniad cynaliadwyedd (AC) a gynhaliwyd gan y Cyngor. Caiff y prif newidiadau eu crynhoi fel a ganlyn:

- Diwygiadau i Fframwaith Strategol y Cynllun i esbonio'r cyd-destun datblygu cenedlaethol a rhanbarthol
- Cynnydd yn y cyflenwad o dir ar gyfer tai yn ystod cyfnod y Cynllun o 9,704 i 9,814 o anheddau a newidiadau canlyniadol i'r taflwybr tai a'r lwfans hyblygrwydd;
- Newidiadau i'r dyraniadau safleoedd tai, gan gynnwys nodi 14 safle ychwanegol wedi'u dyrannu ac 16 safle ychwanegol wedi'u hymrwymo;
- Cynnydd i'r targed tai fforddiadwy ar draws y Cynllun o 1,900 i 2,111 o anheddau i adlewyrchu newidiadau i'r cyflenwad tir ar gyfer tai;
- Cynnwys polisi newydd ar gyfer rheoli dwysedd tai;
- Diwygiadau i Bolisiâu CCH4 ac INF4 a'r dangosyddion monitro i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoli maetholion mewn ACAau afonol a morol;
- Cynnwys atodlen sy'n amlinellu'r gofynion polisi a'r cyfyngiadau mewn perthynas â phob safle tai a chyflogaeth a ddyrannwyd;
- Diwygiadau i Bolisiâu SP8 ac WL1 i ddarparu fframwaith i asesu a lliniaru effaith datblygu ar y Gymraeg;
- Diwygio Polisi BHE2 i ddarparu fframwaith effeithiol ar gyfer diogelu a gwella tirweddau a morweddau unigryw Sir Gaerfyrddin;
- Diwygiadau i Bolisi MR3 a'r map cynigion i nodi meini prawf ar gyfer asesu cynigion datblygu a nodi ardaloedd gwarchodedig;
- Dileu gofynion polisi mewn perthynas ag asedau hanesyddol o bwysigrwydd lleol arbennig, ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cydymffurfio â gofynion polisi cenedlaethol.

Mae bron pob un o'r newidiadau a argymhellwyd wedi'u cyflwyno gan y Cyngor er mwyn ymateb i faterion a drafodwyd yn ystod yr archwiliad. Gyda'r newidiadau a argymhellwyd, mae'r Cynllun yn bodloni gofynion adran 64(5) Deddf 2004 ac yn bodloni'r profion cadernid a nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.

CYNNWYS

Pennod		Tudalen
1	Cyflwyniad	5
2	Goblygiadau'r cyfyngiad maetholion	8
3	Gofynion Paratoi	19
4	Fframwaith Strategol	21
5	Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Seilwaith Tai a Chymuned	31
6	Safleoedd a Ddyrannwyd	37
7	Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Tai Fforddiadwy a Darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr	46
8	Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Cyflogaeth a'r Economi Ymwelwyr	51
9	Arferion Iach – Yr Amgylchedd Naturiol, Adeiledig a Hanesyddol	56
10	Cysylltiadau Cadarn – Newid yn yr Hinsawdd, Ynni Adnewyddadwy, Trafnidiaeth, Mwynau a Gwastraff	60
11	Monitro ac Adolygu'r Cynllun	65
12	Casgliadau Cyffredinol	66

Atodiad A: Rhestr o'r Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd (MACs) a gynigiwyd gan y Cyngor

1 Cyflwyniad

- 1.1. O dan delerau Adran 64(5) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, diben archwiliad annibynnol o Gynllun Datblygu Lleol yw penderfynu:
 - a) a yw'n bodloni gofynion adrannau 62 a 63 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a rheoliadau o dan adran 77, ac
 - b) a yw'n gadarn.
- 1.2. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr asesiad o'r CDLID o ran y materion uchod, ynghyd ag argymhellion a'r rhesymau drostynt, fel sy'n ofynnol gan adran 64(7) Deddf 2004.
- 1.3. Paratowyd y CDLID a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd) (Rheoliadau CDLI). Rydym wedi'i ystyried yn erbyn y profion cadernid a nodir yn Adran 6, Tabl 27 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3 (Mawrth 2020) (LICD). Mae tri phrawf, sef:
 - **Prawf 1: A yw'r cynllun yn addas** – a yw'n glir bod y CDLI yn gyson â chynlluniau eraill?
 - **Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol** – a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth? a
 - **Phrawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni** – a yw'n debygol o fod yn effeithiol?
- 1.4. Yn ogystal, rhaid i ni fod yn fodlon bod y broses o baratoi'r cynllun wedi cydymffurfio â'r holl ofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoleiddiol, gan gynnwys yr AC, asesiad rheoliadau cynefinoedd (ARhC) ac ati.
- 1.5. Y man cychwyn ar gyfer yr archwiliad yw bod y Cyngor wedi cyflwyno'r hyn y mae'n ei ystyried ei fod yn gynllun cadarn, ynghyd â'r sail dystiolaeth sy'n ategu ei safbwynt.
- 1.6. Gan mai diben yr archwiliad yw penderfynu a yw'r Cynllun yn gadarn, rydym yn argymhell newidiadau yn yr adroddiad hwn dim ond lle mae angen clir i ddiwygio'r Cynllun yng ngoleuni'r gofynion cyfreithiol a/neu'r profion cadernid. Mae'r newidiadau rhwymol hyn wedi'u rhifo mewn **print trwm** ac wedi'u nodi yn Atodiad A yr adroddiad hwn, lle maent wedi'u hamlygu. Rydym yn fodlon bod y newidiadau hyn yn unol â sylwedd y Cynllun a'i bolisiâu, ac nad ydynt yn tanseilio'r AC a'r prosesau cyfranogol yr ymgwymerwyd â nhw.
- 1.7. Ystyriwyd yr holl sylwadau a wnaed yn briodol a'r materion a godwyd yng ngwrandawiadau'r archwiliad. O ystyried ffocws yr archwiliad ar gadernid, nid yw ein hadroddiad yn cyfeirio'n benodol at y sylwadau unigol a wnaed ym mhob achos. Cyfeirir at faterion a godwyd unigol dim ond lle ystyrir eu bod yn codi materion sylweddol yn ymwneud â chadernid y Cynllun. Mae newidiadau i'r cynllun a geisiwyd gan unrhyw gynrychiolydd yn destun newid a argymhellir dim ond lle'r ydym wedi canfod, ar sail y dystiolaeth, bod angen newid tebyg i sicrhau bod y Cynllun yn gadarn.

- 1.8. Mae nifer o gynrychiolwyr wedi cynnig safleoedd amgen i'r rhai sydd wedi'u dyrannu yn y Cynllun, yn fwyaf nodedig ar gyfer datblygu tai. Yr hyn sy'n ofynnol gan y Cyngor yw ei fod yn llunio strategaeth, polisiâu a dyraniadau sy'n gadarn. Mae'n debygol y bydd sawl ffordd y gallai'r Cyngor fodloni anghenion ei gymuned, y gallai pob un ohonynt fod yn ddilys. Efallai y bydd rhai o'r farn nad yw'r dyraniadau yn y Cynllun yn cyflwyno'r ateb gorau, ond ein cylch gwaith nid yw argymhell newidiadau lle mae eu hangen i sicrhau bod y Cynllun yn gadarn yn unig. Nid ein cylch gwaith ni yw ceisio gwneud cynllun cadarn yn well. Felly, mae ein casgliadau ynghylch cadernid y Cynllun a'r newidiadau a gynigiwyd gan y Cyngor wrth ymateb i faterion sy'n codi wedi llywio pa mor bell y bu angen i ni ystyried yn fanwl safleoedd ymgeisiol eraill i'w dyrannu. Am y rheswm hwn, ni chyfeirir at unrhyw un o'r safleoedd amgen a gynigiwyd yn yr adroddiad hwn.

Newidiadau ar ôl adneuo a newidiadau a gododd yn ystod yr archwiliad

- 1.9. Cyn cyflwyno'r CDLID i'w archwilio, ystyriodd y Cyngor y sylwadau a wnaed yn ystod yr ail gyfnod adneuo a daeth i'r casgliad nad oedd angen gwneud unrhyw newidiadau â ffocws i'r Cynllun drafft adneuo.
- 1.10. Fodd bynnag, yn ystod sesiynau'r gwrandawriad, daeth yn amlwg bod y Cynllun yn annhebygol o ddarparu graddfa'r datblygiad tai sy'n ofynnol gan Bolisi SP4.
- 1.11. Ar ein cais ni, lluniodd y Cyngor restr o safleoedd y byddai'n well ganddo eu cynnwys yn y Cynllun pe byddai'n cael ei ganfod bod angen dyraniadau tai ychwanegol [ED8 ac ED10]. Roedd y safleoedd ychwanegol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a barodd 7 wythnos, a gynhaliwyd yn unol â gofynion y Cynllun Cynnwys Cymunedol, rhwng 27 Mawrth a 15 Mai 2025. Arweiniodd yr ymgynghoriad hwn at gyflwyno 29 o sylwadau a wnaed yn briodol.
- 1.12. Aseswyd y sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwn a daethpwyd i'r casgliad, er mwyn effeithlonrwydd a thryloywder, y dylid cynnal rhagor o sesiynau gwrandawriad i archwilio'r safleoedd ychwanegol.
- 1.13. Cynhaliwyd y sesiynau gwrandawriad ar 17 a 18 Medi 2025. Ar ôl i'r sesiynau gwrandawriad ddod i ben ac ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan bob parti, daethom i'r casgliad y dylid cynnwys y safleoedd ychwanegol a gynigiwyd yn y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd (MACs). Caiff materion manwl yn ymwneud â chyflenwi'r safleoedd hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Newidiadau a argymhellir

- 1.14. Paratôdd y Cyngor ystod o MACs yn dilyn trafodaethau yn y sesiynau gwrandawriad. Cyhoeddwyd rhestr y MACs [ED19 ac ED19a] ar wefan yr archwiliad ac, ynghyd ag arfarniad cynaliadwyedd integredig (ACI) ac ACRh diwygiedig [ED19b ac ED19c], ymgynghorwyd arnynt am gyfnod o 6 wythnos rhwng 11 Mai a 26 Mehefin 2026. Rydym wedi ystyried yr holl sylwadau a wnaed yn briodol yn ystod y cyfnod ymgynghori wrth lunio ein hargymhellion terfynol.
- 1.15. Y MACs sydd wedi'u rhifo mewn **print trwm** yn Atodiad A yw'r newidiadau a gyflwynwyd sy'n ofynnol i sicrhau bod y Cynllun yn gadarn. Eir i'r afael â phob un o'r

rhain yn yr adroddiad hwn, lle caiff rhif y MAC perthnasol ei nodi yn yr un modd mewn print trwm.

- 1.16. Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi rhai gwallau argraffyddol neu ffeithiol yn y Cynllun a gyflwynwyd y mae'n dymuno eu cywiro. Rydym yn awdurdodi unrhyw newidiadau golygyddol terfynol o'r natur hon, ynghyd ag unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â chyflwyniad a newidiadau canlyniadol sy'n deillio o MACs y cytunwyd arnynt, fel croesgyfeirio polisïau, ardaloedd safleoedd neu newidiadau rhifiadol a rhifau paragraffau.

Newidiadau i bolisi a chanllawiau cenedlaethol

- 1.17 Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 – Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae'r TAN diwygiedig yn cydnabod y cynnydd posibl mewn digwyddiadau llifogydd oherwydd newid yn yr hinsawdd ac yn rhoi mwy o bwyslais ar CDLlau fel y dull ar gyfer dyrannu safleoedd a rheoli datblygiadau newydd, ac ar gyfer asesu risg llifogydd a nodi mesurau lliniaru llifogydd priodol. Mae hyn yn cynnwys paratoi Cynllun Seilwaith i ategu CDLlau unigol a nodi mesurau lliniaru llifogydd priodol.
- 1.18 I fynd i'r afael a'r gofynion hyn, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad manwl o'r safleoedd tai a chyflogaeth a ddyrannwyd a'r Papur Pwnc Asesiad Seilwaith [CSD78]. Canfu'r adolygiad o'r safleoedd a ddyrannwyd fod y rhan fwyaf ohonynt ym Mharth Llifogydd 1, gyda dim ond nifer fach o safleoedd wedi'u lleoli'n rhannol ym Mharth Llifogydd 2 a/neu Barth Llifogydd 3 [CSD78]. O ganlyniad, nid fu angen unrhyw ddiwygiadau sylweddol i'r dyraniadau, er y bu angen newidiadau i Bolisïau SP16, HOM1 a dileu Polisi CCH5 i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi cenedlaethol (**MAC 081, MAC 076 a MAC 013**). Er mwyn darparu sicrwydd ynghylch natur y cyfyngiad, mae manylion am y risg llifogydd ar safleoedd unigol wedi'u cynnwys, yn gywir, yn y rhestrau o safleoedd tai a chyflogaeth sydd wedi'u dyrannu (**MAC 126 a MAC 127**) ac wedi'u hanodi ar y map cynigion (**MACM/FS1, MACM/FS2, MACM/FS3 a MACM/FS4**). Yn ogystal, mae atodiad sy'n manylu ar ganfyddiadau'r adolygiad wedi'i ychwanegu ar yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (SFCA) [CSD226 ac ED9d]. Eir i'r afael â materion sy'n ymwneud â newidiadau i'r polisïau hyn ym Mhennod 10 yr adroddiad hwn.
- 1.19 Nododd yr adolygiad o'r Papur Pwnc Asesiad Seilwaith, sef Cynllun Seilwaith Sir Gaerfyrddin i bob pwrpas, er bod angen diweddarau'r papur i adlewyrchu gofynion y TAN newydd, nad oedd unrhyw ofynion seilwaith ychwanegol ar hyn o bryd. Rydym yn ymwybodol bod y ddogfen hon yn un 'fyw' ac y bydd yn destun adolygiad trwy gydol cyfnod y Cynllun.
- 1.20 Yn sgil yr uchod, rydym yn fodlon bod y CDLID a'i sail dystiolaeth ategol yn cydymffurfio â gofynion TAN 15.
- 1.21 Yn ogystal, ar 25 Mehefin 2025, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Asesiad Cyflwr o'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru, sy'n dangos y gallai datblygu newydd ar hyd rhannau o arfordir Cymru gynyddu llygredd maetholion mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) Morol ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau). Mae hyn yn cynnwys datblygu yn yr Ardal Forol Warchodedig yn Sir Gaerfyrddin ac awdurdod cyfagos Sir Benfro. Mae gan hyn oblygiadau difrifol ar

gyfer y CDLID. Felly, rydym yn dechrau ein hadroddiadau ar y pynciau trwy ymdrin â'r mater hwn a'r rhai sy'n ymwneud ag ACAau afonol yn fanwl.

- 1.22 Yn olaf, ar 20 Tachwedd 2025, cyhoeddodd LIC yr amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol yn seiliedig ar 2022. Fel y cyfryw, mae'r amcanestyniadau'n darparu data ystadegol diwygiedig mewn perthynas â maint a strwythur oedran posibl y boblogaeth yn y dyfodol, ynghyd ag arwydd o nifer yr aelwydydd yn y dyfodol a'u cyfansoddiad ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cyngor wedi adolygu'r amcanestyniadau ac wedi penderfynu peidio â diwygio'r gofyniad tai (GT) gan ei fod o'r farn bod graddfa'r datblygiadau tai newydd sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI yn cyd-fynd yn fras â'r amcanestyniadau diweddaraf ac yn realistig, yn adlewyrchu ei ddyhead i weld twf economaidd ac y bydd yn helpu i ddarparu tai fforddiadwy [ED 16 a a b]. Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn fodlon â'r dull a amlinellwyd gan y Cyngor.

2 Goblygiadau'r cyfyngiad maetholion mewn ACAau Afonol a Morol

- 2.1 Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd CNC ganllawiau diwygiedig ar ddatblygiadau a oedd â'r potensial i gynyddu lefelau ffosffad mewn ACAau afonol. Esboniodd y canllawiau nad yw dros 60% o'r cyrff dŵr dynodedig yn bodloni'r safonau ffosfforws diwygiedig a rhoddodd gyngor ynghylch sut y gellir osgoi dirywiad pellach o ran capasiti amgylcheddol mewn ACAau afonol sy'n sensitif i faetholion.
- 2.2 Yn ogystal, fel yr amlinellwyd yn gynharach, ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd CNC Asesiad Cyflwr ar gyfer Safleoedd Morol Ewropeaidd Cymru (WEMS), sy'n dangos bod gan ddatblygu newydd y potensial i gynyddu gollyngiadau nitrogen mewn dalgylchoedd sy'n draenio i ACA forol, ac felly niweidio eu nodweddion ecolegol sensitif.
- 2.3 Caiff goblygiadau'r ddau fater ar gyfer y CDLID eu hystyried isod.

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol

- 2.4 Mae Sir Gaerfyrddin wedi'i chroestorri gan bum ACA afonol. Gall mewnbynnau maetholion ychwanegol o weithgareddau dynol, fel amaethyddiaeth a gollwng dŵr gwastraff wedi'i drin, arwain at fwy o faetholion yn mynd i mewn i'r afonydd cysylltiedig. Gall crynodiadau uchel o faetholion, gan gynnwys ffosfforws, fygwth iechyd hirdymor afonydd a chael effeithiau niweidiol ar fywyd gwyllt prin a phwysig yn y safleoedd Ewropeaidd hyn.
- 2.5 Byddai cynigion datblygu sydd wedi'u dyrannu yn y CDLI yn effeithio ar ddwy ACA afonol sy'n sensitif i faetholion yn Sir Gaerfyrddin, sef Afon Tywi ac Afon Teifi. Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (fel y'i diwygiwyd yn 2017), rhaid i ni, fel yr awdurdod cymwys, fod yn fodlon na fydd datblygu newydd yn arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y ddwy ACA.
- 2.6 Cynhaliodd y Cyngor Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) o'r cynllun a'i adolygu wrth i'r gwaith fynd rhagddo ar y cynllun a'r strategaeth niwtraliaeth maetholion gysylltiedig. Sgriniodd Ail Adroddiad Adendwm yr ARhC [CSD14] bolisiau a chynigion y CDLI i benderfynu a oedd unrhyw rai ohonynt yn debygol o

gael effaith arwyddocaol ar ACAau afonol. Yn ogystal, cynhaliwyd ARhC o'r adendwm safle ychwanegol [ED10e].

- 2.7 Mae'r Cyngor hefyd wedi llofnodi Datganiad Tir Cyffredin [CSD62] gydag awdurdodau cyfagos, CNC a Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW), sy'n amlinellu dull cytûn i hwyluso, ymhlith pethau eraill, niwtraliaeth maetholion mewn dalgylchoedd ACAau afonol sy'n methu. Mae'r dull hwn yn ceisio rheoli datblygu newydd a gollyngiadau dŵr gwastraff cysylltiedig er mwyn atal cynnydd net mewn llwythi maetholion. Mae'r heriau o ran cyflawni niwtraliaeth maetholion yn cael eu gwaethygu gan yr effeithiau gwahanol o ran ffynonellau yn yr ACAau. Caiff yr effeithiau yn ACA Afon Tywi eu llywio'n bennaf gan fewnbynau amaethyddol, gyda gollyngiadau Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) yn llywio'r effaith o ran ffynonellau yn ACA Afon Teifi, yn bennaf.
- 2.8 Er nad oes unrhyw fethiannau ffosforws hysbys yn ACA Afon Tywi ar hyn o bryd, ac felly nid oes angen niwtraliaeth maetholion ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wedi dwyn ymlaen cyngor i fonitro capasiti'r GTDG. Mae hyn yn seiliedig ar adolygiad o drwyddedau GTDG gan CNC sydd, yn ei dro, yn pennu faint o ddatblygu a ganiateir [CSD52]. Mae'r ARhC wedi cadarnhau'r capasiti i ddarparu ar gyfer datblygu cyfyngedig o fewn ACA Afon Tywi. Mae Tabl 1 yn rhestru saith safle a ddyrannwyd yn y dalgylch a fyddai'n darparu cyfanswm dangosol o 104 o anheddau.

Tabl 1 – Dyranïadau Tai yn ACA Afon Tywi

Cyfeirnod y Safle	Lleoliad	Nifer yr anheddau	Gwaith Trin Dŵr Gwastraff
SuV16/h1	Heol Llwynddewi	2	Nid oes angen cysylltiad â charthffos gyhoeddus
SuV17/h1	Cefn yr hen waith saer, Heol yr Orsaf	35	Nantgaredig (Pontargoethi)
SuV51/h1	Gyferbyn â Neuadd y Pentref	8	Cwmifor
SeC16/h1	Chwarter Gogledd Llandeilo	27	Ffairfach
SeC15/h2	Tir ger Bryndeilog, Rhodfa Tywi	8	Llanymddyfri
SeC17/h1	Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Llangadog	16	Llangadog
SeC17/h2	Tir oddi ar Heol Pendref	8	Llangadog

- 2.9 O ganlyniad, ni fyddai'r saith dyraniad tai yn y dalgylch yn cael effaith andwyol ar gyfarwydd Afon Tywi naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, gan nad yw awdurdodau cyfagos yn draenio i afon Tywi. Fodd

bynag, o ystyried y capasiti cyfyngedig yn y GTDG perthnasol, mae risg y gellir torri terfynau'r drwydded. Pe byddai hynny'n digwydd, byddai dull niwtraliaeth maetholion yn cael ei gymhwyso i brosiectau unigol.

- 2.10 Mae lefel uchel o faetholion yn yr amgylchedd dŵr yn effeithio ar ACA Afon Teifi, gyda chyrff dŵr y dalgylch yn isaf yn methu'n gyffredinol wrth i'r afon lifo trwy Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, caiff ei gydnabod y dylid asesu'r sefyllfa hon mewn perthynas â'r canlyniadau diweddaraf ar lefel corff dŵr. Mae Tabl 2 yn rhestru 14 o ddyraniadau tai yn ACA Afon Teifi a fyddai'n darparu cyfanswm dangosol cyfunol o 172 o anheddau. Mae'r dyraniadau hyn wedi'u sgrinio trwy'r ARhC. Ystyriwyd safleoedd posibl a ddyrannwyd gan awdurdodau cyfagos Ceredigion a Sir Benfro hefyd ar gyfer eu heffeithiau cyfunol ar yr ACA ehangach, er nad yw'r ddau gynllun wedi'u datblygu i'r un graddau â chynllun Sir Gaerfyrddin.

Tabl 2 – Dyraniadau Tai yn ACA Afon Teifi

Cyfeirnod y Safle	Lleoliad	Nifer yr anheddau	Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	Mesurau Iliniaru arfaethedig
SuV37/h3	Tir ger Lleinau	10	Llanbedr Pont Steffan	GTDG Uwch (Llanbedr Pont Steffan)
SuV37/h2	Tir i'r de o Gae Coedmor	20	Llanbedr Pont Steffan	
SeC13/h1	Ger y Neuadd	10	Llanybydder	GTDG Uwch (Llanybydder)
SuV33/h1	Tir gyferbyn â Brogeler	5	Drefach/Felindre	Gwlyptiroedd adeiledig (Llandysul) 2.5ha
SuV43/h1	Blossom Inn	5	Llandysul	
SeC14/h1	Garej Blossom	20	Pencader	
SeC14/h2	Tir ger Maescader	24	Pencader	
SuV35/h1	Tir ger Arwynfa	6	Drefach/Felindre	
SuV38/h1	Maes y Bryn	6	Capel Iwan	Gwlyptiroedd adeiledig (Adpar) 1.25ha
SeC12/h1	Trem y Ddol	17	Adpar	
SeC12/h3	Tir y tu ôl i Ddolcoed	20	Adpar	
SuV39/h1	Ger Yr Hendre	7	Llanfihangel-ar-arth	Gwlyptiroedd adeiledig

SuV36/h2	Tir ym Mryndulais	16	Dim cysylltiad â'r garthffos gyhoeddus	(Tregaron) 1.88ha
SuV36/h1	Cae Pensarn Helen	6	Dim cysylltiad â'r garthffos gyhoeddus	

- 2.11 Mae Tabl 2 yn rhestru mesurau lliniaru ar gyfer pob dyraniad, fel yr argymhellir yn y Cynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion – Adroddiad Technegol [CSD57]. Mae cyfleoedd ar gyfer mesurau lliniaru ar y safle wedi'u cyfyngu gan faint pob dyraniad. Felly, mae'r Cyngor yn ceisio darparu atebion ar raddfa strategol i ddangos cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Cynefinoedd ac osgoi effeithiau andwyol o ddatblygiadau newydd. Byddai gwelliannau i'r GTDG yn Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder yn hwyluso darparu tua 30 o anheddau yng Nghwm-ann a 10 o anheddau yn Llanybydder. Daeth yr uwchraddiadau i rym ar 31 Rhagfyr 2025.
- 2.12 Nid yw dau o'r dyraniadau sy'n weddill yn Nhabl 2 yn cael eu gwasanaethu gan garthffos gyhoeddus ac felly maent y tu allan i Adolygiad Trwyddedau y GTDG. O'r 9 dyraniad sy'n weddill yn nalgylch afon Teifi, nid yw'r uwchraddiadau cynlluniedig i'r GTDG i fod i gael eu cwblhau tan 2030, tua diwedd cyfnod y Cynllun. Felly, mae'r Cyngor yn cynnig defnyddio gwlyptiroedd / mesurau lliniaru strategol ar y cyd â terfynau trwyddedau'r GTDG. Caiff tri gwlyptir eu cynnig yn Llandysul, Adpar a Thregaron i fynd i'r afael ag effeithiau'r 9 dyraniad. Mae'r Nodyn Technegol Cyfrifo Gwlyptiroedd [CSD57b] yn darparu amcangyfrifon ar gyfer gostwng maetholion a'r gofynion cysylltiedig ar gyfer arwynebedd gwlyptiroedd. Gan ystyried polisi cyhoeddedig CNC ar wlyptiroedd adeiledig [CSD59], mae'r cyfrifiadau wedi'u hadolygu a'u mireinio wrth baratoi'r cynllun.
- 2.13 Mae sawl ffactor lleoliadol wedi arwain at ddewis safleoedd y gwlyptiroedd, gan gynnwys eu hagosrwydd at GTDG a chysiau dŵr sy'n derbyn gollyngiadau er mwyn gallu derbyn gollyngiadau'n hawdd, eu lleoliad o gymharu â'r safleoedd a ddyrannwyd, a meini prawf gan gynnwys topograffeg, y math o bridd, risg llifogydd, ecoleg ac amrywiaeth o ystyriaethau daearegol a hydrolegol. Mae cyflawni gwlyptir Tregaron hefyd yn ansicr ar hyn o bryd gan na fyddai DCWW yn derbyn cysylltiad â GTDG Tregaron ar hyn o bryd. Serch hynny, mae cryn dipyn o waith cydweithredol eisoes wedi'i wneud sy'n cydnabod cymhlethdodau dylunio, adeiladu a chynnal a chadw gwlyptiroedd. Er na ddarparwyd costau llawn, cyfrifwyd amcangyfrifon ar gyfer gweithredu a chynnal pob gwlyptir, y gellid eu rhannu'n gyfrannol rhwng y datblygiadau yr effeithir arnynt.
- 2.14 Mae'r Cynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion yn amlinellu'r opsiwn o gyflawni mesurau lliniaru trwy gynllun cyfraniad datblygu. Byddai hyn yn berthnasol i ddatblygiadau tai perthnasol o fewn ardaloedd y dalgylch, er y byddai'r union fanylion yn amodol ar gytundeb pellach rhwng rhanddeiliaid a'r Byrddau Rheoli Maetholion a sefydlwyd i ddatblygu a gweithredu cynlluniau rheoli ar gyfer yr ACAau [CSD61]. Gallai ffrydiau ariannu eraill gael eu dwyn ymlaen hefyd gan ganiatáu i gostau a ddosrennir i ddatblygiad gael eu haddasu'n unol â hynny.
- 2.15 Yn ogystal â gwelliannau allweddol i'r GTDG a gwlyptiroedd adeiledig, nodwyd mesurau lliniaru eraill ar draws y dalgylchoedd i ostwng maetholion yn ehangach.

Aseswyd pob opsiwn ar lefel strategol a'i raddio yn ôl cwmpas gwaredu maetholion, costau, graddfa ac ymarferoldeb. Maent yn cynnwys mesurau fel systemau draenio cynaliadwy (SuDS), plannu coed a lleiniau clustogi ar rannau afonydd. Mae SuDS eisoes yn cael eu ceisio gan ddatblygiadau newydd o fwy nag 1 annedd, gan felly gynnig lle i ostwng maetholion. Mae plannu coed, lleiniau clustogi a rheoli tir yn cwmpasu ardaloedd eang o dir ac, er nad yw lleoliadau penodol wedi'u nodi, maent yn rhoi cyfle i dirfeddianwyr a datblygwyr gymhwyso mesurau fesul prosiect.

- 2.16 Byddai angen gwaith pellach i fireinio'r costau hyn er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith ormodol ar ddatblygiadau. Fodd bynnag, at ddibenion yr archwiliad hwn, rydym yn fodlon bod strategaeth lefel uchel â thystiolaeth ar waith a bod modd i ddatblygiadau yn nalgylch afon Teifi gael eu dwyn ymlaen yn ystod cyfnod y Cynllun sy'n weddill. Er nad yw nifer y datblygiadau yr effeithir arnynt yn sylweddol yng nghyd-destun gofynion y Cynllun, mae'n bwysig yn ofodol y caiff tai eu darparu yn ardal Clwstwr 4 yng ngogledd y sir.
- 2.17 Mae Polisi CCH4 yn darparu sail ar gyfer sicrhau niwtraliaeth maetholion yn y Cynllun. Mae'n nodi na chaniateir datblygu oni bai y gellir dangos nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd ACAau afonol sy'n sensitif i ffosfforws. Byddai'r polisi, i bob pwrpas, yn gweithredu ar y cyd â'r mesurau lliniaru a amlinellwyd er mwyn sicrhau na fydd datblygiad newydd yn cael effaith andwyol ar yr ACA.
- 2.18 Mae rhannau o'r polisi a ddiwygiwyd trwy'r ARhC yn weithdrefnol eu natur gan eu bod yn cyfeirio at ddeddfwriaeth yn achos SuDS, neu at CCA nad oes ganddynt yr un statws â pholisi. Mae'r cyfeiriad at fesurau lliniaru sy'n cael eu cytuno rhwng rhanddeiliaid hefyd yn fater gweithdrefnol ac mae'n well ei roi fel testun ategol i ddarpariaethau'r polisi.
- 2.19 Mae **MAC 080** yn gwneud sawl newid i Bolisi CCH4. Er mwyn sicrhau cysondeb â pholisi cenedlaethol, mae'r cyfeiriad at ffosffadau wedi'i ddisodli gan faetholion mewn perthynas ag ACAau sensitif. Symudwyd y cyfeiriadau hyn i'w cyfiawnhad rhesymegol, sy'n fwy priodol o ran esbonio diben y polisi. Mae angen ychwanegiad pellach at y cyfiawnhad rhesymol i esbonio y dylid darparu Datganiadau Draenio lle ceisir caniatâd cynllunio cyn ei gyflwyno i'r Corff Cymeradwyo SuDS. Mae'r newid cysylltiedig i **MAC 045** yn adlewyrchu'r cyngor diweddaraf yn TAN 15. Yn ogystal, er mwyn sicrhau eglurder ynghylch cymhwyso Polisi CCH4, mae angen **MAC 009, MAC 016, MAC 017, MAC 021, MAC 030, MAC 051, MAC 056, MAC 059, MAC 060, MAC 061** a **MAC 062** i ddiwygio Polisiâu RTC2, HOM4, HOM5, HOM9, EME5, PSD6, PSD10, RD1, RD2, RD3 ac RD4.
- 2.20 Mae'r MACs hyn yn angenrheidiol er mwyn osgoi niweidio cyfanrwydd ACAau afonol. Wrth eu darllen ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu, rydym yn fodlon eu bod yn darparu sail effeithiol ar gyfer rheoli effeithiau datblygu yn ardaloedd y dalgylchoedd.

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol

- 2.21 Mae arfordir Sir Gaerfyrddin yn destun nifer o ddynodiadau ecolegol, gan gynnwys ACAau Sir Benfro Forol a Bae Caerfyrddin ac Aberoedd, sawl safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGAau) a gwarchodfeydd natur cenedlaethol / lleol (N/LNRau). Mae canfyddiadau'r asesiad cyflwr a gyhoeddwyd gan CNC ym mis Mehefin 2025 yn dangos bod nodweddion sensitif i faetholion yr ACAau hyn mewn cyflwr anffafriol ar gyfer nitrogen anorganig toddedig a dangosyddion biolegol

(ffytoplancton a microalgâu manteisgar) sy'n gysylltiedig â chyfoethogi maetholion. Canfuwyd bod gan ddau gorff dŵr, sef Aberdaugleddau Mewnol a Chilfach Mewnol Tywyn, sydd wedi'u lleoli yn yr ACAu, nodweddion sydd mewn cyflwr anffafriol oherwydd methiant cemegol a biolegol.

- 2.22 O ganlyniad, mae goblygiadau clir ac arwyddocaol ar gyfer cyfanrwydd yr ACAu yr effeithir arnynt os yw maint y datblygu sy'n ofynnol yn y CDLID i'w gyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun. I fynd i'r afael â'r pryder hwn, mae CNC wedi cynghori Awdurdodau Cynllunio Lleol y gellir dod i gasgliad nad oes unrhyw effeithiol andwyol ar gyfanrwydd safleoedd mewn ARhC, lle gall unrhyw gynlluniau neu brosiectau mewn ardaloedd yr effeithir arnynt sydd â'r potensial i gynyddu gollyngiadau maetholion sicrhau mesurau lliniaru priodol a dangos niwtraliaeth maetholion ar gyfer nitrogen (NN).
- 2.23 Ar ein cais ni, mae'r Cyngor wedi llunio nodyn ar Oblygiadau Cyngor Cadwraeth Forol wedi'i Ddiweddarau ar gyfer y CDLID. Mae'r nodyn yn amlinellu natur y mater a'r angen am NN yn Sir Gaerfyrddin. Wrth wneud hynny, mae'r nodyn yn egluro bod natur esblygol y mater yn golygu nad oedd yn bosibl, adeg ei ysgrifennu, fod yn fanwl gywir ynghylch ei union natur, maint yr ardal yr effeithir arni na'r mesurau lliniaru sy'n ofynnol [ED13a, b ac c].
- 2.24 Ym mis Ionawr 2026, cyhoeddodd LIC ddatganiad yn egluro sut y dylid cymhwyso prawf cadernid 3 yn y LICD mewn perthynas ag archwiliad y CDLID [ED17]. Mae'r Datblygiad yn cydnabod, oherwydd cam datblygedig yr archwiliad o'r CDLID, ei fod mewn sefyllfa unigryw; bod materion yn ymwneud â'r effaith ar yr ACA forol yn esblygu o hyd; ac nad oes modd mesur yr holl fesurau lliniaru posibl, costau a goblygiadau yn ymwneud â nitradau ar hyn o bryd.
- 2.25 Mae datganiad LIC yn ei gwneud yn glir, er mwyn bodloni prawf cadernid 3, y bydd angen i'r Cyngor ddangos, trwy broses yr archwiliad, y gall y Cynllun fynd i'r afael â materion yn ymwneud â rheoli maetholion gormodol, hyfywedd safleoedd a chyflawnadwyedd safleoedd sydd wedi'u hymrwymo a'u dyrannu. I wneud hyn, mae'r datganiad yn ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad o ffactorau yr ystyrir eu bod yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir rhoi'r Cynllun ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau niwtraliaeth maetholion yn yr ACA forol yr effeithir arni. Mae'r ffactorau hyn a'n hasesiad o'r dystiolaeth berthnasol sydd ar gael wedi'u nodi isod.

a) Diffiniad o'r ardal ddaearyddol lle mae angen NN

- 2.26 Roedd nodyn y Cyngor yn nodi dros dro bod yr ardal ddaearyddol lle mae angen NN yn cwmpasu ardal fawr o dir yn ne'r sir ac yn cynnwys pedwar aber, sef afon Llŵchwr sy'n llifo i Gilfach Tywyn ac afonydd Taf, Tywi a Gwendraeth, sy'n gwacáu i Fae Caerfyrddin. Mae ACA Sir Benfro Forol yn cwmpasu ardal ddaearyddol llawer llai yng ngogledd y sir.

b) Cyflwyno fesul cam a chyflawni twf yn yr ardal NN

- 2.27 Er nad oes unrhyw safleoedd wedi'u dyrannu na'u hymrwymo yn ardal ACA Sir Benfro Forol, mae NN Bae Caerfyrddin ac Aberoedd yn cynnwys 27 o safleoedd tai wedi'u dyrannu a 25 o safleoedd tai wedi'u hymrwymo, ynghyd â 2 safle wedi'u dyrannu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

- 2.28 Mae gan GTDG Arfordir Llanelli, ynghyd â Thregŵyr, dechnoleg tynnu nitrogen wedi'i gosod. Mae arwyddion cychwynnol yn awgrymu bod gwaith Llanelli yn gweithredu ar effeithlonrwydd o tuag 80% ar gyfer tynnu nitrogen yn gyfan gwbl, sy'n cynrychioli perfformiad technegol gorau posibl ar gyfer y broses hon.
- 2.29 Mae GTDG Arfordir Llanelli wedi'i leoli yn yr ardal NN, ac er bod y gwaith trin yn gollwng y tu allan i'r ardal ddiffiniedig, mae natur gymhleth cysylltiadau hydrolegol a'r llwybr draenio yn golygu y bydd angen i ddatblygiad sy'n draenio i'r gwaith hwn gyflawni niwtraliaeth maetholion.

Tabl 3 – Dyroniadau Tai

Cyfeirnod y safle	Lleoliad	Nifer yr anheddau	Gwaith Trin Dŵr Gwastraff
PrC2/h1	Beech Grove, Y Pwll, Llanelli	10	Arfordir Llanelli
PrC2/h10	Tir ger The Dell, Ffwrnes	13	Arfordir Llanelli
PrC2/h20	Harddfan, Y Bryn	6	Arfordir Llanelli
PrC2/h23	Porth Dwyrain Dafen	150	Arfordir Llanelli
PrC2/SS1	Pentre Awel	240	Arfordir Llanelli
PrC2/(iii)	Tir yn Pendderi Road, Bryn	35	Arfordir Llanelli
PrC2/(v)	Tir oddi ar Heol y Mynydd, Bryn	80	Arfordir Llanelli
*SeC6/h2	Tir rhwng Heol Clayton a Dwyrain Heol Bronallt	20	Llannant
SeC6/(ii)	Fforest Garage, Yr Hendy	8	Llannant
SeC6/(iii)	Tir yn Heol Fforest, Yr Hendy	35	Llannant
SeC7/h3	Golwg Yr Afon, Llangennech	50	Llangennech
SeC7/h4	Gyferbyn â Pharc Morlais, Llangennech	32	Llangennech
SeC7/h5	Maesydderwen, Llangennech	5	Llangennech
SeC7/(i)	Tir oddi ar Pontarddulais Road Llangennech	60	Llangennech
PrC3/h1	Tir tu ôl i rif 16-20 a 24-30 Heol Betws, Betws	9	Garnswllt
PrC3/h6	Tir ger Maes Ifan, Maesquarre Road, Betws	18	Garnswllt

PrC3/h20	Tir i'r gogledd o Maespiode, Llandybie	45	Garnswllt
PrC3/h26	Tir oddi ar Parc-y-Mynydd, Saron	15	Garnswllt
PrC3/h27	Tir oddi ar Heol Nant-y-Ci, Saron	18	Garnswllt
*PrC3/MU1	Safle Gwaith Brics Emlyn, Penygroes	107	Garnswllt
PrC3/(i)	Safle Gwaith Brics Emlyn, Penygroes	50	Garnswllt
PrC3/(ii)	PrC3/(ii) Ger Pant-y-Blodau	11	Garnswllt
PrC3/(iv)	Tir ger Maes Ifan, Maesquarre Road, Betws	6	Garnswllt
PrC3/(v)	Tir oddi ar Heol Parcdir, Penybanc	9	Garnswllt
PrC3/(viii)	Tir tu ôl i 108-114 Heol Waterloo, Penygroes	6	Garnswllt
SeC9/h2	Heol Gelynen, Brynmanan	8	Garnswllt
SuV27/h1	Tir ger Tŷ Newydd Carmel	5	Carmel a Phantilyn

*Yn dyblygu'n rhannol safle sydd wedi'i ymrwymo

Tabl 4 – Dyraniadau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr			
Cyfeirnod y safle	Lleoliad	Nifer y lleiniau	Gwaith Trin Dŵr Gwastraff
PrC2/GT1	Tir yn Penyfan, Trostre	7	Arfordir Llanelli
PrC2/GT2	Penybryn (estyniad), Y Bynie	6	Arfordir Llanelli

Tabl 5 – Safleoedd Tai sydd wedi'u Hymrwymo			
Cyfeirnod y safle	Lleoliad	Nifer yr anheddau	Amodau wedi'u rhyddhau

PrC2/h4	Doc y Gogledd, Llanelli	210	Naddo
PrC2/h15	Heol Maesarddafen / Erw Las, Llwynhendy	94	Do
PrC2/h16	Ynys Las, Cefncaeau	33	Naddo
PrC2/h22	Cwm y Nant, Llanelli	202	Naddo
PrC2/h24	Clos Ffordd Fach, Llanelli	13	Do
PrC2/h26	Tir ger 19 Heol Llwynhendy, Llanelli	6	Yn rhannol
PrC2/h27	42 Heol Stepney, Llanelli	8	Do
PrC2/h28	Heol y Graig, Llwynhendy	5	Yn rhannol
PrC2/(ii)	Tir yn Cefncaeau, Llanelli	91	Naddo
SeC4/h2	Harbwr Porth Tywyn	364	Naddo
SeC6/h2	Tir rhwng Clayton Road a Dwyrain Heol Bronallt, Yr Hendy	6	Do
SeC6/h3	Coed y Bronallt, Yr Hendy	6	Yn rhannol
SeC6/(i)	Tir oddi ar Heol y Parc, Yr Hendy	7	Naddo
SeC7/h1	Fferm Box Farm, Llangennech	7	Naddo
PrC3/h4	Fferm Tirychen, Rhydaman	150	Naddo
PrC3/h9	Tir ger Maesyrhaf, Cross Hands	5	Yn rhannol
PrC3/MU1	Safle Gwaith Brics Emlyn, Penygroes	70	Naddo
PrC/h22	Ger Pant y Blodau, Penygroes	79	Do
PrC3/h36	Glofa'r Betws, Betws	66	Do
PrC3/(iii)	Tir y tu ôl i 10-12 Heol Norton, Penygroes	6	Do
PrC3/(vi)	Tir gyferbyn â'r Plough and Harrow, Betws	9	Do
PrC3/(vii)	Tir oddi ar Dôl y Dderwen, Myddynfych	31	Do
SuV25/h1	Tir i'r gogledd o Clos Rebecca, Llannon	47	Do
SuV25/(i)	Cysgod yr Eglwys (ger Eglwys Sant Non), Llannon	34	Do

SuV26/h1	Y tu ôl i Garreg Lwyd, Llanedi	11	Naddo
----------	--------------------------------	----	-------

2.30 Mae Tablau 3 a 4 yn dangos, o'r 1,051 o anheddau a'r 13 o leiniau Sipsiwn a Theithwyr a ddyrannwyd yn yr ardaloedd NN yn ystod cyfnod y Cynllun, bod 534 o anheddau a 13 o leiniau yn rhan o GTDG Arfordir Llanelli. Ar ôl eu haddasu i ystyried safleoedd wedi'u hymrwymo sydd wedi'u dyblygu, mae'r ffigur cyffredinol yn debygol o ostwng i 967 o anheddau.

2.31 Mae Tabl 5 yn dangos, o'r 25 o safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio, mae amodau wedi'u rhyddhau'n llawn ar 11 o safleoedd. Bydd y 14 o safleoedd sy'n weddill yn darparu tir ar gyfer adeiladu 1,167 o anheddau.

2.32 Mae'r safleoedd sy'n weddill sydd wedi'u dyrannu a'u hymrwymo ar gyfer tai yn cyfrif am tua 25% o ofyniad tai y CDLID, tra y bwriedir i'r safleoedd sydd wedi'u dyrannu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr fodloni'r angen sy'n weddill am leiniau yn y sir yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r safleoedd ar gyfer tai a Sipsiwn a Theithwyr yn elfennau allweddol o strategaeth ofodol y CDLID ac yn hanfodol o ran cyflawni ei ofynion twf.

c) Effaith a mesurau lliniaru

2.33 Er mwyn mesur graddfa bosibl yr effaith ar Gilfach Tywyn, mae'r Cyngor wedi paratoi cyllideb nitrogen ar lefel cynllun ar gyfer y CDLID. Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif o gyfanswm y nitrogen ar gyfer pob dyraniad. Mae'r allbynnau'n rhoi arwydd dros dro o'r llwyth nitrogen o ddatblygiad ac yn sefydlu sail gyson ar gyfer asesu effaith y CDLID. Addaswyd y cyfrifiannell i ystyried crynodiadau nitrogen a pharamedrau perfformiad sy'n benodol i GTDG Arfordir Llanelli.

2.34 Mae'r asesiad yn sefydlu'r mewnbynnau nitrogen ar lefel y Cynllun y mae'n rhaid eu hystyried trwy'r broses ARhC. Mae hefyd yn darparu'r sail feintiol ar gyfer penderfynu ar y mesurau lliniaru sydd eu hangen i sicrhau na fyddai rhoi'r Cynllun ar waith yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle. Mae'r nodyn yn egluro, trwy gymhwyso'r dull cyfrifo cytûn, bod y gyllideb yn darparu asesiad cyson ac amddiffynadwy o'r llwyth nitrogen disgwylidig o ddatblygiad yn y dalgylch yr effeithir arno. Mae'r dystiolaeth hon yn sail i'r mesurau lliniaru a'r darpariaethau polisi arfaethedig ac mae hefyd yn cynorthwyo i gyflawni'r dyletswyddau o dan y Rheoliadau ARhC [ED13c, Adran 6].

2.35 Er mwyn sicrhau rheolaeth effeithiol o'r ardal NN, mae'r Cyngor yn bwriadu paratoi:

- Canllawiau / Pecyn Cymorth dan Arweiniad Datblygwyr – a fyddai'n darparu cyngor cam wrth gam ar ddulliau cyfrifo, meini prawf sbarduno a phryd y mae angen mesurau lliniaru. Bydd yn amlinellu ystod o fesurau lliniaru hysbys a phosibl ar gyfer cyflwyno safleoedd yn yr ardal yr effeithir arni, gan gynnwys SuDS gyda dadnitreiddio, effeithlonrwydd dŵr, tynnu dŵr wyneb a gwlyptiroedd trydyddol. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae hwn wedi'i gyhoeddi a bydd yn cael ei fabwysiadu maes o law fel CCA; a
- Canllawiau Strategol a Chynllun Gweithredu – yn nodi dealltwriaeth tymor hwy 'r angen am fesurau lliniaru strategol, a'r cyllid ar eu cyfer, fel creu gwlyptiroedd, cynlluniau gwahanu dŵr wyneb a rhaglenni effeithlonrwydd dŵr. Caiff mesurau eu blaenoriaethu ar sail y gallu i leihau'r llwyth maetholion, hyfywedd technegol a chost-effeithiolrwydd. Bydd y Cynllun Gweithredu yn datblygu cynllun cyflawni

fesul cam ar gyfer cynlluniau lliniaru sydd â blaenoriaeth. Elfen allweddol o'r canllawiau hydd datblygu masnachu credydau maetholion, sef dull sydd â'r bwriad o gefnogi i gyflawni datblygiadau yn y dyfodol, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer cyfalaf natur a buddion ecosystemau.

ch) Asesiad Hyfywedd Ariannol

- 2.36 Fel yr amlinellir yn Adran 7 yr adroddiad hwn, ystyriwyd y gofyniad am fesurau lliniaru mewn perthynas â chyflenwi datblygiadau tai newydd yn rhan o'r Adroddiad Hyfywedd Ariannol (2022) (AHA) [CSD31] a'r Adendwm / Diweddariad i'r AHA (2024) (Diweddariad i'r AHA) [CSD32]. Mae'r adroddiadau'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, lwfans o £3,500 – 4,000 fesul annedd ar gyfer SuDS a swm wrth gefn o 5% i fynd i'r afael ag amrywiadau annisgwyl mewn costau adeiladu. Mae'r darpariaethau a wneir yn yr AHA yn ddigonol i sicrhau bod digon o hyblygrwydd i roi mesurau lliniaru priodol ar waith mewn perthynas â'r safleoedd yr effeithir arnynt ac i'r safleoedd gael eu cyflawni yn y modd a ragwelir yn y CDLID.

d) Newidiadau i'r fframwaith polisi a monitro

- 2.37 Mae'r Cyngor yn cynnig sawl newid i'r CDLID i gryfhau'r fframwaith polisi ar gyfer rheoli effeithiau datblygiadau newydd yn yr ardal NN. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys diwygiadau i Bolisiâu CCH4, INF4, y taflwybr tai a'r fframwaith monitro.
- 2.38 Yn ogystal â'r diwygiadau i Bolisi CCH4 a amlinellwyd yn gynharach, mae **MAC 036** yn diwygio Polisi INF4 trwy ddileu cyfeiriad at ofynion polisi lleol a chenedlaethol. Mae hefyd yn dileu'r esboniad manwl yn y cyflawnhad rhesymegol o'r gofyniad i ddatblygiadau perthnasol gael gwared â dŵr wyneb o'r system garthffosiaeth. Mae newidiadau pellach i Bolisi INF4, a awgrymwyd wrth ymateb i'r ymgynghoriad MACs mewn perthynas â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr a faint o ddŵr wyneb i'w dynnu, yn faterion y gellir, yn ein barn ni, mynd i'r afael â nhw fel mân newidiadau golygyddol neu ffeithiol. Mae **MAC 122** yn diwygio taflwybr tai'r Cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r amseroedd sydd eu hangen i safleoedd yr effeithir arnynt gael eu cyflawni yn unol â gofynion NN. Mae **MAC 112** yn diwygio'r fframwaith monitro i gynnwys dangosyddion newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi'r Canllawiau / Pecyn Cymorth dan Arweiniad Datblygwyr a'r Canllawiau Strategol a'r Cynllun Gweithredu cyn pen 6 mis ar ôl mabwysiadu'r CDLID.

dd) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

- 2.39 Cafodd y newidiadau i'r fframwaith monitro, ynghyd â diwygiadau eraill i'r Cynllun a oedd yn deillio o'r archwiliad, eu hasesu yn y trydydd adendwm i'r ARhC [ED19c] ac roeddent yn destun Asesiad Priodol: Cam 2 (AP). Daeth yr AP i'w casgliad, yn amodol ar **MAC 057**, sy'n cyflwyno polisi ar ddwysedd datblygiadau tai newydd, a'r newidiadau arfaethedig i Bolisiâu CCH4, INF4, y taflwybr a'r fframwaith monitro, sy'n ceisio lliniaru effaith datblygu ar yr ACA forol, na fyddai'r CDLID yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw safle yn y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol [ED19c, adran 4].
- 2.40 Er nad yw datganiad LIC yn diystyru prawf cadernid 3, mae'n cydnabod, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol, y dylid mabwysiadu dull pragmatig o archwilio'r Cynllun. Ar sail ein hasesiad o'r dystiolaeth a gyflwynwyd a chydabyddiaeth y bydd angen rhagor o waith, rydym yn fodlon y bydd y fframwaith polisi a ddarperir gan y Cynllun yn ddigonol i sicrhau y bydd twf yn y dyfodol yn yr ardal yr effeithir arni yn cael ei

gyflawni mewn modd priodol ac amserol. Mae'r dull hwn yn gyson â'r strategaeth ofodol ac yn darparu'r mesurau diogelu angenrheidiol i ddiogelu cyfanrwydd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol.

Casgliadau

- 2.41 At ei gilydd, rydym yn fodlon, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd ac yn amodol ar y MACs, na fyddai'r CDLID yn cael effaith arwyddocaol debygol andwyol ar yr ACAu afonol na morol yn ardal y Cynllun.

3 Gofynion paratoi

- 3.1 Mae'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol ar gyfer paratoi'r Cynllun wedi'u nodi yn Neddf 2004 a Rheoliadau CDLI 2005. Mae rhagor o arweiniad wedi'i gynnwys y PCC a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (LICD).

Cytundeb cyflawni

- 3.2 Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi'r dull o gynnwys y gymuned, yr amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun ac yn cadarnhau bod cyfnod y cynllun ar gyfer y CDLID yn para o **1 Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2033** [paragraff 1.1.4, CSD9]. Paratowyd y CDLID yn unol â'r Cytundeb Cyflawni a'r Cynllun Cynnwys y Gymuned [CSD9], fel y'i diwygiwyd trwy gytundeb â LIC, a'r Cynllun Cynnwys y Gymuned, fel y cyfeirir ato yn yr Adroddiad Ymgynghori [CSD208].
- 3.3 Mae'r holl newidiadau i'r Cynllun wedi'u hysbysebu ac ymgynghorwyd arnynt. Fel y cyfryw, rydym yn fodlon bod y dull o gynnwys y gymuned yn y broses o lunio'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y Cytundeb Cyflawni a'r Rheoliadau CDLI.

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

- 3.4 Bu'r Cynllun yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI), sy'n cynnwys Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylchedd Strategol (AAS), ochr yn ochr ag Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG), elfennau o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Nodau Llesiant Lleol a Chenedlaethol ac ystyriaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, gan gynnwys Datganiad Ardal CNC a'r Ddyletswydd Adran 6 [CSD 15 – 20]. Yn yr un modd, mae newidiadau pellach a gyflwynwyd gan y Cyngor yn rhan o'r broses archwilio wedi'u profi, yn ôl yr angen, am unrhyw effeithiau y byddent yn eu cael ar yr ACI [ED19b].
- 3.5 At ei gilydd, rydym yn fodlon bod broses yr ACI, gan gynnwys ystyried dewisiadau amgen rhesymol, yn bodloni gofynion gweithdrefnol a chyfreithiol ac yn gyson â gofynion PCC.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

- 3.6 Bu'r CDLID yn destun ARhC, fel sy'n ofynnol gan Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae hyn yn cynnwys Adroddiad ARhC, a asesodd y Cynllun yn ei gyfanrwydd a thri adendwm a oedd yn mynd i'r afael â newidiadau i'r Cynllun.

- 3.7 Mae Adroddiad yr ARhC [CSD12] yn amlinellu canfyddiadau Cam 1: Ymarfer Sgrinio, a gynhaliwyd mewn perthynas â'r CDLID sy'n cael ei ddatblygu a daeth i'r casgliad y gallai'r Cynllun gael effeithiau arwyddocaol tebygol ar 11 Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol a nodwyd yn y sir ac yn gyfagos ati. Y rhain yw:
- ACA Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin ac Aberoedd
 - Casgliadau Adar Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Elenydd-Mallaen
 - Casgliadau Adar AGA Cilfach Tywyn
 - ACA Caeau Mynydd Mawr
 - ACA Cernydd Carmel
 - ACA Afon Tywi
 - ACA Afon Teifi
 - ACA Afon Gwy
 - ACA Afon Cleddau
 - ACA Bae Ceredigion
 - Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherston
- 3.8 O ganlyniad, roedd yr adroddiadau sgrinio yn argymhell y dylid parhau â'r ARhC ac y dylid cynnal Cam 2: AP mewn perthynas â'r Cynllun sy'n cael ei ddatblygu. Daeth yr AP i'r casgliad, yn amodol ar weithredu mesurau lliniaru priodol, na fydd y Cynllun yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd, ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd [CSD12, adran 5].
- 3.9 Asesodd adroddiad adendwm cyntaf yr ARhC [CSD13] newidiadau tystiolaethol mewn polisi a chanllawiau cenedlaethol a lleol, yn bennaf mewn perthynas ag ACAau afonol, tra yr aeth yr ail adendwm [CSD14] i'r afael â chyfanrwydd ACAau morol. Roedd yr asesiadau'n destun Cam 2: AP, a ganfu, yn amodol ar ddiwygio Polisi CCH4 a rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith, na fyddai'r CDLID yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol [CSD 13, adran 4 a CSD14, adran 5].
- 3.10 Asesodd trydydd adendwm yr ARhC effeithiau arwyddocaol tebygol y MACs arfaethedig i'r Cynllun, sy'n cynnwys mesurau sydd â'r nod o fynd i'r afael ag effeithiau ar ACAau morol. Yn yr un modd â'r ARhCau cynharach, roedd yr asesiad yn destun AP. Daeth yr AP i'r casgliad, yn amodol ar **MAC 057** a rhoi'r mesurau lliniaru a nodwyd ar waith, na fydd y CDLID yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw Safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol [ED19c, Adran 4].
- 3.11 Yn unol â hynny, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn fodlon bod canfyddiadau'r ARhC, fel y'i diwygiwyd, yn dangos yn glir, yn amodol ar fesurau lliniaru priodol, nad oes unrhyw effeithiau arwyddocaol ar gyfanrwydd Safleoedd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn ardal y Cynllun, nac mewn ardaloedd cyfagos, yn debygol o ddigwydd naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill o ganlyniad i roi'r CDLID ar waith.

Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

- 3.10 Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw priodol i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, hybu

cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng cymunedau gwahanol. Yn rhan o'r ACI, mae'r Cyngor wedi cynnal a rhoi cyhoedduswydd i AEG o'r CDLID Drafft Adnau [CSD18] er mwyn sicrhau bod materion tebyg wedi'u hystyried trwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun.

- 3.11 Rydym yn fodlon bod y dystiolaeth hon yn dangos y byddai'r CDLID, fel y'i diwygiwyd, yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ac na fyddai'n cael effaith andwyol ar bobl sydd wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 nac yn gwahaniaethu yn eu herbyn.

Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

- 3.12 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD) yn nodi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.
- 3.13 Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad cydnawsedd o Faterion, Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y CDLID [CSD68], yn erbyn gofynion Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin. Mae'r asesiad yn esbonio goblygiadau'r Cynllun Llesiant ar gyfer y CDLID a sut mae'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn. Mae canfyddiadau'r asesiad yn ei gwneud yn glir bod gofynion y Cynllun Llesiant, ar y cyfan, wedi'u hymgorffori yn y CDLID. Yn ogystal, roedd yr ACI yn ystyried cydnawsedd y Cynllun â gofynion Deddf LICD, Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Chynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin [CSD16, LPG1 a LPG2]. Mae canfyddiadau'r asesiad hwn yn dangos bod gan y CDLID y potensial i gefnogi gwelliannau i lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y sir.
- 3.14 Yn sgil y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn fodlon ei fod yn cyd-fynd ag egwyddor gyffredinol Deddf LICD, Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Chynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin, ac yn ei chefnogi ac, fel y cyfryw, bydd yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Casgliad

- 3.15 Yn unol â hynny, mae'r gofynion paratoi cyfreithiol a rheoleiddiol wedi'u bodloni.

4. Fframwaith strategol

Gweledigaeth ac amcanion

- 4.1 Mae Sir Gaerfyrddin mewn safle canolog yn ne-orllewin Cymru. Mae ganddi arwynebedd tir o tua 237,000 hectar ac mae'n ffinio ar Geredigion, Sir Penfro, Abertawe, Powys, Castell-nedd Port Talbot a Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Sir Benfro. Mae gan y sir dair prif dref, sef Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman, sy'n gweithredu fel canolbwyntiau ar gyfer llawer o'r gweithgarwch economaidd-gymdeithasol, ynghyd â chymysgedd o aneddiadau canolig a llai sy'n bodloni anghenion mwy lleol. Mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn elwa ar amgylchedd diwylliannol, adeiledig, hanesyddol a naturiol cyfoethog, sy'n cynnwys tirweddau ucheldirol, aberol ac arfordirol ysblennydd.

- 4.2 Yn economaidd, mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe sydd, mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, yn ceisio hybu twf. Ar ben hynny, mae nifer o aneddiadau yn y sir, gan gynnwys Llanelli, Caerfyrddin a Chastellnewydd Emlyn, wedi'u nodi ym Mholisiau 1, 28 a 29 Cymru'r Dyfodol (CD) fel ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol.
- 4.3 Mae'r CDLID, yn amodol ar **MAC 001** a **MAC 002** sy'n esbonio'n gywir ei berthynas â gofynion CD a'r Cynllun Datblygu Strategol sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer de-orllewin Cymru, yn darparu disgrifiad clir a chryno o brif nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y sir a'r fframwaith polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a fydd yn dylanwadu ar ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun.
- 4.4 Mae cyfres o faterion allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw yn y Cynllun wedi'u nodi ym Mhennod 5 y CDLID. Mae'r materion wedi'u grwpio yn ôl y nodau llesiant cenedlaethol ac wedi'u hamlinellu yn y Papur Pwnc Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Strategol [CSD68, adran 11].
- 4.5 Mae Gweledigaeth y CDLID wedi'i llywio gan y materion allweddol ac mae'n integreiddio gofynion Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor "Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin – y 5 mlynedd nesaf – 2018-2023" [LPG3], Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin [LPG1], nodau llesiant cenedlaethol, Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a CD [CSD68, adran 12]. I gyflawni'r Weledigaeth, mae gan y CDLID bedwar amcan strategol cyffredinol sy'n ceisio:
- creu arferion iach – mae gan bobl ansawdd bywyd da ac maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd,
 - darparu ymyrraeth gynnar – sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn,
 - creu cysylltiadau cadarn – pobl, lleoedd a sefydliadau sydd wedi'u cysylltu'n gadarn ac sy'n gallu addasu i newid, a
 - darparu lleoedd ffyniannus – manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bobl a lleoedd yn ardaloedd trefol a gwledig ein sir.
- 4.6 Mae'r amcanion cyffredinol wedi'u hategu gan 14 Amcan Strategol (AS) sydd, yn amodol ar **MAC 003** sy'n diwygio AS4 i gynnwys tai, wedi'u llunio i fynd i'r afael â'r materion cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd a nodwyd [CSD68, adran 13].
- 4.7 Rydym yn fodlon bod y Weledigaeth a'r amcanion cyffredinol a'r amcanion strategol yn ymateb i'r materion allweddol, yn unigryw i'r ardal leol, yn uchelgeisiol ac yn gyson â pholisi cenedlaethol, ac yn gosod fframwaith priodol ar gyfer strategaeth, polisiau a dyraniadau'r Cynllun.

Strategaeth y Cynllun

- 4.8 Mae strategaeth gyffredinol y CDLID yn cynnwys dwy elfen benodol, sef: strategaeth ofodol sy'n cydnabod yr amrywiaeth sy'n bodoli yn y sir ac yn ceisio dosbarthu datblygiadau newydd mewn modd cynaliadwy, a strategaeth twf sy'n ceisio cydbwysu anghenion tai, cyflogaeth a seilwaith yn y dyfodol dros gyfnod y Cynllun. Mae Diagram Allweddol yn cyd-fynd â'r strategaeth, sy'n nodi clystyrau, trefi a phentrefi yn yr hierarchaeth aneddiadau, safleoedd strategol a'r rhwydwaith trafniadaeth a chysylltiadau â'r rhanbarth ehangach.

Strategaeth ofodol

- 4.9 Datblygwyd chwe opsiwn strategol ar gyfer y CDLID. Roedd y rhain wedi'u seilio ar ystod o ffactorau, gan gynnwys canlyniadau ymgysylltu â'r gymuned, tystiolaeth gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a daearyddol, a pholisi ac amcanion sy'n seiliedig ar adfywio. Yr opsiynau a ystyriwyd oedd:
- **Dewis Strategaeth y CDLI Mabwysiedig** – sy'n defnyddio hierarchaeth aneddiadau'r Cynllun mabwysiedig i ganiatáu dosbarthiad cymesur o ddatblygiadau yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd.
 - **Dewis Seilwaith a Rhwydwaith Trafnidiaeth** – sy'n seilio'r rhan fwyaf o'r twf yn yr ardaloedd sydd gerllaw'r prif rwydwaith priffyrdd a rheilffyrdd ac mewn lleoliadau lle mae seilwaith ar gael i gefnogi datblygu.
 - **Dewis Gwasgaru** – nad yw'n darparu unrhyw sail resymegol neu strwythur ar gyfer dosbarthu twf, gan ddibynnu yn lle hynny ar ddatblygu yn cael ei wasgaru ar draws y sir.
 - **Dewis dan Arweiniad y Gymuned** – a fyddai'n gwasgaru datblygu o fewn ardaloedd cymunedol mewn ffordd sy'n adlewyrchu rôl aneddiadau yn yr ardaloedd hynny a'r ardal ddaearyddol ehangach.
 - **Dewis ar sail Dylanwad Dinas-Ranbarth Bae Abertawe** – sy'n canolbwyntio twf i alinio â'r ardaloedd a nodwyd ar gyfer prosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe.
 - **Dewis dan Arweiniad y Farchnad** – sy'n canolbwyntio twf yn yr ardaloedd sydd wedi profi'n fwyaf poblogaidd gyda'r farchnad dai dros y blynyddoedd diweddar.
- 4.10 Caiff y cefndir i'r opsiynau a nodwyd, ynghyd â dadansoddiad manwl ohonynt, eu darparu yn y Papur Pwnc Dewisiadau Gofodol [CSD69] a'u profi ymhellach drwy broses yr ACI [CSD18, Atodiad E]. Mae'r dadansoddiad yn dangos yn glir mai opsiwn hybrid, sef y Strategaeth Twf Cynaliadwy a Chymuned Gytbwys, oedd yr opsiwn strategaeth mwyaf priodol. Mae'r opsiwn hwn yn mireinio'r dull a ddefnyddiwyd yn yr opsiwn Dan Arweiniad y Gymuned ac yn ceisio darparu twf ac adfywio cynaliadwy i fodloni anghenion y gymuned. Wrth wneud hynny, mae'n cyd-fynd â'r weledigaeth a'r amcanion ac yn cydnabod cymeriad cyferbyniol Sir Gaerfyrddin wrth geisio darparu datblygu priodol mewn ardaloedd trefol a gwledig [CSD69, Adran 10].
- 4.11 Er mwyn darparu mynegiant gofodol ar gyfer y gofynion hyn a dosbarthu twf mewn ffordd sy'n adlewyrchu amrywiaeth Sir Gaerfyrddin, mae'r strategaeth yn isrannu'r sir i'w chwe chlwtwr canlynol:
1. Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig
 2. Ardal Llanelli a Gwendraeth Isaf
 3. Aman a Gwendraeth Uchaf
 4. Teifi
 5. Tywi Uchaf, a
 6. Gorllewin Sir Gaerfyrddin
- 4.12 Mae cwmpas daearyddol pob clwtwr wedi'i ddiffinio gan ystyried rôl a swyddogaeth aneddiadau. Mae hyn yn golygu bod pob clwtwr yn cynnwys prif

ganolfan a/neu ganolfan wasanaeth, sy'n cefnogi neu wedi'i chefnogi gan rwydwaith o aneddiadau llai [CSD72, Adran 4].

- 4.13 Mae Polisi SP3 yn darparu'r fframwaith ar gyfer dosbarthiad cynaliadwy twf a datblygiad yn Sir Gaerfyrddin. Elfen allweddol o'r fframwaith yw diffiniad hierarchaeth aneddiadau â phedair haen ar gyfer y sir. Mae'r Papur Pwnc Rôl a Swyddogaethau [CSD72, adran 4] yn esbonio bod yr hierarchaeth yn y CDLID, sy'n cynnwys prif ganolfannau, canolfannau gwasanaeth, pentrefi cynaliadwy a phentrefi gwledig, wedi'i diffinio ar ôl ystyried prif nodweddion economaidd-gymdeithasol pob un o'r aneddiadau yn ardal y Cynllun. Wrth wneud hynny, cydnabu'r broses asesu yr angen i ddosbarthu twf ar draws y sir i gyd-fynd ag egwyddorion cynaliadwy; cymeriad amrywiol yr aneddiadau yn Sir Gaerfyrddin; a'r berthynas rhwng aneddiadau, y tu mewn a'r tu allan i'r sir, sy'n dylanwadu ar gyfleoedd ar gyfer twf. Mae'r dull yn osgoi unrhyw ragdybiaeth bod yn rhaid i bob anheddiad gyfrannu at dwf. Yn hytrach, mae'n ystyried yr aneddiadau yn ôl eu rhinweddau, wrth ystyried eu cynaliadwyedd a'u safle yn yr hierarchaeth.
- 4.14 Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman / Cross Hands sydd â'r poblogaethau mwyaf a chânt eu gwasanaethu gan ystod eang o wasanaethau, cyfleusterau a llwybrau trafndiaeth cynaliadwy. Yn ogystal, caiff Llanelli a Rhydaman / Cross Hands eu nodi'n rhan o Ardal Twf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli, tra caiff Caerfyrddin ei nodi'n Ardal Twf Rhanbarthol. O ganlyniad, maent wedi'u nodi fel prif ganolfannau'r Cynllun. O ystyried eu rolau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, fel yr adlewyrchir yn CD, mae'n gyfiawn y caiff tua 45% o'r tai a ddyrannwyd gan y Cynllun ac 89% o'r twf cyflogaeth a ddyrannwyd eu cyfeirio at yr aneddiadau hynny yn ystod cyfnod y Cynllun [CSD 72, adran 4].
- 4.15 Mae'r Canolfannau Gwasanaeth yn cynnwys Pont-iets / Meinciau, Pont-henri, Glan-y-fferi, Cydweli, Porth Tywyn, Pen-bre, Yr Hendy / Fforest, Llangennech, Trimsaran / Carwe, Brynaman, Glanamau / Y Garnant, Pontyberem / Bancffosfelen, Castellnewydd Emlyn, Llanybydder, Pencader, Llanymddyfri, Llandeilo, Rhosmaen / Ffairfach, Llangadog, Sanclêr / Pwll-trap, Hendy-gwyn ar Daf a Thalacharn. Gyda'i gilydd, byddai'r aneddiadau hyn yn darparu lle ar gyfer 657 o anheddau newydd ar safleoedd a ddyrannwyd a byddant yn darparu tua 6.5 hectar o dir ar gyfer datblygiadau newydd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun. Er eu bod yn fwy cyfyngedig o ran maint a chyfleusterau na'r prif ganolfannau, mae'r canolfannau gwasanaeth yn cynnig ystod dda o gyfleusterau ar gyfer eu cymunedau eu hunain a'r cymunedau cyfagos. Felly, mae'n briodol bod yr aneddiadau hyn wedi'u nodi'n rhai sy'n gallu darparu twf pellach [CSD 72, adran 4].
- 4.16 Nodwyd 64 o aneddiadau'n Pentrefi Cynaliadwy. Yn gyffredinol, mae'r aneddiadau hyn wedi'u lleoli'n rhesymol ar neu ger coridorau trafndiaeth cynaliadwy ac mae ganddynt gyfleusterau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan gynnwys gofal iechyd sylfaenol a darpariaeth siopa leol. Mae'r datblygiadau tai newydd ar raddfa fach a chânt eu darparu trwy gyflawni dyraniadau a hap-safleoedd yn ystod cyfnod y Cynllun [CSD 72, adran 4].
- 4.17 Mae Pentrefi Gwledig yn cynnwys 76 o aneddiadau sydd â nifer gyfyngedig o gyfleusterau a gwasanaethau. Nid oes gan y pentrefi hyn derfynau diffiniedig ac ni wneir unrhyw ddyraniadau. Yn lle hynny, caiff datblygu ar raddfa fach ei gefnogi ar hap-safleoedd yn ystod cyfnod y Cynllun [CSD 72, adran 4].

Ffiniau anheddau

- 4.18 Er mwyn sicrhau y caiff ardaloedd adeiledig eu rheoli'n effeithiol, mae'r CDLID, trwy Bolisi SD1, yn nodi terfynau datblygu ar gyfer prif ganolfannau, canolfannau gwasanaeth a phentrefi cynaliadwy. Bwriad y terfynau yw caniatáu i'r aneddiadau hynny dyfu mewn modd cynaliadwy a rheoledig ac i reoli datblygu yng nghefn gwlad. Er mwyn rhoi eglurder ynghylch y dull i'w ddefnyddio ar gyfer datblygu mewn aneddiadau Haen 4, mae **MAC 010** yn diwygio Polisi SD1 a'i gyfiawnhad rhesymegol, gan egluro y bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygu amhriodol mewn pentrefi gwledig a'r tu allan i derfynau datblygu diffiniedig. Mae'r dull hwn yn gyson â pholisi cenedlaethol.
- 4.19 Roedd y terfynau datblygu wedi'u seilio ar y rhai a ddynodwyd yn y CDLI Mabwysiedig (CDLIM) ac fe'u mireiniwyd ar ôl proses adolygu fanwl. Mae'r Papur Pwnc Terfynau Datblygu [CSD73, adran 7], yn esbonio bod yr adolygiad wedi ceisio sicrhau bod y terfynau diffiniedig:
- Yn cyd-fynd â gofynion y CDLID sy'n cael ei ddatblygu;
 - Yn cael eu llunio mewn modd cyson a rhesymegol sy'n cynnig eglurder a chadernid wrth wneud penderfyniadau;
 - Yn cynnwys unrhyw ddatblygiadau a adeiladwyd yn ddiweddar, safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio ar hyn o bryd, tir a ddyrannwyd yn y CDLID ar gyfer datblygu a, lle bo'n briodol, unrhyw safle yr ystyrir ei fod yn deilwng o gael ei ddiogelu e.e. Man Agored Cyhoeddus; ac
 - Yn caniatáu i botensial datblygu anheddiad gael ei wireddu mewn modd sy'n gyson â'i gymeriad ac yn rhoi sylw i unrhyw ystyriaethau amgylcheddol neu ystyriaethau eraill.
- 4.20 Ni chyhoeddwyd canfyddiadau'r broses adolygu, ond mae'r Cyngor wedi cadarnhau bod yr adolygiad o'r terfynau datblygu wedi ymgorffori estyniadau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygu, yn ogystal â dileu/hepgor tir nad yw'n cael ei ystyried yn briodol mwyach. Roedd hefyd yn galluogi 'tacluso' terfynau, gan sicrhau eu bod wedi'u tocio i ffin sefydledig, lle bo hynny'n bosibl, gan ddarparu digon o le i ddatblygu ddigwydd ac adlewyrchu cwrtill unrhyw ddatblygiad a ganiatawyd yn ddiweddar [AP1/8a]. Deuwn i'r casgliad y gellir cyfiawnhau ffiniau'r aneddiadau yn seiliedig ar gymhwyso methodoleg gyson.
- 4.21 At ei gilydd, rydym yn fodlon bod y Strategaeth Ofodol, gan gynnwys dosbarthu datblygiadau a llunio terfynau datblygu, wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn a chredadwy, y bydd yn darparu fframwaith cadarnhaol ar gyfer cyflawni a dosbarthu gweithgareddau datblygu cynaliadwy ac adfywio yn ardal y Cynllun a'i bod yn gyson â gofynion CD a pholisi cenedlaethol.

Strategaeth twf

- 4.22 Mae strategaeth twf y Cynllun yn ceisio cydbwysu'r angen am dai yn y dyfodol, sef tai marchnad preifat a thai fforddiadwy fel ei gilydd, â darparu cyflogaeth a seilwaith cysylltiedig, gan gynnwys gwelliannau i rwydweithiau trafndiaeth, cyfleustodau, seilwaith gwyrdd, iechyd, addysg a chyfleusterau cymdeithasol.
- 4.23 Er mwyn penni'r lefel briodol o dwf ar gyfer cyfnod y Cynllun, nododd a phrofodd yr Adroddiad Tai a Thwf Economaidd [CSD34] nifer o senarios twf gwahanol.

Lluniwyd y senarios gan ystyried data demograffig a phoblogaeth, a oedd yn deillio o ragolygon poblogaeth is-genedlaethol o 2018, amcangyfrifon canol blwyddyn 2020, cyfrifiad 2021 a thueddiadau yn y gorffennol. Addaswyd y senarios i ystyried cyfradd swyddi gwag o 3.8% [CSD34].

4.24 Roedd y saith senario fel a ganlyn:

- **Prif amcanestyniad LIC yn seiliedig ar 2018** – yn dyblygu prif amcanestyniad poblogaeth seiliedig ar 2018 Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio tystiolaeth hanesyddol o'r boblogaeth ar gyfer 2001–2018.
- **Amrywiad uchel LIC yn seiliedig ar 2018** – yn dyblygu amcanestyniad poblogaeth uchel seiliedig ar 2018 Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio tystiolaeth poblogaeth hanesyddol ar gyfer 2001–2018 ac yn ymgorffori tybiaethau ffrwythlondeb, disgwyliad oes a mudo uchel.
- **Amrywiad isel LIC yn seiliedig ar 2018** – yn dyblygu amcanestyniad poblogaeth isel seiliedig ar 2018 Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio tystiolaeth poblogaeth hanesyddol ar gyfer 2001–2018 ac yn ymgorffori tybiaethau ffrwythlondeb, disgwyliad oes a mudo isel.
- **Amcanestyniad deng mlynedd yn seiliedig ar dueddiadau** – yn defnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn 2020 y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer blwyddyn sylfaen ac yn graddnodi ei dybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o 10 mlynedd (2010–2020).
- **Amcanestyniad pymtheng mlynedd yn seiliedig ar dueddiadau** – yn defnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn 2020 y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer blwyddyn sylfaen ac yn graddnodi ei dybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o 15 mlynedd (2005–2020).
- **Prif amcanestyniad wedi'i ail-sylfaenu** – yn ail-sylfaenu'r prif amcanestyniad trwy symud ei duedd pum mlynedd ymlaen yn effeithiol i 2020.
- **Senario llinell sylfaen a arweinir gan gyflogaeth** – yn defnyddio effaith poblogaeth twf cyflogaeth blyneddol cyfartalog o +316 o swydd y flwyddyn rhwng 2020 a 2036.

4.25 Amlinellodd canfyddiadau'r Adroddiad nifer y cartrefi newydd y byddai eu hangen a'r swyddi a fyddai'n cael eu creu ym mhob senario yn ystod cyfnod y Cynllun. Roedd y ffigurau hyn yn amrywio o 4,359 o gartrefi newydd a 3,015 o swyddi'n cael eu creu yn senario amrywiad isel LIC yn seiliedig ar 2018, i 10,461 o anheddau newydd a 6,015 o swyddi'n cael eu creu yn y prif amcanestyniad wedi'i ail-sylfaenu. Penderfynodd y Cyngor mai'r senario deng mlynedd yn seiliedig ar dueddiadau, a fyddai'n darparu 8,822 o gartrefi newydd a 4,140 o swyddi newydd, oedd yr opsiwn mwyaf priodol ac y byddai'n helpu i gyflawni amcanion economaidd-gymdeithasol rhanbarthol a sirol [CSD70, adran 4 a 5]. Er bod y senario a ffefrir yn rhagori ar amcanestyniadau LIC, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn fodlon bod y senario hwnnw'n cynrychioli dull cadarn a chymesur o ddarparu tai a thwf economaidd a fyddai'n helpu i gyflawni gweledigaeth y Cynllun ar gyfer cymunedau ffyniannus, cydlynol a chynaliadwy a bodloni'r blaenoriaethau cenedlaethol allweddol a nodir yn CD.

- 4.26 Er mwyn cyflawni'r lefel hon o dwf, mae'r CDLID a gyflwynwyd, trwy Bolisiâu SP1, SP4, SP5 a SP7, yn cynnig darparu ar gyfer: 9,704 o gartrefi newydd i fodloni gofyniad tai (GT) a nodwyd o 8,822; 1,900 o dai fforddiadwy; ac o leiaf 71.21ha o dir cyflogaeth wedi'i fwriadu i ddarparu 4,140 o swyddi ychwanegol. Trwy wneud hynny, rhagwelir y bydd y strategaeth twf yn arwain at greu sir gytbwys a chydlynol a fyddai'n darparu sbardun economaidd cryf ar gyfer twf lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn rhoi Sir Gaerfyrddin wrth wraidd Cymru lewyrchus a cynaliadwy.
- 4.27 I gefnogi'r Strategaeth Twf, mae'r CDLID yn dyrannu cyfres o safleoedd adfywio a defnydd cymysg, wrth gefn a strategol. Mae Polisi SG1 yn dyrannu 10 safle adfywio ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau gan gynnwys tai, cyflogaeth, addysg, twristiaeth a datblygiadau manwerthu. Er mwyn rhoi eglurder ynghylch y cymysgedd o ddefnyddiau bwriadedig ar y safleoedd hyn, mae **MAC 005** a **MAC 125** yn esbonio natur a graddfa'r datblygu arfaethedig ar gyfer pob safle.
- 4.28 Caiff nifer o safleoedd wrth gefn eu nodi o dan Bolisi SG2, y bwriedir eu rhyddhau ar gyfer datblygu os na fydd y safleoedd a dyrennir o dan Bolisiâu HOM1, EME1 a SG1 yn cyflawni fel y disgwylir yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r dull a amlinellir ym Mholisi SG2 yn groes i ofynion canllawiau cenedlaethol sy'n ei gwneud yn glir, er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â materion yn ymwneud â methu cyflawni safleoedd, y dylid ymgorffori lwfans hyblygrwydd yn y cynllun [LICD, paragraff 5.59]. O ganlyniad, mae **MAC 006** yn dileu Polisi SG2.
- 4.29 Yn amodol ar MACs, rydym yn fodlon bod y lefel twf a nodir yn y CDLID wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn ac yn gyson â gofynion CD a chanllawiau cenedlaethol.
- 4.30 Rhoddir rhagor o ystyriaeth i raddfa a chyflawniad twf tai a chyflogaeth mewn penodau dilynol yn yr adroddiad hwn.

Polisiâu strategol

- 4.31 Yn ogystal â'r polisiâu uchod, mae'r CDLID yn nodi nifer o bolisiâu strategol sy'n ymdrin ag ystod o bynciau, gan gynnwys dyraniadau safleoedd strategol, manwerthu a chanol trefi, tai, tai fforddiadwy, cyflogaeth a'r economi, y Gymraeg a diwylliant Cymru, darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, seilwaith, creu lleoedd a dylunio cynaliadwy, datblygu gwledig, yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol, newid yn yr hinsawdd, trafnidiaeth a hygyrchedd, mwynau a rheoli gwastraff. Mae'r polisiâu hyn yn darparu fframwaith clir a manwl ar gyfer rheoli a chyflawni datblygu yn y sir yn ystod cyfnod y Cynllun.
- 4.32 Caiff asesiad o bob polisi strategol ei ddarparu o dan yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn.

Manwerthu a chanol trefi

- 4.33 Mae'r Diweddariad ar Astudiaeth Fanwerthu Sir Gaerfyrddin (2023) [CSD 99] yn adolygu hierarchaeth fanwerthu'r sir ac yn darparu asesiad meintiol ac ansoddol o ddarpariaeth nwyddau cyfleustra a chymharu yn ardal y Cynllun. Mae'r Astudiaeth yn argymhell hierarchaeth tair haen, gyda Chaerfyrddin wedi'i dynodi'n Ganol Tref Lefel Uwch, Llanelli a Rhydaman yn Ganol Trefi Lefel Ganolog a Phorth Tywyn, Llandeilo, Llanymddyfri, Castellnewydd Emlyn, Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf yn Ganol Trefi Lefel Is. Mae ffiniau'r canol trefi dynodedig, gan gynnwys ardaloedd siopa cynradd

ac eilaidd, wedi'u hamlinellu ar y map cynigion a'u cefnogi gan dystiolaeth yn yr Archwiliad Manwerthu Canol Tref (2024), sy'n dangos maint y gweithgarwch manwerthu ym mhob un o'r canolfannau [CSD100].

- 4.33 Daw'r Astudiaeth i'r casgliad nad oes capasiti ar gyfer arwynebedd llawr manwerthu ychwanegol ar gyfer nwyddau cyfleustra neu nwyddau cymharu yn Sir Gaerfyrddin am y dyfodol rhagweladwy. Yn hytrach, awgrymir y gellid darparu ar gyfer unrhyw angen yn y dyfodol am ddatblygiad manwerthu trwy aildddefnyddio neu ailddatblygu arwynebedd llawr manwerthu gwag yn y canol trefi dynodedig neu, fel sy'n wir gyda dyraniad PrC2/MU2 – Porth Trostre, Llanelli, datblygu safle sydd â chaniatâd cynllunio ar hyn o bryd [CSD100, adran 7].
- 4.34 Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn y Diweddariad ar Astudiaeth Fanwerthu Sir Gaerfyrddin yn gyson â'r fethodoleg sy'n cael ei hybu'n genedlaethol ac felly mae'n darparu sail gadarn ar gyfer nodi a rheoli anghenion manwerthu a gofynion datblygu yn y dyfodol.
- 4.35 Caiff y fframwaith ar gyfer rheoli manwerthu a chanol trefi yn y sir ei ddarparu gan Bolisiâu SP2, RTC1 a RTC2. Mae Polisi SP2 yn amlinellu hierarchaeth fanwerthu ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac yn ceisio sicrhau bod datblygu defnyddiau manwerthu newydd a defnyddiau canol tref priodol yn cynnal ac yn gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad y canolfannau. Mae **MAC 007** yn diwygio Polisi SP2 trwy: ddileu meini prawf (c) ac (i) – (iv) sy'n ailadrodd polisi cenedlaethol; diwygiadau i faen prawf (d) i ddarparu sicrwydd ynghylch cymhwyso'r polisi; a newidiadau i'r cyfiawnhad rhesymegol er mwyn esbonio'r capasiti ar gyfer arwynebedd llawr manwerthu ychwanegol yn y sir a'r dull o asesu cynigion ar gyfer defnyddiau newydd nad ydynt yn fanwerthu yng nghanol trefi.
- 4.36 Caiff cynigion ar gyfer datblygiadau newydd a fyddai'n arwain at golli siop, gwasanaeth neu gyfleuster cymunedol lleol y tu allan i'r aneddiadau a nodir yn yr hierarchaeth fanwerthu eu hasesu'n unol â Pholisi RTC1. Bydd **MAC 008** yn egluro cymhwyso'r polisi a chwmpas yr ymarfer marchnata mewn perthynas â siopau, gwasanaethau neu gyfleusterau cymunedol lleol.
- 4.37 Yn ein barn ni, mae diffiniad hierarchaeth y canolfannau manwerthu a masnachol, yr ardaloedd siopa cynradd ac eilaidd a nodi anghenion manwerthu ar gyfer ardal y Cynllun wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn ac yn gyson â gofynion polisi a chyngor cenedlaethol.

Y Gymraeg

- 4.38 Mae tystiolaeth yn ymwneud â'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn yr ACI [CSD15], yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (2022) [CSD24], Diweddariad Tystiolaeth y Gymraeg (2024) [CSD25] a Phapur Pwnc Diwygiedig y Gymraeg [CSD80].
- 4.40 Mae Papur Pwnc Diwygiedig y Gymraeg yn esbonio bod data cyfrifiad 2021 yn dangos bod gan Sir Gaerfyrddin y nifer uchaf ond un o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, sef 72,838 o bobl yn medru'r iaith. Rhwng 1991 a 2021, gostyngodd canran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin 15% o 54.9% i 39.9%. Er nad oes crynodeb amlwg o siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw ardal benodol, mae'r wardiau etholiadol sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg wedi'u lleoli yn Nyffryn Aman a Chwm Gwendraeth.

- 4.41 Yn y cyd-destun hwn, un o faterion y Cynllun yw mesur effaith datblygu ar y Gymraeg. Mae'r CDLID yn nodi Amcan Strategol 11, sy'n ceisio cynorthwyo i ddiogelu, gwella a hybu'r iaith. Mae'r Cyngor wedi nodi'r sir gyfan yn un sy'n sensitif yn ieithyddol ac felly mae darpariaethau Polisi WL1 yn berthnasol iddi.
- 4.42 Mae'r opsiynau twf a'r safleoedd a ddyrannwyd wedi'u hasesu ar gyfer effeithiau ar y Gymraeg. Daw'r Asesiad Effaith i'r casgliad bod gan y Cynllun bosibilrwydd realistig o annog a gwireddu twf cyffredinol yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn seiliedig ar opsiwn twf sy'n tybio mudo i mewn, yn enwedig ymhlith grwpiau oedran hŷn, a allai wanhau'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, gallai trochi yn y Gymraeg, wedi'i sbarduno gan ei ddefnydd trwy addysg ymhlith oedrannau iau, wella cyfraddau yn y tymor hwy ac, o bosibl, lliniaru'r effeithiau sy'n cael eu creu gan fudo.
- 4.43 Caiff y fframwaith polisi ar gyfer y Gymraeg ei ddarparu gan Bolisiâu SP8 ac WL1. Mae Polisi SP8, yn amodol ar **MAC 031** sy'n egluro gofynion y polisi ac yn diweddarau'r cyfiawnhad rhesymegol i adlewyrchu canfyddiadau cyfrifiad 2021, yn amlinellu'r cyd-destun strategol ar gyfer diogelu, hybu a gwella'r Gymraeg.
- 4.44 Mae Polisi WL1 yn darparu'r dull ar gyfer sicrhau: bod pob datblygiad preswyl newydd a datblygiadau manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol sy'n fwy na maint penodol yn darparu Cynllun Gweithredu Iaith; a bod safleoedd tai neu gyflogaeth ar raddfa fawr ar hap-safleoedd yn darparu asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg (AEIG). Mae'r egwyddor o asesu hap-safleoedd ar gyfer effeithiau iaith yn gyson â pholisi a chyngor cenedlaethol yn TAN 20, sy'n dweud na ddylai dyraniadau safleoedd fod yn destun asesiad i'r effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai hyn yn dyblygu'r ACI a'r prosesau dewis safleoedd. Mae'r gofyniad am Gynllun Gweithredu Iaith mewn achosion penodol yn argymhelliad o'r ACI a'r asesiad effaith, sy'n argymhell mesurau lliniaru fel hybu capasiti addysg, ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chyfluoedd dysgu, a chefnogi sefydliadau sy'n hwyluso cyfranogiad cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd CCA ar wahân ar y pwnc hwn yn cynghori ar weithredu'r polisi a'r mesurau lliniaru.
- 4.45 Fodd bynnag, fel y'i drafftwyd, mae'r polisi'n brin o eglurder a sicrwydd a fydd yn tanseilio ei gymhwyso'n effeithiol. Er mwyn gwella hyn, mae **MAC 032** yn diwygio Polisi WL1 i egluro: rhaid i gynigion ar gyfer 5 neu fwy o anheddau a fydd, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn arwain ar ddatblygiad tai sy'n rhagori ar y ddarpariaeth tai ddangosol a nodir ar gyfer yr anheddiad ddarparu Cynllun Gweithredu Iaith; bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiadau tai ar raddfa fawr a safleoedd cyflogaeth ar hap-safleoedd gyflwyno AEIG; a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â hysbysebion dwyieithog.
- 4.46 Yn ogystal, er mwyn cynorthwyo i gymhwyso Polisi WL1, mae **MAC 032** a **MAC 129** yn diwygio'r Cynllun i gynnwys tabl sy'n dangos ffigur dangosol o'r cyflenwad tir ar gyfer tai ar gyfer pob anheddiad, a dangosydd newydd [**MAC102**] gyda'r bwriad o fonitro datblygiad o fewn yr aneddiadau hyn yn flynyddol ac i ganiatáu ar gyfer asesiad o'r angen am Gynllun Gweithredu Iaith.
- 4.47 At ei gilydd, rydym yn fodlon bod y diwygiadau arfaethedig i Bolisiâu SP8 ac WL1 wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn a chredadwy, y byddant yn sicrhau y caiff y polisiâu eu cymhwyso'n effeithiol a'u bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol sy'n ceisio diogelu, hybu a gwella'r Gymraeg.

Creu lleoedd a dylunio cynaliadwy

- 4.48 Mae Polisiâu SP12 a PSD1 – 13 yn darparu fframwaith i reoli'r gydberthynas rhwng creu lleoedd a dylunio cynaliadwy, gan sicrhau bod pob datblygiad newydd yn y sir yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ei lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Wrth wneud hynny, mae'r polisiâu'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chreu lleoedd, dylunio, uwchgynllunio, seilwaith gwyrdd a glas (SGG), datblygu a'r economi gylchol, cyfleusterau cymunedol, mannau agored, hysbysebion, llygredd sŵn, aer a golau a thir halogedig. Eir i'r afael â materion yn ymwneud â chyfleusterau cymunedol a mannau agored cyhoeddus yn y Penodau Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Seilwaith Tai a Chymuned ac Arferion Iach – Yr Amgylchedd Naturiol, Adeiledig a Hanesyddol.
- 4.49 Er mwyn sicrhau bod datblygiadau newydd yn cydnabod unigrywiaeth leol, yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd ac yn darparu manteision net ar gyfer bioamrywiaeth, mae Polisi SP12 yn nodi meini prawf ar gyfer creu lleoedd. Er mwyn sicrhau bod y fframwaith yn mynd i'r afael a hygyrchedd i holl ddefnyddwyr y priffyrdd, mae **MAC 045** yn diwygio Polisi SP12 (i) i gynnwys cyfeiriad at farchogion. Caiff diwygiadau pellach i'r fframwaith polisi ar gyfer rheoli cyfleusterau marchogaeth newydd eu darparu gan **MAC 063**, sy'n diwygio Polisi RD5 i egluro y dylai cynigion fod o raddfa a natur briodol sy'n briodol i'r lleoliad.
- 4.50 Mae Polisi PSD1 yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion ddangos atebion dylunio o ansawdd uchel yn unol ag egwyddorion creu lleoedd. Er mwyn sicrhau cysondeb â PCC a gwella eglurder, mae **MAC 046** yn diwygio Polisi PSD1 i gyfeirio at 'egwyddorion creu lleoedd' yn hytrach nag 'amcanion cynaliadwyedd' a 'màs' yn hytrach na 'dimensiynau'. Yn yr un modd, mae **MAC 047** a **MAC 049** yn diwygio Polisi PSD3 i ddarparu eglurder ynghylch y cwrpas a'r gofynion ar gyfer Seilwaith Gwyrdd a Glas ac i gyfiawnhad rhesymegol Polisi PSD4 i ddarparu sicrwydd ynghylch y dull i'w ddefnyddio i ddarparu coed, coetiroedd a gwrychoedd.
- 4.51 Er bod Polisi PSD9 y Cynllun yn darparu'r dull ar gyfer rheoli hysbysebion yn y sir, nid yw gofynion y polisi mewn perthynas â materion yn ymwneud ag amwynder a diogelwch y cyhoedd yn wahanol yn lleol ac maent yn dyblygu gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, fel y'i diwygiwyd. O ganlyniad, mae **MAC 055** yn dileu Polisi PSD9 ac yn cyfarwyddo bod Polisi WL1 yn mynd i'r afael â'r gofyniad i hysbysebion fod yn ddwyieithog.
- 4.52 Yn amodol ar MACs, rydym yn fodlon bod Polisi SP12 a'r polisiâu creu lleoedd a dylunio cynaliadwy ategol yn darparu fframwaith adeiladol a fydd yn sicrhau bod pob datblygiad newydd yn ardal y Cynllun yn bodloni gofynion y Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol ar gyflawni'r nodau llesiant.

Canllawiau Cynllunio Atodol

- 4.53 Mae'r Cynllun a gyflwynwyd yn nodi rhaglen ar gyfer llunio ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Bydd y CCA yn cwrpasu ystod o bynciau, gan gynnwys ACA Caeau Mynydd Mawr, tai fforddiadwy, cartrefi mewn pentrefi gwledig, Cilfach Tywyn, creu lleoedd a lleoedd cynaliadwy, cadwraeth natur a bioamrywiaeth, yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol, cymeriad y dirwedd, rhwymedigaethau cynllunio a'r Gymraeg. Mae **MAC 120** yn diweddarau'r amserlenni ar gyfer llunio'r

canllawiau, a fydd yn cael eu paratoi dros gyfnod o 6 i 24 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.

Casgliad

- 4.54 Yn amodol ar y newidiadau a argymhellir, deuwn i'r casgliad bod sail gadarn i'r weledigaeth, yr amcanion, y strategaeth a'r polisïau manwerthu a chreu lleoedd, eu bod yn gyson â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol a'u bod yn cydymffurfio â CD.

5. Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Seilwaith Tai a Chymuned

Darpariaeth tai

- 5.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru, paragraffau 4.2.6 a 4.2.7 yn ei gwneud yn glir bod yr Amcanestyniadau Aelwydydd lefel awdurdod lleol diweddaraf i Gymru gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) a'r Cynllun Llesiant ar gyfer ardal cynllun, yn rhan sylfaenol o'r sail dystiolaeth tai ar gyfer cynlluniau datblygu.
- 5.2 Mae canfyddiadau Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn dangos bod gan y sir boblogaeth o 187,900, sef cynnydd o 4,100 o bobl neu 2.2% er 2011. Caiff y data hwn ei gefnogi gan ganfyddiadau'r prif amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2018, sy'n dangos y gallai poblogaeth y sir gynyddu 6,197 o bobl erbyn 2033. Gellir priodoli lefel y twf a brofwyd i fudo net o'r DU yn bennaf ac mae'n herio'r tueddiadau naturiol sylfaenol yn sir sy'n dangos: y bydd nifer y marwolaethau a ragwelir yn parhau i fod yn uwch na nifer y genedigaethau; cynnydd sylweddol yn nifer y bobl dros 65 oed; a gostyngiad yn nifer y bobl rhwng 0 a 64 oed [CSD70, adrannau 2 a 3].
- 5.3 Mae'r Amcanestyniadau Aelwydydd yn seiliedig ar 2018 yn dangos cynnydd rhagamcanol o 4,359 o aelwydydd yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r amcanestyniad hwn yn ystyried gostyngiad disgwylidig ym maint aelwydydd yn y sir o 2.3 o bobl yn 2001 i 202 yn 2031, a byddai'n arwain at ofyniad tai blyneddol 42% yn is na'r duedd hanesyddol ar gyfer cwblhau tai yn Sir Gaerfyrddin [CSD39, paragraff 39 a CSD11, paragraff 8.5].
- 5.4 Mae'r Cyngor yn cydnabod, yng ngoleuni'r tueddiadau, y byddai trosi'r amcanestyniadau aelwydydd, heb unrhyw addasiad ar gyfer amgylchiadau lleol, yn arwain at botensial twf cyfyngedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin.
- 5.5 Fel yr amlinellwyd yn gynharach, comisiynodd y Cyngor yr Adroddiad Tai a Thwff Economaidd [CSD34] i nodi a phrofi nifer o senarios gwahanol ar gyfer twf tai. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y byddai'r senario deng mlynedd sy'n seiliedig ar dueddiadau, pan gaiff ei addasu i ystyried amgylchiadau lleol, yn darparu gofyniad am 8,822 o gartrefi newydd yn ystod cyfnod y Cynllun, a ystyriwyd fel yr opsiwn mwyaf priodol. Ystyrir y byddai'r lefel hon o dwf yn darparu darpariaeth ddigonol i sicrhau twf cynaliadwy yn y sir a, thrwy wneud hynny, yn helpu i fynd i'r afael â'r tueddiadau poblogaeth naturiol sylfaenol [CSD70, paragraff A.1.36].
- 5.6 Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn fodlon yr ymgymherwyd â'r dull a ddefnyddiwyd i ddiffinio'r Gofyniad Tai mewn modd ystyriol, ei fod wedi ystyried

ffactorau demograffig, ffactorau sirol a ffactorau sy'n gysylltiedig â pholisi ac, o ganlyniad, ei fod yn gadarn.

Cyflenwad tai

5.7 Mae Polisi SP4 yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni ffigur y Gofyniad Tai o 8,822 yn ystod cyfnod y Cynllun. Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn a hybu creu a gwella cymunedau cynaliadwy, mae'r polisi'n nodi Cyflenwad Tai (CT) o 9,704 o anheddau newydd. Mae Datganiad y Cyngor ar gyfer Sesiwn Gwrandawriad 2 yn nodi bod y CT yn cynnwys:

- 4,565 o anheddau ar safleoedd ymrwymedig (safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hadeiladu ac a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod cyfnod y Cynllun),
- 2,259 o anheddau ar ddyraniadau tai newydd,
- 1,305 o anheddau ar hap-safleoedd mawr, a
- 1,575 o anheddau ar hap-safleoedd bach.

Yn gynhenid yn y CT, mae lwfans hyblygrwydd sy'n cyfateb i 882 o anheddau neu 10%.

5.8 Mae'r dyraniadau tai yn cynnwys 82 o safleoedd sy'n amrywio o ran eu maint o 5 i 247 o anheddau ac yn darparu ychydig yn llai na chwarter y cyflenwad.

5.9 Mae'r safleoedd ymrwymedig yn cyfrif am bron i hanner y CT. Er mwyn sicrhau bod y safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn y CT yn gyflawnadwy yn ystod cyfnod y Cynllun, cynhaliodd y Cyngor adolygiad o'r holl safleoedd â chaniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl yn y sir. O'r 118 o safleoedd a adolygwyd, ystyriwyd nad oedd 37 ohonynt (tua 32%) yn debygol o gael eu datblygu yn ystod cyfnod y Cynllun. O ganlyniad, cafodd y safleoedd hyn eu hepgor o'r CT. Cafodd yr 81 safle sy'n weddill eu cynnwys yn y cyflenwad [CSD75, Atodiad 6 ac AP 2/3]. Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn fodlon bod y ffigur safleoedd ymrwymedig sydd wedi'i gynnwys yn y CT yn gadarn ac y gellir cyflawni'r safleoedd yn ystod cyfnod y Cynllun.

5.10 Yn ei Ddatganiad ar gyfer Sesiwn Gwrandawriad 2, esboniodd y Cyngor, yn seiliedig ar ddata monitro diweddar, ei bod yn amlwg na ellid cyflawni'r ffigurau hap-safleoedd mawr a bach a gynhwyswyd yn y Cynllun ac, o ganlyniad, y byddai diffyg o ryw 659 o anheddau o'r ffigur rhagamcanol o 2,880 [Datganiad y Cyngor ar gyfer Sesiwn Gwrandawriad 2, C2 a].

5.11 I fynd i'r afael â'r diffyg hwn yn y ddarpariaeth, mae **MAC 004, MAC 011 a MAC 012** yn diwygio Polisiâu SP4 a HOM1 i gynnwys tir ar gyfer 769 o anheddau ychwanegol. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy gyfuniad o 14 o ddyraniadau newydd ac 16 o safleoedd ymrwymedig a fyddai'n cynyddu ffigur y CT i 9,814 o anheddau. Er mwyn sicrhau eglurder ynghylch cwmpas daearyddol y safleoedd, mae **MACM/PrC1/c, MACM/SeC6/c, MACM/SeC7/a, MACM/PrC3/a, MACM/PrC3/b, MACM/PrC3/c, MACM/PrC3/d, MACM/PrC3/g, MACM/SuV59/a, MACM/PrC1/a, MACM/PrC1/b, MACM/SeC1/a, MACM/SuV2/a, MACM/PrC2/a, MACM/SeC3/a, MACM/SeC3/b, MACM/SeC6/a, MACM/PrC3/e, MACM/PrC3/f, MACM/SuV25/a, MACM/SuV37/a a MACM/SeC19/a** yn gwneud newidiadau perthnasol i'r mapiau cynigion.

- 5.12 Yn sgil y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn fodlon bod **MAC 011 a MAC 012** yn angenrheidiol i sicrhau digonolrwydd a chadernid y CT yn ystod cyfnod y Cynllun. Maent wedi'u seilio ar dystiolaeth gynhwysfawr a chredadwy sy'n dangos yn glir y gellir cyflawni'r safleoedd ychwanegol hyn.
- 5.13 I wahaniaethu'n glir rhwng safleoedd a dyrannwyd a safleoedd ymrwymedig, mae **MAC 013** yn diwygio Polisi HOM1 trwy ddileu'r safleoedd hynny sydd â chaniatâd cynllunio. Mae'r safleoedd ymrwymedig hynny yn parhau yn y CT cyffredinol, ond nid fel dyraniadau, a chaiff eu manylion eu cadw yn Atodiad 7 y CDLID. Yn ogystal, er mwyn rhoi eglurder ynghylch y dyraniadau, mae **MAC 126** yn cynnwys atodlen sy'n darparu gwybodaeth fanwl yn ymwneud â materion fel nodweddion unigol, gofynion datblygiad a chyflawni pob safle.
- 5.14 Mae elfen hap-safleoedd diwygiedig y cyflenwad yn darparu ar gyfer adeiladu 2,110 o anheddau ar safleoedd heb eu dyrannu yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys 1,504 o anheddau ar hap-safleoedd bach a 606 o anheddau ar hap-safleoedd mawr yn ystod y cyfnod. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd gyflenwi flynyddol gyfunol o tua 141 o anheddau. Cyfrifwyd y lwfans gan ystyried y data tueddiadau hanesyddol mewn perthynas â chwblhau ar hap-safleoedd mawr a bach yn ystod y cyfnod o 2007/8 hyd 2022/23, wedi'i ddiweddarau i ganiatáu ar gyfer data 2023/24 [CSD75, Adran 3 a Datganiad y Cyngor ar gyfer Sesiwn Gwrandawriad 2, C2 a].
- 5.15 Er na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â chapasiti aneddiadau yn y sir ar gyfer datblygiadau ychwanegol, cyflwynwyd data tueddiadau hanesyddol sy'n dangos y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 2,030 o anheddau ar hap-safleoedd rhwng 2015/16 a 2023/24. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 225 o anheddau'r flwyddyn. O'i allosod dros 6 blynedd gyntaf cyfnod y Cynllun, mae hyn yn cyfrif am 1,350 o anheddau, sef tua 60% o'r lwfans ar gyfer hap-safleoedd yn y CT. Er nad yw llawer o'r safleoedd hyn wedi'u datblygu hyd yn hyn, mae'n amlwg bod ganddynt y potensial i wneud cyfraniad sylweddol tuag at gyflawni elfen hap-safleoedd y CT yn ystod cyfnod y Cynllun [AP2/2, Atodiad 3 a 4].
- 5.16 Mae data monitro wedi'i ddiweddarau o fis Mawrth 2025 [AP2/6] yn dangos, ers y dyddiad sylfaen a gyflwynwyd: bod nifer y tai a gwblhawyd mewn gwirionedd wedi cynyddu o 2,137 i 3,017 o anheddau; o ran y tai y disgwylir eu cwblhau, y bu gostyngiad yn nifer yr anheddau ar safleoedd â chaniatâd cynllunio, sy'n cynnwys y rhai sy'n cael eu hadeiladu, o 4,342 i 2,750; bod nifer yr anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd wedi cynyddu o 2,482 i 2,685; a bod cyfanswm yr anheddau i'w darparu o hap-safleoedd wedi gostwng i 1,362 o anheddau.
- 5.17 Mae ffigur y CT yn cynnwys lwfans hyblygrwydd. Yn amodol ar **MAC 011 a MAC 012**, byddai'r lwfans hyblygrwydd yn cael ei gynyddu o 10% yn y Cynllun a gyflwynwyd i ychydig yn fwy nag 11%, sy'n cyfateb i 992 o anheddau. Mae'r lefel hon o ddarpariaeth yn cyfateb i gyfradd adeiladu flynyddol ddisgwyliedig y Cynllun am gyfnod o rhwng 1 a 2 flynedd ac, yn ein barn ni, byddai'n ddigonol i oresgyn unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth a allai ddigwydd yn ystod rhan olaf cyfnod y Cynllun. Felly, rydym yn fodlon bod y dull yn cynrychioli ffordd realistig a synhwyrol o gynnal y ddarpariaeth tai yn ystod cyfnod y Cynllun.

Dosbarthu a chyflenwi tai

- 5.18 Caiff y dyraniadau tai a'r safleoedd ymrwymedig a nodir ym Mholisi HOM1, fel y'i diwygiwyd gan **MAC 013**, eu dosbarthu yn unol â Pholisi SP3. Bydd y twf ym mhob haen o'r hierarchaeth aneddiadau a'r clystyrau yn Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

Tabl 6 – Hierarchaeth Aneddiadau	Haen	% Dosbarthiad y dyraniadau tai a'r safleoedd ymrwymedig (yn fras)
Prif Ganolfannau	1	55%
Canolfannau Gwasanaeth	2	31%
Pentrefi Cynaliadwy	3	11%
Pentrefi Gwledig	4	3%

Tabl 7 – Clystyrau	Rhif	% Dosbarthiad y dyraniadau tai a'r safleoedd ymrwymedig (yn fras)
Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig	1	24%
Llanelli a Gwendraeth Isaf	2	42%
Aman a Gwendraeth Uchaf	3	20%
Teifi	4	3%
Tywi Uchaf	5	2%
Gorllewin Sir Gaerfyrddin	6	9%

- 5.19 Aneddiadau Haen 1 a Haen 2 fyddai prif ffocws datblygiadau tai newydd, gyda 4,723 o anheddau'n cael eu hadeiladu yn y Prif Ganolfannau a 2,660 o anheddau'n cael eu hadeiladu yn y Canolfannau Gwasanaeth yn ystod cyfnod y Cynllun. Byddai darpariaeth yn yr aneddiadau hyn, i raddau helaeth, yn seiliedig ar gyfuniad o safleoedd wedi'u dyrannu a safleoedd ymrwymedig. Byddai darparu tai newydd mewn Pentrefi Cynaliadwy a Phentrefi Gwledig yn dibynnu'n gyffredinol ar safleoedd wedi'u dyrannu a datblygiadau ar hap-safleoedd mawr a bach.
- 5.20 Mae Tabl 7 yn dangos y byddai tuag 86% o'r datblygiadau tai yn ardal y Cynllun yng Nghlystyrau 1, 2 a 3. Mae hyn yn adlewyrchu presenoldeb 3 Phrif Ganolfan ac 11 Canolfan Gwasanaeth yn y Clystyrau hyn, sy'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer twf yn y sir.
- 5.21 At ei gilydd, rydym yn fodlon y byddai'r dull a ddefnyddiwyd yn y CDLID, fel y'i diwygiwyd gan y MACs, yn sicrhau dosbarthiad realistig a chytbwys o dai marchnad

a thai fforddiadwy, ac yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Strategaeth Ofodol y Cynllun.

- 5.22 Er mwyn cyrraedd ffigur y CT o 8,822 o anheddau, byddai angen adeiladu 588 o anheddau y flwyddyn yn y sir trwy gydol cyfnod y Cynllun. Yn amodol ar **MAC 123 a MAC 124**, mae'r taflwybr yn dangos bod 2,326 o anheddau wedi'u hadeiladu rhwng 2018 a 2023, y rhagamceni'r adeiladu 3,627 o anheddau rhwng 2023 a 2028 a, rhwng 2028 a 2033, y disgwylir adeiladu 3,861 o anheddau pellach. Byddai'r twf yn y gyfradd gyflenwi a ragwelir yn y taflwybr yn arwain at y gyfradd adeiladu gyfartalog yn cynyddu o ychydig yn fwy na 465 o anheddau y flwyddyn yn ystod pum mlynedd gyntaf y Cynllun i 734.8 o anheddau y flwyddyn yn ystod y pum mlynedd olaf. Gellir priodoli'r cynnydd hwn yn bennaf i adeiladu a fydd yn digwydd ar nifer o safleoedd a ddyrannwyd a safleoedd ymrwymedig ar raddfa fawr rhwng 2028 a 2033.
- 5.23 Er bod y cyfraddau cyflawni yng nghyfnodau diweddarach y Cynllun yn uchelgeisiol, rydym yn fodlon bod y taflwybr wedi'i seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, ei fod yn cynrychioli asesiad realistig o'r gyfradd adeiladu debygol yn y sir yn ystod cyfnod y Cynllun a'i fod yn gyson â'r gofynion twf a amlinellir yn y Cynllun a CD.

Polisiâu tai eraill

- 5.24 Bydd cynigion ar gyfer datblygu tai ar safleoedd heb eu dyrannu mewn aneddiadau Haen 1, 2 a 3, yn amodol ar ofynion **MAC 014**, yn cael eu hasesu'n unol â gofynion Polisi HOM2. Caiff y dull ar gyfer rheoli tai ar raddfa fach mewn aneddiadau Haen 4 ac aneddiadau gwledig eu darparu gan Bolisi HOM3. Er mwyn rhoi sicrwydd o ran ei gymhwyso, mae **MAC 015** yn diwygio Polisi HOM3 i gynnwys meini prawf newydd / diwygiedig sy'n ceisio rheoli lleoliad, natur, graddfa a dyluniad datblygiadau arfaethedig er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith andwyol ar gymeriad, golwg a bywiogrwydd yr aneddiad a'i gymuned nac yn arwain at ddatblygiad hirgul neu ymlediad trefol. Yn ein barn ni, mae'r dull diwygiedig ym Mholisi HOM3 yn darparu mwy o eglurder ynghylch ei ofynion ac yn cydymffurfio ag amcanion polisi cenedlaethol i reoli datblygu yn nghefn gwlad.
- 5.25 Nid yw'r CDLID a gyflwynwyd yn cynnwys polisi sy'n mynd i'r afael â dwysedd tai. Mae absenoldeb ffigur meincnod ar gyfer anheddau fesul hectar yn golygu nad oes gan y cynllun y sicrwydd angenrheidiol i sicrhau y caiff darpariaethau Polisiâu SP4, SP12, HOM1, PSD1 a PSD4 eu cyflawni. I wella hyn, mae **MAC 057** yn ychwanegu polisi newydd sy'n ceisio sicrhau bod gan ddatblygiadau tai newydd yn Haenau 1-3 yr hierarchaeth aneddiadau ddwysedd net o 50 o anheddau fesul hectar. Trwy wneud hynny, mae'r polisi'n egluro mai man cychwyn yw 50 annedd fesul hectar ac y gallai datblygiad â dwysedd uwch neu is fod yn dderbyniol, yn amodol ar ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- 5.26 Mae Polisi HOM6 yn darparu'r fframwaith ar gyfer asesu cynigion ar gyfer tai arbenigol. Er mwyn egluro sut caiff y polisi ei gymhwyso, mae **MAC 018** yn sicrhau, yn ogystal â dangos eu bod yn hyfyw ac yn gynaliadwy, ei fod yn ofynnol i gynigion ar gyfer tai arbenigol y tu allan i'r terfynau datblygu diffiniedig fodloni angen sydd wedi'i ddiffinio'n glir. Caiff Polisiâu HOM7 a HOM8 eu diwygio hefyd i sicrhau y darperir fframwaith clir ar gyfer asesu cynigion i adnewyddu anheddau adfeiliedig neu sydd wedi'u gadael, a charafanau preswyl (**MAC 019 a MAC 020**).

Seilwaith cymunedol

- 5.27 Caiff y fframwaith ar gyfer rheoli seilwaith cymunedol yn y sir ei ddarparu gan Bolisi SP9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiadau newydd gael eu cyfeirio at leoliadau cynaliadwy lle mae'r seilwaith, y gwasanaethau a'r cyfleusterau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i gyflawni a chefnogi'r cynnig ar gael, neu lle gellir dangos y gellir gwneud darpariaeth briodol. Caiff y sail dystiolaethol ar gyfer Polisi SP9 ei darparu gan y Papur Pwnc Asesiad Seilwaith [CSD78], sy'n darparu trosolwg o'r seilwaith newydd a fydd yn ofynnol yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth newydd ar gyfer trafnidiaeth a theithio llesol, cyfleusterau addysg a chymdeithasol, seilwaith gwyrdd a glas, cyfleustodau a rheolaeth amgylcheddol.
- 5.28 I gefnogi Polisi SP9, mae Polisiâu INF1, INF2, INF3 ac INF4 yn darparu dull ar gyfer rheoli rhwymedigaethau cynllunio, cynnal a gwella cymunedau iach, darparu band eang a thelathrebu, a gwasanaethu dyraniadau gwledig y tu allan i ddalgylchoedd system carthffosiaeth cyhoeddus. Er mwyn sicrhau dull clir a chyson o sicrhau rhwymedigaethau cynllunio, mae **MAC 033** yn ehangu gofynion Polisi INF1 i gynnwys mesurau i liniaru effaith datblygiadau newydd ar ecoleg ac i adleoli'r gofynion gweinyddol mewn perthynas ag asesiadau hyfywedd i gyfiawnhad rhesymegol y polisi. Yn yr un modd, mae **MAC 034** a **MAC 035** yn diwygio Polisiâu INF2 ac INF3 i ddarparu eglurder ynghylch y gofynion ar gyfer cynnal asesiad o'r effaith ar iechyd mewn perthynas â chynigion datblygu mawr, a'r angen i ddarparu seilwaith band eang cyflym newydd yn rhan o bob cynllun cymdeithasol a chyflogaeth newydd. Mae **MAC 037** yn diwygio Polisi INF5 i sicrhau nad yw datblygu'n cael effaith andwyol ar gyfanrwydd ACAau afonol a morol sy'n sensitif i faetholion.
- 5.29 Fel y'i drafftiiwyd, nid yw'r Cynllun a gyflwynwyd yn cynnwys fframwaith ar gyfer rheoli diogelu cyfleusterau cymunedol fel siopau, swyddfeydd post, tafarndai neu orsafoedd petrol mewn aneddiadau llai sydd wedi'u lleoli y tu allan i Brif Ganolfannau a Chanolfannau Gwasanaeth. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae **MAC 052** yn ychwanegu polisi newydd a fydd ond yn caniatáu newydd cyfleusterau cymunedol presennol i ddefnyddiau eraill lle mae cyfleuster tebyg neu gydnaws o fewn pellter cerdded cyfleus; neu, lle bo'n berthnasol, o fewn Pentref Cynaliadwy neu Bentref Gwledig cyfagos; ac na fyddai colli'r cyfleuster yn niweidiol i wead cymdeithasol ac economaidd y gymuned. Mae'r polisi'n ei gwneud yn glir, lle nad oes darpariaeth amgen addas, y bydd colli cyfleuster cymunedol ond yn cael ei ganiatáu lle gellir dangos bod y busnes sydd ar werth neu ar osod wedi cael ei farchnata am gyfnod o dros 12 mis.

Casgliad

- 5.30 Felly, deawn i'r casgliad, yn amodol ar y MACs, bod darpariaeth a dosbarthiad y tir ar gyfer tai a nodir yn y CDLID yn realistig, yn briodol ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy. Ar ben hynny, mae tafliwybr tai y Cynllun diwygiedig yn realistig ac mae ganddo obaith rhesymol o ddarparu a chynnal cyflenwad priodol o dir ar gyfer tai trwy gydol cyfnod y Cynllun.

- 5.31 Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym hefyd yn fodlon, yn amodol ar y MACs, bod y fframwaith polisi ar gyfer seilwaith cymunedol yn y CDLID yn glir, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy, yn gyson â gofynion polisi cenedlaethol ac yn cydymffurfio'n gyffredinol â CD.

6 Safleoedd a Ddyrannwyd

Proses asesu safleoedd

- 6.1 Galwodd y Cyngor am safleoedd rhwng mis Chwefror a mis Awst 2018 a arweiniodd at gyflwyno 926 o safleoedd, a thua 310 ohonynt yn ddyraniadau CDLI presennol. Roedd y mwyafrif y safleoedd a gyflwynwyd ar gyfer tai, tra bod cyflwyniadau eraill yn ceisio cyflogaeth, defnydd cymysg, hamdden a diogelu tir rhag datblygu. Aseswyd safleoedd trwy broses tri cham i benderfynu ar eu haddasrwydd i'w dyrannu, a darperir manylion amdanynt yn y Fethodoleg Asesu Safle [CSD101].
- 6.2 Roedd y cam cyntaf yn cynnwys asesiad lefel uchel o bob safle yn erbyn y strategaeth twf. O dan yr ail gam dwy ran, tynnwyd safleoedd â chyfyngiadau amgylcheddol sylfaenol na ellid mynd i'r afael â nhw, gan gynnwys ardaloedd perygl llifogydd, dynodiadau cadwraeth natur, a Henebion Cofrestredig. Diystyriwyd hefyd safleoedd nad oeddent o fewn anheddiad Haenau 1-3 nac yn gysylltiedig ag anheddiad felly, ac nad allent ddarparu ar gyfer 5 annedd neu ragor.
- 6.3 Yn yr ail is-gam, cynhaliwyd asesiad manylach o addasrwydd y safle yn erbyn ystod o feini prawf cynaliadwyedd, hygyrchedd ac amgylcheddol. Aseswyd y safleoedd hynny yr aethpwyd ymlaen â hwy yn erbyn y Fframwaith ISA. Yn y trydydd cam, roedd y safleoedd a ffafriwyd yn destun HRA i bennu eu heffeithiau, ar eu pennau eu hunain ac mewn cyfuniad, ar Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd.
- 6.4 Caiff canlyniadau asesu safle [CSD102-CSD118] eu categorio yn ôl dyraniadau arfaethedig, dewisiadau amgen rhesymol a safleoedd nad aethpwyd ymlaen â hwy, gyda chrynodeb tabl ar gyfer pob safle a gyflwynwyd [CSD103]. Mae'r canlyniadau hyn wedi llywio'r capasiti posibl ar gyfer pob safle o ran nifer swyddi ac anheddau, fel y nodir ym Mhapur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol Rhan 1 Tai [CSD75] a Thwf a Dosbarthiad Gofodol – Rhan 2 Creu Swyddi a'r Economi [CSD76] yn y drefn honno.
- 6.5 Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn fodlon bod asesiad safle cadarn wedi'i gynnal sy'n dangos bod y safleoedd a ffafrir yn cydymffurfio â strategaeth y Cynllun cyffredinol, yn rhydd o gyfyngiadau sylweddol a bod modd eu cyflawni yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun. Mae'r broses hon hefyd yn esbonio bod safleoedd wedi'u diystyru mewn ffordd gyson a rhesymegol. Mae'r dull cyffredinol yn cydymffurfio â darpariaethau polisi a chanllawiau cenedlaethol.

Materion cyffredin a godwyd

- 6.6 Mae'r adran ganlynol yn mynd i'r afael â materion sy'n gyffredin i nifer o ddyraniadau tir tai a chyflogaeth a hefyd yn ymdrin â nifer o'r sylwadau a gafwyd ar safleoedd unigol. Ymdriniwyd â materion mewn perthynas ag effeithiau maetholion mewn dŵr gwastraff ar ddyraniadau mewn ACA afonol a morol yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Safleoedd wedi'u rholio ymlaen

- 6.7 Aseswyd tua 310 o safleoedd o gynlluniau blaenorol i'w dyrannu o bosibl yn y CDLI newydd. Mae'r DPM yn cynghori, er mwyn rholio safleoedd ymlaen o gynllun blaenorol i gynllun newydd, y bydd angen newid sylweddol mewn amgylchiadau i ddangos y gellir eu cyflawni a chyfiawnhau eu cynnwys eto.
- 6.8 Bu dyraniadau wedi'u rholio ymlaen yn destun yr un asesiad â safleoedd newydd. Eglura'r dogfennau Asesiadau Safle [CSD104-109] ymhle ceisiwyd tystiolaeth ychwanegol gan dirfeddianwyr a hyrwyddwyr i gyfiawnhau eu cynnwys. Mae nifer o ddatganiadau o dystiolaeth a datganiadau o dir cyffredin [CSD121, 122, 123, 124, 127, 138, 145, 150, 153, 159, 176, 177, 180, 184, 187, 190 a 202] wedi'u paratoi a'u cytuno gyda'r Cyngor i gefnogi'r gwaith o gyflawni safleoedd yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun.
- 6.9 Fel y crynhoir yn y Tabl Asesu Safleoedd [CSD103], mae 44 o safleoedd tai ac 11 o safleoedd cyflogaeth wedi'u rholio ymlaen, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, neu wedi'u dyrannu yn y CDLI newydd. Ar wahân, mae nifer o safleoedd a gafodd eu rholio ymlaen wedi cael caniatâd cynllunio, ac maent bellach yn ymrwymadau. Gyda rhai safleoedd a gafodd eu rholio ymlaen, gan gynnwys SuV51/h1 gyferbyn â Neuadd y Pentref, Cwmifor, SeC8/h2 Cae Linda, Trimsaran, SeC15/h1 Tir i'r Gogledd o Dan y Crug, a SeC16/h1 Ardal Ogleddol Llandeilo, mae eu harwynebedd wedi lleihau. Mae hyn naill ai oherwydd bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar ran o'r safle, neu y byddai lleihau arwynebedd y safle yn eu gwneud yn haws eu cyflawni.
- 6.10 Y prif reswm dros beidio â rholio safleoedd a ddyrannwyd ymlaen yw ansicrwydd o ran eu cyflawni. Fel arfer, mae'r rhesymau'n ymwneud â dim bwriad pendant gan dirfeddianwyr i ddod â'r safleoedd hynny ymlaen dros y blynyddoedd yn y cyfamser, materion danfon ffisegol megis mynediad (T3/5/h5 Tir yn Heol Glan Gwendraeth, Pont-iets/Meinciau a SC18/h4 Ger Ffrwdwen), dim ceisiadau cynllunio wedi'u cyflwyno neu ganiatâd sydd wedi dod i ben lle nad oes unrhyw ddatblygiad wedi dechrau. Mae rhai safleoedd wedi'u rholio ymlaen yn parhau i fod o fewn y terfynau datblygu a gallent gael eu cyflwyno fel datblygiad ar hap o fewn cyfnod y Cynllun.
- 6.11 Er ein bod yn nodi'r pryderon a godwyd mewn perthynas â'r gallu i gyflawni rhai safleoedd wedi'u rholio ymlaen, rydym yn fodlon y bu'r dull o ail-werthuso'r safleoedd hyn yn drylwyr a bod y dystiolaeth yn dangos y gellir eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun.

Safleoedd Rhwymedig

- 6.12 Mae HS y Cynllun a gyflwynwyd yn nodi 119 o safleoedd rhwymedig. Mae'r safleoedd hyn yn elwa ar ganiatâd cynllunio; mae'r datblygiad arnynt naill ai heb ddechrau eto, yn parhau neu wedi'i gwblhau (DPM Tabl 18).
- 6.13 Yn ystod yr archwiliad mynegwyd pryderon ynghylch y gallu i gyflawni nifer o'r safleoedd rhwymedig o fewn HS y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, PrC2/h4 – Tir yn Noc y Gogledd, PrC2/h22 – Tir yng Nghwm y Nant, SeC7/h1 – Tir yn Box Farm, SeC6/h1 – Tir oddi ar Clayton Road, PrC3/h4 – Fferm Tirychen, PrC3/h36 – Tir yng Nglofa'r Betws, PrC3/h22 – Tir ger Pant y Blodau a SeC4/h2 – Tir yn Harbwr Porth Tywyn.
- 6.14 Esboniodd y Cyngor yn ei gyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig i Sesiynau Gwrandawriad 7 – 14, fod yr oedi wrth gyflawni wedi'i achosi, yn bennaf, gan yr angen i fynd i'r afael â nifer o gyfyngiadau ffisegol ar safleoedd unigol, a chan

amodau perchnogaeth tir / y farchnad. Dadleuwyd nad oes unrhyw un o'r materion hyn yn anorchfygol ac y byddai'r safleoedd rhwymedig yn cael eu datblygu o fewn cyfnod y Cynllun. Cefnogir hyn gan drafodaethau gyda thirfeddianwyr / datblygwyr yn ystod paratoi'r CDLI newydd. Nid oes unrhyw dystiolaeth sylweddol wedi'i chyflwyno i awgrymu bod yr honiadau hyn yn anghywir.

- 6.15 Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn fodlon nad oes gan yr un o'r safleoedd rhwymedig unrhyw gyfyngiadau ffisegol sylweddol a fyddai'n atal eu datblygu ac y bydd y safleoedd, gyda'r gwelliant yn y farchnad dai, yn cael eu hadeiladu i raddau helaeth fel yr amlinellir yn y taflwybr.

Tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas

- 6.16 Mae ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin yn cynnwys ardaloedd sylweddol o Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMVAL) o amgylch llawer o aneddiadau, gan gynnwys darnau bach o dir gradd 2 yn ardal dde-ddwyreiniol y Sir.
- 6.17 Mae PPW yn glir y dylid rhoi pwys sylweddol i amddiffyn BMVAL rhag datblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. Cafodd datblygiad ar BMVAL ei ystyried drwy fethodoleg asesu safle'r CDLI newydd [CSD101] ac ISA [CSD16], a'r ddau ohonynt yn cynnwys cwestiynau asesu sy'n gysylltiedig â Map Dosbarthu Tir Amaethyddol Rhagfynegol 2. Roedd presenoldeb BMVAL yn ffactor yn y ffaith na chafodd llawer o safleoedd eu dyrannu [CSD111 – CSD117].
- 6.18 Fel y nodir yn y papur pwnc [CSD79], mae'r rhan fwyaf o'r dyraniadau yn cynnwys tir nad yw'n BMVAL. Mewn nifer o achosion, mae maint y BMVAL gradd 2 neu 3a ar ddyraniadau yn gymedrol. Mae hyn yn berthnasol i PrC2/h23 Porth Dwyrain Dafen, SeC7/h4 gyferbyn â Pharc Morlais, SeC15/h2 Tir ger Bryndeilog, Rhodfa Tywi, PrC1/E1(i) Tir i'r gorllewin o Orllewin Heol Cillefwr. Mae nifer o safleoedd sy'n cynnwys BMVAL, megis PrC1/MU1 Gorllewin Caerfyrddin, hefyd yn elwa ar ganiatâd cynllunio.
- 6.19 Mae rhai safleoedd naill ai o fewn terfynau datblygu neu'n gysylltiedig yn agos â nhw. Maent yn cynnwys PrC1/(iv)- Tir oddi ar Heol Trevaughan, PrC1/h8 Heol Llansteffan, SeC18/h6 yn Sanclêr, SeC19/h2 Tir yn Hufenfa Hendy-gwyn ar Daf, SuV61/h1 Tir yn Fferm Nieuport, PrC1/E1(ii) Tir i'r Gogledd o Heol Alltynap a PrC1/E1(iii) Tir i'r de o Alltynap. Yn yr un modd, mae sawl dyraniad cyflogaeth yn Nafen, Llanelli - PrC2/E2(i) Tir i'r dwyrain o Calsonic, PrC2/E2(iv) Tir i'r Gorllewin o Heol Gors a PrC2/E2(v) Tir yn Heol Croppin - mewn ardal adeiledig yn bennaf a byddent i bob pwrpas yn llenwi neu'n cwblhau ardaloedd cyflogaeth sefydledig. Yn yr un modd, mae rhannau o Barc Gwyliau Talacharn SeC20/MU1 yn radd 3a ond yn dod o fewn ffiniau'r parc gwyliau ac nid ydynt yn cael eu defnyddio yn amaethyddol ac ni adeiladwyd arnynt. Ym mhob un o'r achosion hyn, mae defnydd amaethyddol cynhyrchol o safleoedd yn annhebygol o ystyried y ffurf adeiledig amgylchynol.
- 6.20 Mewn rhai aneddiadau gwledig, nid yw'r cyfleoedd ar gyfer datblygu ar safleoedd o dir amaethyddol gradd is ar gael. Mae presenoldeb amgylchedd hanesyddol a chyfyngiadau perygl llifogydd yn cyfyngu ar gyfleoedd datblygu yn Llanymddyfri a Thalacharn. Felly, mae'r Cyngor wedi penderfynu dyrannu cwantwm o ddatblygiad

sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth yr aneddiadau hynny. Mae'r angen trechaf am ddatblygu, ynghyd â diffyg tir gradd is sydd ar gael, yn cyfiawnhau cynnwys SeC12/h1 Trem y Ddôl, SeC20/h2 ger Ysgol Talacharn, a SuV17/h1 Y tu ôl i'r Waith Saer, Heol yr Orsaf, Nantgaredig.

- 6.21 Mae'r ystyriaethau uchod yn dangos bod colli BMVAL yn un ystyriaeth ymhlith llawer wrth benderfynu pa safleoedd i'w datblygu. Gyda angen trechaf wedi'i gyfiawnhau am dai a thwf economaidd o'r raddfa a ragwelir, ac ychydig o gyfleoedd i ddatblygu ar PDL, mae colli rhywfaint o dir amaethyddol yn anochel. Trwy'r dilyniant chwilio a'r fethodoleg dyrannu safleoedd, ystyriwyd presenoldeb BMVAL wrth benderfynu ble i ddyrannu tir. Felly, rydym yn fodlon bod y dewisiadau dyrannu safleoedd wedi'u cyfiawnhau yn unol â pholisi cenedlaethol.

Bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol

- 6.22 Cyhoeddwyd Rhifyn 12 o PPW gan y Llywodraeth ym mis Chwefror 2024. O berthnasedd i'r CDLI newydd mae'r diwygiadau bioamrywiaeth i Bennod 6 sy'n esbonio y dylai dyraniadau safleoedd ddilyn dull fesul cam trwy sicrhau bod unrhyw effeithiau amgylcheddol andwyol yn cael eu hosgoi yn gyntaf, yna eu lleihau, eu lliniaru, ac fel dewis olaf y digolledir amdanynt. Ym mhob cam rhaid i gynllun rheoli hirdymor esbonio sut y bydd budd net i fioamrywiaeth yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â mesurau gwella y cytunwyd arnynt. Mae newid allweddol cysylltiedig yn ceisio cryfhau diogelu coed trwy gymhareb blannu newydd o dair coeden o leiaf ar gyfer pob un a gollir ar safle, o ystyried ansawdd a phwysigrwydd amgylcheddol ac ecolegol y coed hynny.
- 6.23 Yn ystod yr archwiliad mynegwyd nifer o bryderon am yr effaith y gallai'r diwygiadau i bolisi cenedlaethol ei chael ar rai dyraniadau. Maent yn cynnwys PrC1/h4 Parc y Delyn, Caerfyrddin, PrC2/h10 Tir sy'n gyfagos i'r Dell, Ffwrnais, PrC2/h22 Cwm y Nant, Dafen, PrC2/h4 Tir yn Noc y Gogledd, Llanelli, PrC3/h4 Fferm Tirychen, Rhydaman, PrC3/h22 Tir Ger Pant y Blodau, Penygroes, PrC3/h14 Tir yn Nantydderwen, Drefach, PrC3/(ii) Tir ger Pant-y-Blodau, Penygroes, PrC3/(viii) - Tir r/o 108 - 114 Waterloo Road, PrC3/(ix) Breakers Yard, Gorslas, SeC7/h3 Tir yng Ngolwg yr Afon, Llangennech, SeC8/h2 Cae Linda, SeC9/h2 Heol Gelynen, Brynaman a SeC17/h1 Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Llangadog.
- 6.24 Mae pryderon cynrychiolwyr yn cyfeirio at bresenoldeb coed, gwrychoedd, rhywogaethau gwarchodedig a chynefinoedd anadferadwy o fewn y safleoedd hyn, a'u heffeithiau posibl ar ragdybiaethau capasiti safle a chyflawniad cyffredinol. Cyfeiriwyd hefyd at benderfyniadau cynllunio diweddar yn Sir Gaerfyrddin lle nodwyd nodweddion ecolegol, gan arwain at lai o gapasiti safle ac, mewn rhai achosion, gwrthod caniatâd am beidio ag amlygu'r dull fesul cam.
- 6.25 Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd, cynhaliodd y Cyngor adolygiad ecolegol bwrdd gwaith o bob un o'r dyraniadau tai a chyflogaeth [AP1/20]. Mae'r gwaith hwn yn ategu'r asesiad o ystyriaethau ecolegol yn yr asesiadau safle unigol [CSD104-109] ac ISA [CSD16-20].
- 6.26 Roedd yr asesiad yn categoreiddio pob safle yn goch, ambr a gwyrdd yn seiliedig ar gyfyngiadau a chyfleoedd posibl ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae'r categori coch yn cynnwys tri dyraniad tai lle mae potensial ar gyfer cyfyngiadau nodedig, ac mae dau ohonynt (PrC2/h10 a SeC7/h3) yn cael eu trafod ar wahân isod gyda'r trydydd yn elwa ar ganiatâd cynllunio. Mae gan safleoedd yn y categori ambr

nodweddion ecolegol posibl y bydd angen iddynt ystyried y dull fesul cam ond sy'n dderbyniol yn gyffredinol. Yn gyffredinol, nid oes gan safleoedd categori gwyrdd unrhyw broblemau nodedig, er bod sylwadau fel arfer yn cyfeirio at gadw coed a gwrychoedd.

- 6.27 Er y gallai'r broses fesul cam arwain at ddiwygiadau i gynlluniau a galluoedd safleoedd, nid yw'r canfyddiadau'n awgrymu na ddylid datblygu'r dyraniadau hynny. Yn wir, mae'r capasiti tai ar gyfer pob dyraniad wedi'i osod yn bwrpasol yn ddangosol yn hytrach na ffigur uchafswm neu isafswm. Rydym yn fodlon y gellir ymgorffori'r argymhellion i ddiogelu coed, coetir a gwrychoedd, ochr yn ochr ag unrhyw blannu digolledu, ar gyfer y rhan fwyaf o safleoedd, mewn dyluniadau manwl heb effeithio ar gynnyrch y safle. Pan fydd angen gwaith arolygu ychwanegol i gefnogi ceisiadau unigol, rydym yn cytuno â'r Cyngor fod materion o'r fath yn cael eu trafod orau yn y cam cais cynllunio.
- 6.28 Yn gyffredinol, rydym yn fodlon bod yr asesiad wedi ystyried yn gadarn yr effaith ar ecoleg pob dyraniad ac wedi cyfiawnhau cynnwys safleoedd lle bo nodweddion o'r fath yn berthnasol. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd yn fras â darpariaethau polisi cenedlaethol.

Dyraniadau safleoedd unigol

PrC1/MU1 Gorllewin Caerfyrddin

- 6.29 Mae'r safle defnydd cymysg yn cynnwys ardal sylweddol o dir tonnog ar gyrion gorllewinol y dref. Mae'r safle a ddyrannwyd yn rhan o safle llawer mwy o faint, y bwriadwyd iddo ddarparu ar gyfer tua 700 o anheddau, ac mae wedi'i rollo ymlaen o'r CDLI mabwysiedig fel safle strategol allweddol. Mae defnyddiau eraill a gynigir yn cynnwys cyflogaeth, mannau agored cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol. Mae briff cynllunio a datblygu cymeradwy [CSD125] ar waith i gyflwyno'r dyraniad.
- 6.30 Codwyd gwrthwynebiadau i'r amserlenni hir ar gyfer cyflawni'r safle hwn. Fodd bynnag, mae 133 o anheddau wedi'u hadeiladu ac mae gan 345 o anheddau eraill ganiatâd cynllunio. Mae hyn yn gadael 222 o anheddau wedi'u dyrannu yn y CDLI newydd, a 291 o anheddau eraill i ddod ymlaen y tu allan i gyfnod y Cynllun.
- 6.31 Mae cwblhau'r ffordd gyswllt yn 2019 wedi datgloi datblygiad. Roedd y gyfres o ddatganiadau sefyllfa [CSD120], datganiadau tir cyffredin [CSD123 a 124] a datganiadau tystiolaeth [CSD121] yn nodi'r statws ar gyfer nifer o ddarnau o dir, gan gynnwys rhan adeiladwr tai cenedlaethol. Caiff y dyraniadau eu cyflwyno'n raddol i ddarparu rhwng 25 a 38 o anheddau'r flwyddyn o 2026-27 ymlaen. Mae'r rhagdybiaethau yn seiliedig ar ddealltwriaeth eang o'r cyfraniadau seilwaith a geisir i gefnogi cyflawni'r safle strategol hwn yn barhaus, fel y crynhoir yn y Papur Pwnc perthnasol [CSD78].
- 6.32 Mae tua 4.53 hectar o'r safle strategol yn parhau i gael ei ddyrannu at ddefnyddiau cyflogaeth dosbarth B. Mae ei agosrwydd at yr A40 a'r cyfleusterau cyfagos o fantais, tra gellir sicrhau manylion dylunio i leihau unrhyw effeithiau ar drigolion cyfagos yn y cam cais cynllunio. Mynegwyd pryderon am yr oedi wrth ddatblygu'r rhan hon o'r dyraniad. Fodd bynnag, cawsom ein cyngori bod y Cyngor ar hyn o bryd yn ceisio grantiau gan LIC i ddod â'r tir hwn ymlaen yn ystod cyfnod y Cynllun.

- 6.33 A'r rhan fwyaf o'r safle strategol wedi'i ymrwymo, cefnogir gweddill y cyflenwad a ddyrannwyd gan dystiolaeth gadarn. Mae cwblhau'r ffordd gyswllt yn newid sylweddol mewn amgylchiadau sy'n cyfiawnhau rholio'r dyraniad ymlaen.

PrC1/MU2 Pibwrlwyd

- 6.34 Mae'r safle mawr hwn yn cynnwys nifer o gaeau, a'r rhan fwyaf ohonynt yn dir amaethyddol gradd 3b [CSD131]. Wedi'i ddyrannu'n flaenorol at ddefnydd cyflogaeth, hamdden ac addysg, mae'r dyraniad wedi'i rollo ymlaen bellach yn cynnwys 247 o anheddau.
- 6.35 Codwyd pryderon gyda'r diffyg cyflenwi hyd yma, cynnwys tai a'i bellter oddi wrth wasanaethau a chyfleusterau. Er nad oedd defnyddiau preswyl yn cael eu cefnogi gan CCA a gymeradwywyd yn flaenorol, mae'r CDLI newydd yn gyfle i adolygu polisïau a safleoedd presennol. Awgryma'r Diweddariad FVR [CSD32] y byddai tai yn helpu i drawsgymorthdal cyflawni'r 8.95ha o ardal gyflogaeth o fewn y safle.
- 6.36 Mae'r uwchgynllun dangosol [CSD128] yn dangos sut y gallai cynllun defnydd cymysg gael ei gyflwyno [CSD32]. Mae'r uwchgynllun yn ymgorffori egwyddorion creu lleoedd fel llwybrau troed a beicio a rennir, arosfannau bysiau, mynedfeydd ar wahân ar gyfer cyflogaeth ac ardaloedd tai o fewn y safle. Mae seilwaith gwyrdd, manwerthu, iechyd, addysg a gwasanaethau eraill naill ai o fewn pellter cerdded trwy'r danffordd yng nghylchfan yr A40, neu'n hygyrch drwy wasanaethau bws presennol ar hyd yr A484. Mae asesiad trafnidiaeth [CSD32] yn rhagweld y byddai cyffyrdd presennol yn gweithredu o fewn capasiti damcaniaethol, ac nid oedd adolygiad o ddichonoldeb seilwaith yn codi unrhyw broblemau sylweddol [CSD129].
- 6.37 Mae'r tir yn eiddo i Goleg Sir Gâr ac mae Datganiad o Dir Cyffredin gyda'r Cyngor [CSD127] yn esbonio'r ymdrechion i farchnata'r safle, penodi datblygwr a bwrw ymlaen â chais am archfarchnad. Mae darparu tai yn uchelgeisiol, sef 60 o anheddau'r flwyddyn yn 2028-29, ond mae'r dystiolaeth gyda'i gilydd yn amlygu cynnydd wrth ddod ag elfennau o'r safle yn eu blaen. Gyda chynnwys darpariaeth tai, bu newid sylweddol mewn amgylchiadau sydd, yn ein barn ni, yn cyfiawnhau rholio'r safle ymlaen.

PrC1/h4 Tir oddi ar Barc y Delyn, Caerfyrddin

- 6.38 Mae'r dyraniad tai newydd hwn ar ddau gae ar lethr tuag at ben gogleddol y dref. Codwyd yn bryderon gulder Heol Penlan, y ceir mynediad i ystâd Parc y-Delyn ohoni, a nodweddion ecolegol o fewn y safle.
- 6.39 Mae'r safle yn cynnwys rhywfaint o goetir sy'n datblygu a llinellau ffin o goed a gwrychoedd aeddfed, gan gynnwys coed sy'n destun Gorchmynion Gwarchod Coed bob ochr i fynedfa'r safle. Byddai angen arolwg rhywogaethau glaswelltir i ganfod a yw'r rhan yng nghornel dde-ddwyreiniol y safle yn anadferadwy. Er y byddai'r ffactorau hyn yn mynnu dilyn y dull fesul cam, nid ydynt yn rhwystrau anorchfygol rhag datblygiad. Yn wir, mae capasiti dangosol 17 annedd ar safle o ryw 1.46ha yn awgrymu bod cyfyngiadau'r safle wedi'u hystyried yn y cynnyrch is.
- 6.40 Mae amodau'r priffyrdd ar hyd Heol Penlan wedi ymddangos yn y penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer tai ar safle cyfagos. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cadarnhau y gellid cefnogi cynllun gwella priffyrdd diwygiedig o ledw ffyrdd,

mannau pasio a chysylltiadau dwyrain-gorllewin i gerddwyr, yn amodol ar fanylion y cytunwyd arnynt.

- 6.41 Nid yw ecolegydd na swyddog priffyrdd y Cyngor wedi gwrthwynebu egwyddor datblygu. Bydd angen tystiolaeth gadarn i fynd i'r afael â'r materion hyn yn y cam ymgeisio. Gyda disgwyl cyflawni o 2029 ymlaen, rydym yn fodlon y gallai cynllun ymarferol ddod yn ei flaen o fewn amserlen resymol.

SuV12/h1 Gerllaw Gwyn Villa, Llanpumsaint

- 6.42 Codwyd nifer o bryderon gyda'r dyraniad hwn sydd wedi'i rollo ymlaen ar gyfer 20 o anheddau, gan gynnwys draenio, priffyrdd, effeithiau ecolegol a seilwaith ac effeithiau ar eiddo cyfagos.
- 6.43 Yn gyffredin â'r rhan fwyaf o bentrefi cynaliadwy Haen 3 eraill, mae gan Lanpumsaint amrywiaeth o gyfleusterau gan gynnwys ysgol gynradd, neuadd bentref, maes chwarae, tafarn ac eglwys. Fel y cydnabu'r Papur Pwnc Rôl a Swyddogaeth [CSD72], mae'n un o nifer o bentrefi sy'n gysylltiedig â Chaerfyrddin yn rhinwedd ei chysylltiadau ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus a mynediad at wasanaethau pellach.
- 6.44 Byddai angen cymeradwyaeth SuDS ar wahân cyn dechrau'r datblygiad a gallai fynd i'r afael ag unrhyw broblemau llifogydd dŵr wyneb presennol ar y safle. Ymddengys y fynedfa briffordd gymharol syth yn ddigon llydan i ddarparu ar gyfer y rhan fwyaf o draffig dwyffordd. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth a gadarnhawyd sy'n dangos na ellid darparu ar gyfer maint y traffig a gynhyrchir gan y cynllun yn ddiogel yn y rhwydwaith priffyrdd lleol. Yn ôl canfyddiadau'r adolygiad ecolegol [AP1/20], byddai angen gwaith manwl yn y cam ymgeisio i gadarnhau presenoldeb unrhyw gynefinoedd a rhywogaethau, gan gynnwys glaswelltir a allai fod yn anadnewyddadwy, ond nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i chyflwyno i awgrymu na ellid mynd i'r afael yn effeithiol ag unrhyw faterion a nodwyd.
- 6.45 Mae'r safle ar oledf ysgafn yn ffinio ag eiddo ar ddwy ochr. Gydag arwynebedd safle o ryw 1.5ha, gellid mynd i'r afael yn foddhaol â phryderon ynghylch posibilrwydd edrych dros anheddau cyfagos trwy gynllun dylunio yn y cam cais cynllunio.
- 6.46 Ymddengys y gyfradd gyflawni a ragwelir o 5 annedd y flwyddyn o 2027-28 ymlaen yn gyraeddadwy ac yn realistig o ystyried graddfa'r datblygiad, a'r cais cynllunio diweddar yn amlygu newid mewn amgylchiadau i gyfiawnhau ei gadw.

SuV20/h1 Tir ger Fferm Llwynhenry

- 6.47 Mae'r dyraniad newydd hwn ar gyfer 6 annedd yn cynnwys rhan o gae mwy o faint sy'n llethru i lawr tuag at afon Gwendraeth Fach. Mae sylwadau yn codi effeithiau draenio a pherygl llifogydd fel prif bryderon ochr yn ochr â phriffyrdd, effeithiau ar eiddo cyfagos a thresmasu ar gefn gwlad agored.
- 6.48 Wrth nodi'r dystiolaeth gan ymatebwyr o ddigwyddiadau llifogydd yn y gorffennol yn y cae a'r ardal gyfagos, ein man cychwyn gydag asesu perygl llifogydd yw'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP), y dywed PPW y dylai lywio penderfyniadau ar leoliad datblygiad newydd. Tynnwyd ffin y safle i osgoi parthau perygl llifogydd cyfagos 2 a 3 – afonydd a môr. Daw'r SCFA [CSD226] a'r atodiad cysylltiedig [ED9d] i'r casgliad nad oes ystyriaethau perygl llifogydd sylweddol gyda'r dyraniad. Ni chododd DCWW unrhyw broblemau gyda chyflenwad dŵr, carthffosiaeth gyhoeddus

na'r capasiti yng ngwaith trin dŵr gwastraff Llanddarog i ddarparu ar gyfer y dyraniad.

- 6.48 Byddai'r safle yn ffurfio estyniad rhesymegol i'r clwstwr o anheddau ac ni fyddai'n estyn ffurf adeiledig yn niweidiol. Mae'r dwysedd cymharol isel yn rhoi cyfle i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon dylunio a chynllun, a'r manylion yn cael eu trin orau trwy asesiadau technegol yn y cam ymgeisio.
- 6.49 Mae gwelededd da i'r ddau gyfeiriad ar y briffordd gyhoeddus gyfagos. Nid yw presenoldeb rhai cerbydau wedi'u parcio ar ymylon o flaen anheddau teras i'r gogledd yn cyfyngu'n niweidiol ar welededd i'r cyfeiriad hwn o ystyried crymedd a gogwydd y ffordd. Ni fyddai'r cynnydd cymedrol mewn traffig cerbydau ychwaith yn rhwystro datblygiad yn y lleoliad hwn.
- 6.50 Mae safle arall ym Mhorthyrhyd wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer 42 o anheddau. Er bod graddfa gronol y datblygiad yn cael ei nodi, mae Porthyrhyd yn bentref cynaliadwy Haen 3 sy'n elwa ar nifer o gyfleusterau. Gellid gwneud teithiau cymharol fyr i Gaerfyrddin neu Cross Hands ar gyfer cyfleusterau allweddol fel ysgolion uwchradd, banciau, ysbytai a chanolfannau hamdden. Mae'r dystiolaeth yn cefnogi dyrannu'r safle bach hwn.

SeC16/h1 Rhan Ogleddol Llandeilo

- 6.51 Mae'r safle ar lethr serth yn rhan o ddyraniad mwy o faint yn y CDLI a fabwysiadwyd. Dymuna nifer o gynrychiolwyr weld yr ardal wreiddiol yn cael ei chadw, yn enwedig oherwydd bod Briff Datblygu wedi'i baratoi a mwy nag un pwynt mynediad wedi'i gynnig. Er bod nifer o gynrychiolwyr yn cyfeirio at gais a gyflwynwyd am gynllun mwy o faint na'r dyraniad arfaethedig, mae hynny'n fater i'r Cyngor ei benderfynu ac mae ein ffocws yn yr archwiliad hwn ar faint y safle a gyflwynwyd.
- 6.52 Mae'r Cyngor yn crybwyll diffyg cyflawni hyd yma yn rheswm dros arwynebedd gostyngedig y safle. Mae'n debygol y bydd angen cryn dipyn o dorri a llenwi i beiriannu cynllun sy'n darparu ar gyfer y 27 annedd arfaethedig a'r seilwaith cysylltiedig. Serch hynny, byddai'r dwysedd sy'n deillio o hynny yn gymharol isel i gydnabod y dirffurf a phresenoldeb gwrychoedd a choed. Yn nhermau hyfywedd, byddai angen adlewyrchu'r disgwyliadau dros gostau agor yn y gwerthoedd tir ac enillion disgwyliedig i dirfeddianwyr, fel yr amlygwyd yn y Diweddariad FVR [CSD32]. Byddai mynediad diogel i gerbydau i'r safle yn cael ei ddarparu drwy Lôn Rhys a Pharc Pencrug, tra gellid gwneud cysylltiadau i gerddwyr â hawliau tramwy cyhoeddus gerllaw a Maes Elfryn, gyda chysylltiadau troedffordd a safleoedd bysiau ymlaen â chyfleusterau a gwasanaethau cyfagos.
- 6.53 Roedd y Briff Datblygu yn gwasanaethu'r dyraniad blaenorol ac yn unol â'r DPM, rhaid i'r Cyngor adolygu dyraniadau cyn penderfynu a ddylid eu rholio ymlaen. Mae'r newid amgylchiadau wedi'i esbonio. Er bod cyflawni'r safle o 2026-27 ymlaen yn dibynnu ar welliannau i'r gwaith trin dŵr gwastraff, nid oes unrhyw gyfyngiadau gormodol sy'n atal darparu'r safle hwn, gyda digon o hyblygrwydd o fewn y taflwybr i ddarparu ar gyfer y dyraniad.

PrC2/h10 – Tir ger The Dell, Ffwrnais

- 6.54 Mae'r safle a ddyrannwyd ar gyrion gogleddol ardal Ffwrnais Llanelli. Mae'r safle, sydd wedi'i neilltuo ar gyfer 13 annedd, yn cynnwys hen chwarel sydd wedi'i hamgáu

i raddau helaeth gan waliau serth a choediog. Byddai mynediad i gerbydau a cherddwyr i'r safle yn cael ei sicrhau drwy bwynt mynediad presennol sy'n arwain yn uniongyrchol o Ffordd Ynys y Cwm, sydd hefyd yn gwasanaethu eiddo preswyl ar The Dell.

- 6.55 Mynegwyd pryderon y byddai lleoliad y safle yn hyrwyddo patrymau teithio anghynaliadwy i drigolion y dyfodol sy'n dymuno cyrchu cyfleusterau pob dydd. Er ein bod yn nodi'r pryderon hyn, rydym yn ymwybodol bod y dyraniad yn agos at Ffordd Ynys y Cwm (B4309), llwybr sy'n cynnig cysylltiadau cerdded, beicio a bws rhwng y Ffwrnais a'r cyfleusterau masnachol a chymunedol yng nghanol tref Llanelli.
- 6.56 Mae presenoldeb prysgwydd a choetir trwchus o fewn y dyraniad wedi arwain at wrthwynebiadau gan gynrychiolwyr ynghylch effaith datblygiad y safle ar gynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig o fewn y safle ac yn yr ardal ehangach.
- 6.57 Aseswyd gwerth ecolegol y safle yn rhan o'r Adolygiad o Safleoedd a Ddyrannwyd a Goblygiadau Gofynion PPW 12, Pennod 6 [AP1/20]. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y gellid mynd i'r afael â'r materion hyn, yn unol â Pholisïau PSD3, NE3 a PPW, yn effeithiol drwy'r dull fesul cam yn ystod y broses cais cynllunio. Er ein bod yn cydnabod y gall cymhwyso'r dull hwn arwain at leihau ardaloedd net datblygadwy'r safle, nid ydym yn ystyried bod hyn yn rhwystr rhag datblygu'r dyraniad.
- 6.58 Yn ogystal, diffiniwyd y dyraniad arfaethedig gan TAN 15 fel defnydd hynod agored i niwed ac fe'i nodwyd ar yr FMfP fel un o fewn parth 2 a 3 (dŵr wyneb a chwrs dŵr bach). Aseswyd y safle a ddyrannwyd yn rhan o'r diweddariad SFCA [ED9d] a daethpwyd i'r casgliad y byddai goblygiadau dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach yn cael eu hystyried a'u datrys yn briodol yn y cam cais cynllunio.
- 6.59 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd ac am y rhesymau a nodir uchod, rydym yn fodlon bod y dyraniad arfaethedig yn gadarn ac y gellir ei gyflawni o fewn yr amserlenni a ragwelir.

SeC7/h3 – Golwg yr Afon, Llangennech

- 6.60 Mae'r safle 2 hectar ar gyrion de-ddwyreiniol Llangennech. Dyrannwyd y safle ar gyfer 50 o anheddau a bydd mynediad iddo o Ffordd Morlais, Golwg yr Afon a Heol Plas Isaf.
- 6.61 Mae'r safle a ddyrannwyd heb ei ddefnyddio ar hyn o bryd ac wedi'i orchuddio â phrysgwydd trwchus a choetir aeddfed. Mae llawer o ffiniau deheuol a dwyreiniol y dyraniad yn cael eu ffurfio gan goed mawr aeddfed sy'n destun gorchmynion diogelu. Yn ogystal, yn ystod y sesiwn wrandawriad, awgrymwyd y gallai fod rhywogaethau â blaenoriaeth gan gynnwys ystlumod, dyfrgwn a phathewod ar y safle. Mae presenoldeb cynefin gwarchodedig a rhywogaethau gwarchodedig wedi arwain at bryderon gan wrthwynebwyr y byddai datblygu'r safle dyrannu yn cael effaith andwyol ar werth ecolegol y safle a'r ardal ehangach.
- 6.62 Yn yr un modd â dyraniadau eraill, aseswyd y safle yn rhan o'r Adolygiad o Safleoedd a Ddyrannwyd a Goblygiadau Gofynion PPW 12, Pennod 6 [AP1/20]. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y gellid datblygu'r safle yn amodol ar fynd i'r afael yn foddhaol â gofynion y dull fesul cam yn y cam cais cynllunio. Er ein bod yn ymwybodol bod hwn yn safle cymhleth, credwn serch hynny y byddai natur a graddfa'r dyraniad yn darparu digon o gyfle i gyflawni camau lliniaru priodol.

- 6.63 Yn ogystal, mae'r FMfP yn nodi bod tua 15% o'r dyraniad, yn bennaf ar hyd y ffin ddwyreiniol, yn disgyn o fewn parth 3 (moroedd parth llifogydd) a bod tua 10% yn disgyn o fewn parthau 2 a 3 (dŵr wyneb a chysiau dŵr bach). Aseswyd y dyraniad yn rhan o'r diweddariad SFCA [ED9d] a daethpwyd i'r casgliad, yn amodol ar ddarparu FCA, y gellid mynd i'r afael â goblygiadau llifogydd, dŵr wyneb a chysiau dŵr bach yn briodol yn ystod y broses cais cynllunio.
- 6.64 Ar y cyfan, rydym yn fodlon, yn amodol ar y gofynion a amlinellir uchod, fod y safle a ddyrannwyd yn gadarn ac y gellir ei gyflawni.

SeC6/(iii) Tir yn Fforest Road

- 6.65 Mae'r safle arfaethedig ar gyrion anheddiad Hendy ac wedi'i ddyrannu ar gyfer adeiladu 35 o anheddau y byddai 4.2 uned ohonynt yn fforddiadwy.
- 6.66 Mae'r safle yn cynnwys ardal o borfa arw sy'n cynnwys rhywfaint o laswelltir wedi'i led-wella, coed a phrysgwydd. O ran topograffeg, mae'r safle yn llethru i lawr i gyfeiriad y gorllewin tuag at Afon Llŵchwr a'r cefn gwlad y tu hwnt. O ran ecoleg, er ein bod yn nodi pryderon trigolion, nid yw'r safle yn destun dynodiad cadwraeth natur, ac nid oes unrhyw dystiolaeth sylweddol i awgrymu bod unrhyw rywogaethau gwarchodedig yn bresennol nac y byddai ei ddatblygiad yn cael effaith andwyol sylweddol ar SoDdGA Caeau Afon Gwili.
- 6.67 Byddai mynediad i gerbydau i'r safle yn cael ei roi ar hyd ffordd breswyl fodern Clos Benalt Fawr sy'n cysylltu wedyn â Fforest Road ac ymlaen â'r M4. Mynegwyd pryderon y byddai'r dyraniad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gapasiti a diogelwch priffyrdd yn yr anheddiad. Er ein bod yn nodi'r pryderon hyn, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i chyflwyno sy'n dangos bod problemau capasiti ar y rhwydwaith priffyrdd nac y byddai cau'r M4 dros dro yn cael unrhyw beth mwy nag effaith leol tymor byr. Yn yr un modd, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i chyflwyno na'i darparu sy'n dangos y byddai datblygiad y safle a ddyrannwyd yn arwain at ddiffyg, nac yn gwaethygu'r diffyg, o ran darparu cyfleusterau addysg, meddygol neu gymunedol.
- 6.68 O ran materion llifogydd a draenio ar y safle a ddyrannwyd, rydym yn ymwybodol bod canfyddiadau'r SFCA wedi'i ddiweddaru (ED9d) wedi dod i'r casgliad nad oedd y safle yn destun perygl llifogydd o afonydd a moroedd na dŵr wyneb a chysiau dŵr bach.
- 6.69 Yng ngoleuni'r uchod, rydym o'r farn bod y dyraniad arfaethedig yn gadarn ac y gellir ei gyflawni yn ystod cyfnod y cynllun.

Casgliadau

- 6.70 Yn amodol ar y newidiadau a nodwyd yn yr adran hon, rydym yn fodlon y gellir cyflawni'r dyraniadau safle gan sicrhau digon o hyblygrwydd yn y cyflenwad tai.

7 Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Tai Fforddiadwy a Darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Angen Tai Fforddiadwy

- 7.1 Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu gynnwys targed awdurdod cyfan ar gyfer darparu tai fforddiadwy sy'n seiliedig ar Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) ac sy'n ystyried cyflawnadwyedd a hyfywedd (PPW, paragraff 4.2.29). Cyhoeddwyd yr LHMA manwl ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 2020 ac mae'n darparu manylion rhifiadol am raddfa a natur yr angen am dai fforddiadwy, yn benodol tai rhent cymdeithasol a thai canolradd, ar gyfer pum mlynedd gyntaf cyfnod y Cynllun [CSD39]. Ar ôl i LIC gyhoeddi methodoleg ddiwygiedig ar gyfer LHMA yn 2022, diweddarwyd y ffigurau yn LHMA Sir Gaerfyrddin. Mae'r Datganiad Sefyllfa ar LHMA 2024 (Diweddariad LHMA) yn darparu manylion rhifiadol yr angen am dai fforddiadwy, sy'n cynnwys tai rhent cymdeithasol, tai canolradd a chost isel, yn y Sir ar gyfer y cyfnod 2022 – 2027 [CSD65].
- 7.2 Fodd bynnag, o ganlyniad i'r diwygiadau i'r fethodoleg, nid yw'r canfyddiadau a ddisgrifir yn niweddariad LHMA 2020 a LHMA 2024 yn uniongyrchol gymaradwy.
- 7.3 Cyfrifodd LHMA 2020 gyfanswm angen tai o 9,807 o anheddau sydd eu hangen dros gyfnod y cynllun 2018-2033, y mae 23% ohonynt yn gartrefi fforddiadwy. Mae hyn yn cyfateb i ffigur anghenion o ryw 2,255 o gartrefi fforddiadwy dros gyfnod y Cynllun. Mae tua 70% o'r angen a ddiffiniwyd ar gyfer eiddo 2 a 3 ystafell wely, a gweddill yr angen yn bennaf am eiddo 1 ystafell wely [CSD39, adran 9]. Nid yw'r asesiad yn darparu ffigurau penodol ar gyfer rhent cymdeithasol, anheddau canolradd neu dai cost isel.
- 7.4 Mae canfyddiadau Diweddariad LHMA 2024 yn dangos bod angen 1,674 o gartrefi fforddiadwy dros gyfnod 2024 – 2027, y byddai 513 o gartrefi ohonynt yn anheddau rhent cymdeithasol, 626 yn anheddau canolradd a 250 yn anheddau cost isel. Wedi'i allosod dros gyfnod y Cynllun, byddai hyn yn cyfateb i ffigur angen o ryw **5,208** o gartrefi fforddiadwy dros gyfnod y Cynllun. Dengys yr asesiad fod tua 50% o'r angen a ddiffiniwyd am eiddo rhent cymdeithasol, a'r gofyniad mwyaf am anheddau 1 ystafell wely, a gweddill yr angen wedi'i wasgaru'n bennaf rhwng eiddo 2 a 3 ystafell wely [CSD65, Ffigur 19].
- 7.5 Er ein bod yn nodi'r amrywiad sylweddol yn yr angen rhifiadol am dai fforddiadwy rhwng yr LHMA a'r Diweddariad LHMA, rydym serch hynny yn fodlon bod y dull a gymerwyd yn yr asesiadau yn gyson â'r fethodoleg a hyrwyddwyd ar lefel genedlaethol ar adeg y cynhyrchu ac, fel y cyfryw, yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer asesu angen tai fforddiadwy.

Hyfywedd Tai Fforddiadwy

- 7.6 Darperir y sylfaen dystiolaeth ar gyfer hyfywedd tai fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin gan y FVR [CSD31] a'r Diweddariad FVR [CSD32].
- 7.7 Mae'r cyfuniad o'r astudiaethau hyn yn darparu asesiad lefel uchel sy'n ystyried lefelau eang o hyfywedd datblygu ar draws pedair ardal marchnad tai fforddiadwy'r Sir – Cefn Gwlad a Threfi Marchnad Sir Gaerfyrddin, Caerfyrddin a'r Gorllewin, Llanelli, a Rhydaman a Dyffryn Aman. Mae'r asesiad yn defnyddio model hyfywedd lefel uchel ac yn profi ystod o deipolegau safleoedd i benderfynu ar y cyfraniad y gall

cynlluniau preswyl newydd ei wneud at y cyflenwad o dai fforddiadwy yn ardal y Cynllun. Mae'r model asesu yn cynnwys ystod o gydrannau gan gynnwys costau adeiladu, gwerthoedd tir, elw datblygwyr, cyfraniadau adran 106, ffioedd a swm wrth gefn. Mae costau a gwerthoedd yr elfennau unigol hyn yn seiliedig ar bwynt penodol mewn amser ac maent wedi'u llywio gan drafodaethau manwl a gynhaliwyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Hyfywedd yn ystod 2023 [CSD33].

- 7.8 Ceisiodd y Cyngor gytuno ar y ffigurau diwygiedig gydag aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Hyfywedd ond ni ellid cyflawni hyn. Serch hynny, rydym yn ymwybodol bod y data a ddefnyddiwyd i lywio'r costau diwygiedig hyn yn cael ei dynnu o ffynonellau cenedlaethol, megis y Mynegai Prisiau Tendr Cynnwys Popeth a'r Mynegai Costau Adeiladu Cyffredinol, ac amrywiaeth o ffynonellau lleol, gan gynnwys asesiadau hyfywedd a gyflwynwyd i gefnogi safleoedd ymgeisiol mewn siroedd cyfagos a setliadau a gyrhaeddwyd mewn achosion rheoli datblygu lle bu hyfywedd yn broblem [CSD32, adran 3]. Yng ngoleuni hyn, rydym o'r farn ei fod yn sail realistig a chredadwy i'r lwfansau arfaethedig.
- 7.9 Profodd y Diweddariad FVA y model hyfywedd yn erbyn y teipolegau safle a daeth i'r casgliad fod amrywiad mewn lefelau hyfywedd ar draws y Sir yn ymwneud â graddfa'r datblygiad ac nid ei leoliad daearyddol. Dangosodd y canfyddiadau nad oedd digon o le i gefnogi cyfraniadau tai fforddiadwy ar y safle ar safleoedd o lai na 10 annedd, ond bod digon o le i gefnogi cyfraniad o: 10% ar safleoedd sy'n cynnwys 10 – 19 annedd; 12% ar safleoedd 20 – 50 annedd; 20% ar safleoedd 51 – 100 annedd; a 25% ar safleoedd o 101 o gartrefi neu fwy. Cefnogir y canlyniadau hyn yn fras gan asesiad hyfywedd nifer o safleoedd allweddol o fewn y CDLI newydd [CSD 32, adrannau 3 a 4].
- 7.10 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn fodlon bod yr FVR a'r Diweddariad FVR wedi'u paratoi yn unol â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol ac yn adlewyrchu canllawiau yn y DPM. Maent yn darparu sylfaen gadarn a chynhwysfawr i bennu trothwyon a thargedau tai fforddiadwy y Cynllun.

Darpariaeth Tai Fforddiadwy

- 7.11 Darperir y fframwaith ar gyfer darparu tai fforddiadwy gan Bolisiâu SP5, AHOM1 ac AHOM2.
- 7.12 Mae Polisi SP5 o'r Cynllun a gyflwynwyd yn amlinellu gofyniad lleiaf ar gyfer darparu 1,900 o dai fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin dros gyfnod y Cynllun. Amlinellir y dull o gyflawni'r gofyniad hwn ym Mholisi AHOM 1 sy'n ei gwneud yn ofynnol, yn fras: fod pob dyraniad tai marchnad a hap-safle o 10 neu fwy o anheddau yn gwneud cyfraniadau ar y safle yn Sir Gaerfyrddin; bod cyfraniadau oddi ar y safle tuag at dai fforddiadwy yn cael eu ceisio ar safleoedd o 9 annedd neu lai; a bod anheddau marchnad agored sengl llai o 88 metr sgwâr neu lai wedi'u heithrio o'r gofyniad am symiau cymudedig.
- 7.13 O ganlyniad i'r diwygiad i'r ffigur HS, mae **MAC022** yn cynyddu'r targed ym Mholisi SP5 i 2,111 o anheddau fforddiadwy ac yn ei gwneud yn glir fod hyn yn fan cychwyn ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn y Sir. Mae diwygiadau i Bolisi HOM1 yn cadarnhau y bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwneud drwy gyfuniad o 1,844 o anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd a safleoedd rhwymedig, 125 o anheddau ar hap-safleoedd a 142 o anheddau ar safleoedd tai fforddiadwy. Er ein bod yn nodi na fyddai'r targed tai fforddiadwy diwygiedig yn bodloni'r angen diffiniedig am dai rhent

cymdeithasol a chanolradd newydd yn ardal y Cynllun, rydym yn fodlon bod y dull o ddiffinio'r targed, gan gynnwys mewn perthynas â'r uchafswm o dai fforddiadwy y gallent, yn hyfyw, gael eu sicrhau trwy ddatblygiad a arweinir gan y farchnad yn realistig, yn gyflawnadwy ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Rydym hefyd yn nodi bod mecanweithiau eraill yn bodoli y tu allan i'r system gynllunio i helpu i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy.

- 7.14 Er mwyn darparu sicrwydd ynghylch cymhwyso Polisi AHOM1, mae **MAC 023** yn diwygio'r polisi i adleoli materion gweinyddol mewn perthynas â hyfywedd datblygu, maint y safle, a bytholrwydd i'r cyfiawnhad rhesymegol. Wrth wneud hynny, mae'r polisi yn ei gwneud yn glir bod canran y targed tai fforddiadwy a nodwyd yn darged i'w ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer trafodaethau tai fforddiadwy. Yn yr un modd, mae angen diwygiadau i Bolisi AHOM2 i egluro y bydd cynigion ar gyfer safleoedd eithriadig tai fforddiadwy hefyd yn cael eu caniatáu o fewn ac wrth ymyl aneddiadau cyfagos a nodwyd yn rhai Haen 4 - Pentrefi Gwledig, i ddileu'r cyfeiriad diangen at 'amgylchiadau eithriadol' ac i ddarparu diffiniad o angen lleol yn y cyfiawnhad rhesymegol (**MAC 024**).
- 7.15 Yn amodol ar MACs, rydym yn fodlon bod y dull a gymerwyd yn y CDLI newydd o nodi a darparu tai fforddiadwy yn gadarn ac yn gyson â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol.

Angen Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe

- 7.16 Mae PPW yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol "asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a dyrannu safleoedd i ddiwallu'r angen a nodwyd". Wrth wneud hynny, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol "ddangos bod safleoedd yn addas i'w datblygu ac yn gyflawnadwy yn yr amserlenni a nodwyd" (paragraff 4.2.36)
- 7.17 Cyhoeddwyd yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTANA) diweddaraf ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 2019 [CSD26] ac mae'n esbonio, ar adeg yr asesiad, fod gan Sir Gaerfyrddin gymuned Sipsiwn a Theithwyr sefydledig a oedd yn byw mewn cyfuniad o garafanau ac anheddau 'brics a mortar'. Er mwyn pennu anghenion llety yn y dyfodol, nododd a dadansoddodd y GTANA setiau data eilaidd presennol, mewn perthynas â materion fel y boblogaeth Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe, y math o lety a feddiannwyd a nifer y safleoedd awdurdodedig ac anawdurdodedig. Cynhaliwyd cyfres o gyfweiliadau â chynrychiolwyr o'r cymunedau Teithiol sy'n byw yn y Sir hefyd. Dengys canfyddiadau'r asesiad fod angen 31 o leiniau Sipsiwn a Theithwyr a 4 llain ar gyfer Pobl Sioe Deithiol erbyn 2033. Ni nodwyd unrhyw angen penodol ar gyfer safleoedd tramwy [CSD26, Tablau 3 a 4].
- 7.18 Mae'r Datganiad Sefyllfa ar Sipsiwn a Theithwyr [CSD63] yn darparu manylion y caniatâd cynllunio ar gyfer 25 llain sydd wedi'u cymeradwyo ers i'r GTANA gael ei baratoi ac mae'n amlinellu'r amserlen ar gyfer paratoi'r asesiad nesaf. Pan ystyrir y caniatâd hwn, mae gofyniad eithriadol i ddarparu 6 llain ychwanegol yn y Sir o fewn cyfnod y Cynllun.
- 7.19 Yn ein barn ni, mae'r GTANA, o'i ystyried ar y cyd â'r Datganiad Sefyllfa ar Sipsiwn a Theithwyr, yn darparu tystiolaeth gadarn a chyfredol ar gyfer ardal y Cynllun ac, fel y cyfryw, sail gadarn i gynllunio ar gyfer anghenion yn y dyfodol.

Darparu Llety Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe

- 7.20 Darperir y fframwaith ar gyfer darparu *Llety Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe* gan Bolisiâu SP10 a GTP1
- 7.21 Yn amodol ar **MAC 038**, sy'n darparu eglurder o ran niferoedd lleiniau, mae Polisi SP10 yn nodi'r gofyniad am 13 o leiniau parhaol i ddiwallu'r angen a nodwyd yn y Sir ar Dir ym Mhenyfan, Trostre, Llanelli a Phenybryn (estyniad), Bynea, Llanelli. Ni wneir darpariaeth benodol ar gyfer Pobl Sioe.

PrC2/GT1 - Tir ym Mhenyfan, Trostre, Llanelli

- 7.22 Mae'r safle a ddyrannwyd yn cynnwys darn o dir sydd wedi tyfu'n wyllt a ddefnyddiwyd o'r blaen at ddibenion hamdden sy'n agos at Ddepo Trostre Cyngor Sir Gaerfyrddin. Byddai'r safle yn darparu 7 o leiniau parhaol.
- 7.23 Diffinnir gan TAN 15 fod y dyraniad arfaethedig yn un at ddefnydd hynod agored i niwed a nodwyd ar yr FMfP ei fod ym mharth llifogydd 2 (afonydd) a pharthau llifogydd 2 a 3 (llanw), yn ogystal ag mewn parth amddiffynedig. Adolygwyd y safle yn rhan o'r Diweddariad SFCA a daethpwyd i'r casgliad, yn amodol ar ddarparu Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd (FCA) yn y cam ymgeisio i ddangos bod dyluniad a chynllun y datblygiad yn ymgorffori mesurau gwydnwch/gwrthsefyll priodol ac y byddai'n parhau i fod yn rhydd o lifogydd, fod y safle yn addas at y defnydd arfaethedig a ddyrannwyd [ED9d].
- 7.24 Yn ogystal, nododd Datganiad Sesiwn Gwrandawriad 3 y Cyngor nifer o gyfyngiadau posibl i ddatblygu'r safle, gan gynnwys materion mewn perthynas â sefydlogrwydd tir, ecoleg a halogiad. Er mwyn darparu mwy o eglurder am y materion hyn, darparodd y Cyngor nodyn briffio sy'n esbonio natur, graddfa ac effaith debygol y materion hyn ar gyflawni'r safle a ddyrannwyd [AP3/6]. Yn seiliedig ar y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gyflwynwyd, rydym yn fodlon y gellir mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn foddhaol yn y cam ymgeisio ac felly, mewn egwyddor, nid ydynt yn rhwystr rhag dyrannu'r safle.
- 7.25 Nid yw cyllid ar gyfer y cynllun wedi'i sicrhau eto ond rhagwelir y bydd yn ei le er mwyn cyflawni'r cynllun tua diwedd cyfnod y Cynllun.

PrC2/GT2 - Penybryn (estyniad), Bynea, Llanelli

- 7.26 Mae'r safle a ddyrannwyd ger safle presennol y Sipsiwn a'r Teithwyr sy'n eiddo i'r Cyngor ym Mhenybryn a bwriadwyd darparu 6 o leiniau parhaol yno.
- 7.27 Diffinnir gan TAN 15 fod y dyraniad arfaethedig at ddefnydd hynod agored i niwed a nodwyd ar yr FMfP ei fod yn un sydd, yn rhannol, ym mharthau llifogydd 2 a 3 (llanw) a pharth amddiffynnol. Aseswyd y dyraniad yn rhan o'r diweddariad SFCA a daethpwyd i'r casgliad, yn amodol ar ganfyddiadau FCA yn y cam ymgeisio, fod y safle yn briodol at y defnydd a ddyrannwyd [ED9d].
- 7.28 Yn yr un modd â PrC2/GT1, nid oes unrhyw gyllid ar gyfer y cynllun wedi'i sicrhau ond rhagwelir y bydd yn ei le er mwyn cyflawni'r cynllun tua diwedd cyfnod y Cynllun.
- 7.29 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn fodlon bod y ddau ddyraniad yn gadarn ac y gellir eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun.

Datblygu ar safleoedd heb eu dyrannu

- 7.30 Yn ogystal â'r safleoedd a ddyrannwyd, mae Polisi GPT1 yn amlinellu meini prawf sy'n ceisio rheoli datblygiad safleoedd parhaol neu dramwy heb eu dyrannu mewn cefn gwlad agored. Yn amodol ar **MAC 039**, sy'n sicrhau bod ei ddarpariaethau yn realistig ac yn gyflawnadwy, mae'r meini prawf a gynhwysir ym Mholisi GPT1 yn cydfynd â gofynion Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 05/2018 – Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe ac, o'r herwydd, yn sail gadarn i asesu ceisiadau cynllunio.
- 7.31 Yn ein barn ni, mae'r fframwaith ar gyfer diwallu anghenion llety presennol a newydd Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe yn rhesymegol ac yn gadarn.

Casgliadau

- 7.32 Ar y cyfan, rydym yn fodlon bod yr ymagwedd at ddarparu tai fforddiadwy yn y CDLI newydd, yn amodol ar y MAC, yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth gadarn a chredadwy. Er na fyddai'r lefel o ddarpariaeth tai fforddiadwy a geisir drwy'r Cynllun yn bodloni'r holl angen a nodwyd yn yr LHMA, rydym yn fodlon bod y targed yn realistig ac y byddai'r defnydd o fesurau fel gofynion safle-benodol a pholisi eithriadau yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i'w cyflawni.
- 7.33 Yn amodol ar y MAC, rydym yn fodlon bod y dull o benderfynu ar yr angen am lety Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe yn y Sir yn seiliedig ar dystiolaeth glir a chadarn sydd wedi'i pharatoi mewn modd sy'n gyson â gofynion polisi cenedlaethol a Deddf Tai (Cymru) 2014.

8 Pobl a Lleoedd Ffyniannus – Cyflogaeth a'r Economi Ymwelwyr

Strategaeth gyflogaeth

- 8.1 Mae gan Sir Gaerfyrddin economi amrywiol sy'n cynnwys sectorau cyflogaeth allweddol ym maes gweithgynhyrchu, cynhyrchu bwyd a'r economi ymwelwyr. Mae twf swyddi cryf yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael ei gynorthwyo'n rhannol gan weithgynhyrchu, gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd a sectorau lletygarwch a gwasanaethau busnes.
- 8.2 Ceisia polisiâu'r Cynllun annog buddsoddiad ac arloesi mewn ardaloedd gwledig a threfol i ddiwallu anghenion cyflogaeth. Mae'r anghenion hynny'n deillio o ragolygon economaidd yn Astudiaeth Economaidd Dwy Sir Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro [CSD41], ei hadroddiad diweddar 2021 [CSD42] a'r Adroddiad Tai a Thwf Economaidd [CSD34]. Yn yr olaf, darperir tystiolaeth fwy diweddar a nodir tri rhagolwg economaidd sylfaenol sy'n seiliedig ar dueddiadau gan ddefnyddio amcanestyniadau aelwydydd cenedlaethol, sy'n amrywio rhwng 149 a 545 o swyddi y flwyddyn y gellid eu creu rhwng 2020 a 2033. Dewisodd y Cyngor ragolwg gwaelodlin canol ystod yr Adroddiad a argymhellwyd, sef 354 o swyddi y flwyddyn yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol, dadansoddiad sectoraidd o swyddi ac astudiaethau cynharach sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- 8.3 Roedd yr Adroddiad hefyd yn ystyried senario twf amgen a addasodd y rhagolwg gwaelodlin i gyfrif am fuddsoddiadau hysbys a chredadwy sy'n debygol o ddod i'r amlwg yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae hyn yn cydnabod, ymhlith strategaethau eraill, Bargaen Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae'r senario twf canlyniadol o 674 o swyddi'r flwyddyn yn llawer uwch na'r tri rhagolwg sylfaenol. Ni wnaethpwyd unrhyw

addasiadau tuag i lawr i'r ffigur i gyfrif am ansicrwydd ehangach yn yr economi a'r farchnad swyddi. Byddai hefyd yn cynhyrchu AD cyfatebol sylweddol a fyddai, o'i gymharu â chyfraddau cyflenwi yn y gorffennol, yn afrealistig ac a allai greu gwahaniaeth eang rhwng tai a swyddi, yn groes i'r nod yn PPW sy'n ceisio alinio'r ddau ffigur i leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn car.

- 8.4 Mae'r Cyngor wedi nodi ym Mholisi SP7 ddyraniad tir cyflogaeth o 71.21 hectar ar draws Sir Gaerfyrddin. Gan nad yw'r ffigur hwn yn nenfwd ar dwf cyflogaeth, mae **MAC 025** yn dileu'r cyfeiriad at ddyrannu tir 'digonol'. Fel yr eglurwyd yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth [CSD97], mae'r ffigur dyrannu tir yn deillio o nifer o ffactorau, gan gynnwys rhesymoli'r cyflenwad tir cyflogaeth presennol y CDLI a fabwysiadwyd, a nodi safleoedd newydd. Eglura'r Papur Pwnc: Twf a Dosbarthiad Gofodol – Rhan 2 - Creu Swyddi a'r Economi [CSD76] fod gan ddyraniadau'r Cynllun y potensial i ddarparu hyd at 6,652 o swyddi. Mae'r cyfrifiadau cymhareb swyddi i arwynebedd tir yn dilyn Canllawiau Ymarfer LIC – Adeiladu Datblygiad Economaidd: Sylfaen Dystiolaeth i Gefnogi Cynllun Datblygu Lleol (Awst 2015).
- 8.5 Mae cynnyrch swyddi posibl y Cynllun yn uwch na'r rhagolygon gwaelodlin ond yn disgyn yn is na'r senario twf amgen. Yn TAN 23: Datblygu Economaidd cynghorir y gall targedau darpariaeth tir fod yn uwch na'r galw disgwyledig, er mwyn caniatáu hyblygrwydd, cystadleuaeth a dewis ymhlith pethau eraill. Mae Adolygiad Tir Cyflogaeth y Cyngor 2023 [CSD97] yn tynnu sylw at gyfradd swyddi gwag isel o ryw 5% mewn safleoedd cyflogaeth ac mae'n adlewyrchu dystiolaeth flaenorol [CSD76]. Nid yw hyn yn dangos gorgyflenwad cyson o dir cyflogaeth na bod ei ddatblygiad at ddefnyddiau tir eraill yn cael ei rwystro.
- 8.6 Gallai'r senario a ffafrir sef 8,822 o anheddau ddarparu ar gyfer 276 o swyddi newydd y flwyddyn, yn ôl y rhagolygon yn yr Adroddiad Tai a Thwf Economaidd. Ni fyddai hyn yn llwyr gefnogi darparu 6,652 o swyddi, heb sôn am y rhagolwg sylfaenol a ffafrir sef 354 o swyddi'r flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad yn tybio y byddai, heb ymyrraeth bolisi, allgymudo net o weithwyr o Sir Gaerfyrddin o hyd sef, yn ôl Cyfrifiad 2011, 1.09 o weithwyr preswyl fesul swydd.
- 8.7 Mae'r rhan fwyaf o allgymudo i Abertawe gerllaw, gan gydnabod y cysylltiadau trawsffiniol. Nid yw'n glir a yw'r duedd hirsefydlog hon wedi newid yn sylweddol yn dilyn pandemig Covid-19. Serch hynny, mae dyrannu 71.21 hectar o dir cyflogaeth yn ymyrraeth bolisi sydd, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau cymhareb swyddi i dir a ddisgrifir uchod, yn ceisio lleihau'r all-lif o weithwyr preswyl. Byddai hefyd yn cyflwyno cwantwm mwy realistig o dir cyflogaeth na ffigur 674 o swyddi y flwyddyn, sy'n parhau i fod yn uchelgais o fewn y CDLI yn hytrach na tharged penodol. Mae **MAC 025** yn darparu'r diwygiadau angenrheidiol i gyfiawnhad rhesymedig Polisi SP7 ac yn egluro ymagwedd y Cyngor at niferoedd swyddi a chymarebau cymudo. Bydd monitro darparu safleoedd cyflogaeth a phatrymau teithio i'r gwaith yn bwysig i werthuso effeithiolrwydd y dull polisi hwn yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun.
- 8.8 O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac yn amodol ar **MAC 025**, mae maint arfaethedig y tir cyflogaeth yn cael ei gyfiawnhau, gan ei fod yn seiliedig ar ragolygon economaidd credadwy a rhagdybiaethau rhesymol ar gyfer mentrau lleol a rhanbarthol, ynghyd â chymarebau trosi tir priodol. Byddai hefyd yn cefnogi'r nifer arfaethedig o dai yn y cynllun, a thrwy hynny'n cyd-redeg â pholisi cenedlaethol ac amcanion economaidd lleol a rhanbarthol.

Cyflenwad tir cyflogaeth

- 8.9 Mae Polisi Strategol SP7 yn nodi'r dull cyffredinol o ddatblygu cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin ac ymhelaethir ar ei feini prawf cydrannol mewn nifer o bolisïau ategol. Mae Polisi EME3 yn dyrannu 36 o safleoedd at ddefnyddiau cyflogaeth B1, B2 a B8. Cafodd nifer o ddyraniadau cyflogaeth eu cario drosodd o'r CDLI a fabwysiadwyd ac mae dros chwarter y cyflenwad 71.21 hectar yn cynnwys safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio. Cyfeirir tua hanner yr holl gyflenwad at Lanelli a Chaerfyrddin, a thrwy hynny adlewyrchir eu rolau yn Cymru'r Dyfodol fel ffocws ar gyfer twf economaidd strategol a thwf is-ranbarthol yn y drefn honno. Nodir nifer o safleoedd cyflogaeth o amgylch Llanelli, Rhydaman a Cross Hands yn yr Astudiaeth Dwy Sir yn rhai sydd ag arwyddocâd economaidd mwy na lleol. O ganlyniad, mae'r CDLI yn dyrannu neu'n diogelu'r safleoedd hyn at ddefnydd cyflogaeth.
- 8.10 Mae Adroddiad Ymchwil Prosiect Diffiniad Ardal Twf Cenedlaethol Bae Abertawe a Llanelli [CSD40] yn argymhell mireinio ehangder gofodol yr Ardal Twf Genedlaethol i gynnwys Rhydaman a Cross Hands. Mae'r dystiolaeth hon yn atgyfnerthu pwysigrwydd economaidd y canolfannau ac fe'i cadarnheir gan raddfa'r dyraniadau cyflogaeth yn yr ardal, tua 28 hectar, sef y dyraniad mwyaf o'r tair prif ganolfan.
- 8.11 Mynegwyd pryderon bod gan nifer o'r dyraniadau cyflogaeth yn ardal Cross Hands nodweddion ecolegol pwysig. Aseswyd gwerth ecolegol y safleoedd hyn fel rhan o'r Adolygiad o Safleoedd a Ddyrannwyd a Goflygiadau Gofynion PPW 12, Pennod 6 [AP1/20] a ddaeth i'r casgliad y gellid mynd i'r afael â'r materion hyn yn effeithiol yn unol â gofynion y dull fesul cam. Er ein bod yn cydnabod y gall y dull hwn leihau ardaloedd datblygadwy net y safleoedd hyn, nid ydym yn ystyried bod hyn yn rhwystro datblygiad cyffredinol na chyflawni'r strategaeth gyflogaeth.
- 8.12 Mae'r fframwaith ar gyfer dangos cysylltedd ecolegol o fewn cynlluniau unigol wedi'i sefydlu trwy Bolisïau PSD3 a NE3. Ni fyddai unrhyw un o'r egwyddorion hyn yn cael eu tanseilio trwy ddyrannu'r safleoedd cyflogaeth hyn. Lle cofnodwyd pathewod a gloŷnnod byw Brith y Gors yn yr ardal, mae Polisiïau PSD3, NE2 a NE4 yn darparu fframwaith cadarn y byddai cynigion, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol, yn cael eu hasesu drwyddo.
- 8.13 Mae canfyddiadau'r Atodiad i'r SFCA [ED9d] yn dangos bod nifer o safleoedd o fewn parthau llifogydd 2 neu 3 ar gyfer yr afon a/neu'r môr. Yn yr ardaloedd hynny mae'r atodiad yn nodi eu bod yn rhan fach o'r dyraniad yn bennaf, ac y gellir lliniaru unrhyw effeithiau yn effeithiol yn nyluniad a gosodiad y cynllun.
- 8.14 Yn ogystal, mae nifer o ddyraniadau cyflogaeth hefyd yn disgyn o fewn naill ai parth llifogydd 2 a 3 neu'r ddau ohonynt ar gyfer dŵr wyneb a chysiau dŵr bach. Ar oddeutu chwe dyraniad mae'r ardal y mae'r cyfyngiad yn effeithio arni yn estyn i rhwng 10% a 40% o'r safle. Ym mhob achos, mae canfyddiadau'r Atodiad yn dangos y gellir lliniaru materion mewn perthynas â dŵr wyneb a chysiau dŵr bach yn effeithiol trwy ddylunio a chynllunio safle ac y gellir cyflawni'r safleoedd yn y modd a amlinellir yn y Cynllun.
- 8.15 Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn fodlon nad yw'r dyraniadau tir cyflogaeth arfaethedig yn cael eu peryglu gan unrhyw gyfyngiadau llifogydd sylweddol.
- 8.16 Mae arwyddocâd Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe i ffyniant economaidd y sir yn cael ei adlewyrchu wrth ddyrannu dau safle strategol ym Mholisi SP6 – clwstwr

digidol creadigol yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin sy'n elwa ar ganiatâd cynllunio, a chanolfan gwyddorau bywyd a lles defnydd cymysg ym Mhentre Awel yn Llanelli, lle mae datblygiad cam 1 ar y gweill. Cyfeirir at y ddau safle hefyd ym Mholisi SP7. Fodd bynnag, gan fod y polisi hwn yn ymwneud â safleoedd cyflogaeth, mae **MAC 025** yn egluro drwy gyfeiriad yn y cyfiawnhad rhesymedig nad yw Pentre Awel yn rhan o'r cyflenwad tir a ddyrannwyd oherwydd na fydd pob swydd a grëir yn ymwneud â defnyddiau dosbarth B.

- 8.17 Nid yw'r cynllun yn cynnwys manylion nifer o'r dyraniadau safleoedd cyflogaeth. I fynd i'r afael â hyn, mae **MAC 028** a **MAC 127** yn ychwanegu atodlen o safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd at y Cynllun sy'n nodi disgrifiadau byr o safleoedd a chrynodebau o gyfyngiadau a materion seilwaith. Cynigir gwelliant hefyd i egluro y bydd defnyddiau cyflogaeth ac ategol cysylltiedig eraill nad ydynt yn rhai dosbarth B yn cael eu caniatáu ar safleoedd a ddyrannwyd yn amodol ar fodloni amodau penodol. Roedd hyn yn flaenorol yn y cyfiawnhad rhesymedig ond gan ei fod yn cyflwyno darpariaethau newydd, mae angen ei gynnwys o fewn Polisi EME3.
- 8.18 Mae Polisi EME2 yn cefnogi estyn a dwysáu busnesau presennol lle maent yn bodloni nifer o feini prawf. Er mwyn rhoi eglurder i'r polisi, mae **MAC 027** yn diwygio maen prawf a) mewn perthynas ag achosi difrod amgylcheddol neu niweidio cynigion ailddatblygu eraill. Mae gwelliant pellach i'r cyfiawnhad rhesymedig yn esbonio bod y polisi yn berthnasol i adeiladau presennol a dwysáu safleoedd mewn ardaloedd trefol a gwledig.
- 8.19 Mae Polisi EME4 yn mynd i'r afael â chynigion cyflogaeth ar safleoedd heb eu dyrannu. Er mwyn darparu'r eglurder angenrheidiol, mae **MAC 029** yn cadarnhau maint gofodol y darpariaethau polisi o fewn a'r tu allan i derfynau datblygu, gan gyfeirio at Bolisi SP3. Mae newidiadau cyfatebol i'r cyfiawnhad rhesymedig yn cadarnhau pryd y dylai achos busnes gyd-fynd â chynigion, yn egluro'r ystyr o fod yn 'uniongyrchol gysylltiedig' ag anheddiad, ac yn egluro y dylai cynlluniau ffawdelw gan gynnwys defnydd swyddfa B1(a) fodloni'r prawf dilyniannol canol tref yn gyntaf yn Cymru'r Dyfodol a PPW. Mae'r gwelliant olaf hefyd wedi'i gynnwys fel newid gofynnol i Bolisi SP2 drwy **MAC 007**.
- 8.20 Mae'r polisïau cyflogaeth yn cefnogi datblygiad busnesau bach mewn ardaloedd gwledig lle mae cynlluniau yn cael eu cyfiawnhau ac yn briodol i'w hamgylchfyd. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau ger a'r tu allan i derfynau datblygu. Nid yw absenoldeb safleoedd cyflogaeth wedi'u dyrannu y tu hwnt i'r rhai ym Mholisi EME3 yn atal cynigion ar gyfer mentrau bach priodol rhag cael eu cyflwyno yn yr ardaloedd gwledig. Ymdrinnir â hyn trwy ddull sy'n seiliedig ar feini prawf Polisi EME4. Trwy'r polisïau hyn, bydd cyd-fodolaeth tai a chyfleoedd cyflogaeth lleol yn helpu i hyrwyddo patrymau teithio cynaliadwy ymhellach. Gan gydnabod tueddiadau diweddar mewn gweithio gartref, mae Polisi EME5 hefyd yn berthnasol i ardaloedd gwledig a threfol wrth gefnogi cynigion busnes cartref y mae angen caniatâd cynllunio arnynt, lle maent yn bodloni meini prawf sy'n ymwneud â chyd-destun lleol y safle.
- 8.21 Yn amodol ar MAC, rydym o'r farn bod Polisïau EME2, EME4 ac EME5 yn darparu fframwaith cadarn i ystyried cynigion cyflogaeth y tu hwnt i safleoedd a ddyrannwyd ar draws ardal y cynllun. Maent hefyd yn dangos dull cadarnhaol o gefnogi anghenion cyflogaeth ardaloedd gwledig, a thrwy hynny alinio â pholisi cenedlaethol.

Safleoedd cyflogaeth wedi'u diogelu

- 8.22 Mae Polisi EME1 yn diogelu safleoedd cyflogaeth presennol at ddefnyddiau dosbarth B trwy ddull sy'n seiliedig ar feini prawf. Er mwyn darparu sicrwydd, mae **MAC 026 a MAC 128** yn diwygio Polisi EME1 i egluro ei gwmpas a'i ddehongliad. Mae'r mesurau'n cynnwys: dileu'r term afraid 'eithriadol'; ychwanegu canllawiau manwl ar asesu cynigion a fyddai'n arwain at ryddhau safleoedd cyflogaeth presennol at ddefnyddiau amgen; ac ychwanegu cyfeiriad at y dull canol tref yn gyntaf mewn polisi cenedlaethol, sy'n berthnasol i gynigion at ddefnydd swyddfa B1(a). Bydd rhestr fanwl o safleoedd a ddiogelir yn cael ei hychwanegu at atodiadau'r Cynllun gyda safleoedd wedi'u croesgyfeirio ar y map cynigion (**MACM/PrC1/d, MACM/PrC2/d, MACM/PrC2/e, MACM/SeC4/a, MACM/SeC5/a, MACM/PrC3/h, MACM/SeC13/a, MACM/SuV36/a, MACM/SeC15/a, MACM/SeC16/a a MACM/SeC19/b**). O ystyried y dystiolaeth ac yn amodol ar y diwygiadau angenrheidiol hyn, rydym yn dod i'r casgliad bod Polisi EME1 yn cyd-fynd â pholisi a chanllawiau cenedlaethol.

Economi ymwelwyr

- 8.23 Adlewyrchir arwyddocâd y diwydiant twristiaeth i Sir Gaerfyrddin ym Mholisi SP11 sy'n cefnogi estyniadau i gynlluniau presennol yn ogystal â datblygiadau newydd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ac economi ymwelwyr, yn amodol ar faterion amgylcheddol a thechnegol angenrheidiol. Mae angen **MAC 040** i gadarnhau y dylid ystyried yr holl feini prawf o fewn Polisi SP11 wrth asesu cynlluniau perthnasol.
- 8.24 Cefnogir cynigion ar gyfer atyniadau a chyfleusterau ymwelwyr trwy Bolisi VE1. Mae'r polisi yn gwahaniaethu rhwng safleoedd o fewn aneddiadau pendant neu sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag aneddiadau pendant, a safleoedd mewn mannau eraill yn ardal y cynllun. Yn yr achos olaf, mae'r geiriad polisi yn ddryslyd o ran ei ofyniad am ddull dilyniannol o ddewis safle a'r angen i'r safleoedd fod yn 'ddibynnol yn amlwg' ar nodweddion lleoliad penodol. Mae **MAC 041 a MAC 058** felly'n ei gwneud yn glir mai dim ond pan fyddant yn cyd-fynd â pholisi cynllunio cenedlaethol y caniateir cynlluniau y tu allan ac i ffwrdd o aneddiadau pendant. Yn ogystal, mae hierarchaeth aneddiadau Polisi SP3 yn cael ei groesgyfeirio.
- 8.25 Mae newid pellach i Bolisi VE1 yn dileu 'lle bo'n briodol' mewn perthynas â safleoedd sy'n hygyrch trwy wahanol ddulliau trafnidiaeth, gan nad yw'n glir ble na fyddai'n briodol i gynigion fod felly.
- 8.26 Mae Polisi VE2 yn mynd i'r afael â llety gwyliau parhaol ac yn gwahaniaethu rhwng lleoliadau o fewn aneddiadau pendant neu'n gyfagos iddynt a'r rhai mewn mannau eraill yn ardal y cynllun. Mae **MAC 042** yn nodi'n glir gefnogaeth bolisi i lety â gwasanaeth a llety hunanarlwyo o ansawdd uchel yn y lleoliadau hynny, er eu bod yn destun rheolaeth fwy caeth y tu allan i derfynau datblygu. Mae croesgyfeirio at Bolisi RD2 trawsnewidiadau gwledig preswyl yn angenrheidiol gan y byddai hefyd yn berthnasol i gynlluniau o'r fath.
- 8.27 Ymdrinnir â chynigion ar gyfer carafanau teithiol, gwersylla a llety gwersylla amgen nad yw'n barhaol o dan Bolisi VE3, sy'n cefnogi safleoedd newydd ac addasiadau i safleoedd presennol lle maent yn bodloni meini prawf penodol. Cyfeiria un o'r meini prawf hyn at y ffaith nad oes gor-grynodiad o safleoedd yn yr ardal. Heb unrhyw esboniad pellach o'r ffordd y byddai hyn yn cael ei asesu, mae'r polisi yn amwys. Eglura **MAC 043** gwmpas y polisi ac eglura yn y cyfiawnhad rhesymedig fod gorgrynhoi yn cwmpasu nifer, dwysedd a phatrwm cyfleusterau tebyg mewn ardal,

ynghyd ag ystyried effeithiau gweledol a/neu amgylcheddol cronrus. Mae cyfeiriad at ardaloedd gormodol o arwyneb solet hefyd wedi'i ddileu o faen prawf polisi ar wahân gan ei fod wedi'i gynnwys yn y cyfiawnhad rhesymedig.

- 8.28 Mae Polisi VE4 yn cwmpasu safleoedd carafanau statig a chabanau gwyliau a llety gwersylla amgen parhaol. Mae meini prawf gwahanol yn berthnasol i safleoedd newydd a safleoedd presennol, a safleoedd newydd yn destun mesurau lleoliadol llymach. Mae **MAC 044** yn nodi, o dan y ddau senario, fod yr holl feini prawf cyfatebol yn berthnasol.
- 8.29 Mae'r Cyngor, drwy Bolisi SG1 a dyraniad SeC20/MU1, wedi cynnwys tir ym Mharc Gwyliau Talacharn ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau twristiaeth a hamdden. Er bod perchnogion y safle yn dymuno gweld y dyraniad yn cael ei ehangu i gynnwys ail gam datblygu, mae hyn yn cael ei herio gan y Cyngor sy'n honni bod y dyraniad yn ddigonol i ddiwallu anghenion presennol ac y dylid asesu ehangu pellach y safle yn unol â pholisïau'r Cynllun. Er ein bod yn nodi pryderon tirlfeddianwyr, rydym o'r farn bod y fframwaith a ddarperir gan Bolisiïau VE1, VE2, VE3 a VE4 yn ddigonol i ganiatáu ystyried cynigion yn y dyfodol i estyn y safle. Felly, nid ydym o'r farn bod angen unrhyw newidiadau pellach i Bolisi SG1 neu ddyraniad SeC20/MU1.
- 8.30 Er y gellir defnyddio llety gwyliau fel ail gartrefi, mae eu deiliadaeth fel arfer wedi'i chyfyngu i gyfnodau tymor byr trwy amodau cynllunio. Mae effeithiau ail gartrefi a gosodiadau tymor byr ar hyfywedd cymunedau yn cael eu hystyried gan y Cyngor ar sail ehangach gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, effeithiau mesurau'r dreth gyngor sydd wedi'u cyflwyno. Gallai cwblhau'r gwaith hwnnw lywio rheolaethau polisi yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth o'n blaenau fod ymagwedd y Cyngor tuag at lety gwyliau, dan arweiniad cynllun, yn effeithio neu wedi effeithio'n sylweddol ar leoliad neu nifer yr ail gartrefi ar draws yr ardal.
- 8.31 Yn amodol ar y newidiadau a nodir yn **MAC**, mae Polisiïau SP11, VE1, VE2, VE3 a VE4 yn darparu sail briodol i benderfynu ar gynigion sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Mae'r polisiïau'n briodol gan eu bod yn darparu sail i gyflawni amcan y cynllun i ddarparu ar gyfer mentrau cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â thwristiaeth drwy gydol y flwyddyn. Byddai hyn yn cyd-fynd â nodau twristiaeth gynaliadwy paragraffau 5.5.1 – 5.5.7 PPW a Pholisïau 5 a 29 Cymru'r Dyfodol.

Casgliadau

- 8.32 Ar y cyfan, rydym yn fodlon bod y fframwaith polisi a ddarperir yn y Cynllun mewn perthynas â chyflogaeth a'r economi ymwelwyr yn glir, yn gadarn ac yn cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol a Cymru'r Dyfodol.

9 Arferion Iach – Yr Amgylchedd Naturiol, Adeiledig a Hanesyddol

Yr amgylchedd naturiol

- 9.1 Mae tirwedd naturiol amrywiol Sir Gaerfyrddin yn cynnwys ardaloedd arfordirol, aberoedd, ucheldiroedd, dyffrynnoedd, caeau a choetiroedd. Maent yn gartref i amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau. Mae ehangder y cynefinoedd yn cynnwys ACA, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, safle RAMSAR, Safleoedd o

Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, a Gwarchodfeydd Natur Lleol.

- 9.2 Ym Mholisi SP14 darperir y fframwaith ar gyfer diogelu a gwella gwerth cadwraeth natur a bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin. Wrth wneud hynny, mae'r polisi yn ei gwneud yn glir fod yn rhaid i gynigion adlewyrchu'r rôl sydd gan agweddau a nodweddion amgylchedd naturiol ac amgylchedd sy'n gysylltiedig o ran ecoleg wrth ddiogelu a gwella bioamrywiaeth, diffinio'r dirwedd, cyfrannu at les ac at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- 9.3 Fel y drafftwyd mae Polisi SP 14 yn ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol ac nid yw'n eglur ynghylch y ffordd y bydd ei ofynion yn cael eu gweithredu. Er mwyn gwella hyn, mae **MAC 064** yn diwygio'r polisi i gynnwys cyfeiriad at 'Gwydnwch Ecosystemau', 'rhwydweithiau ecolegol gwydn' ac 'adnoddau naturiol anadnewyddadwy'. Er mwyn osgoi ailadrodd a sicrhau cyfredolrwydd, mae'n dileu cyfeiriad at bolisi Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol/ardal.
- 9.4 Yn ychwanegol, mae **MAC 064** yn diwygio cyfiawnhad rhesymedig Polisi SP14 i gynnwys gofyniad i gynigion ddod gyda Datganiad Seilwaith Gwyrdd, ac esbonio'r dull a nodir mewn polisi cynllunio deddfwriaethol a chenedlaethol ar gyfer asesu cynigion datblygu.
- 9.5 Mae Polisi NE1 yn cwmpasu safleoedd ecolegol, daearegol a geomorffolegol rhanbarthol a lleol. Gwna **MAC 065** nifer o newidiadau i'r polisi a'i gyfiawnhad rhesymedig i fynd i'r afael â diwygiadau i PPW. Mae'r rhain yn cynnwys ychwanegu cynefin mawndir at y rhestr o safleoedd a ystyrir, cyfeirio at y dull fesul cam a chynnal cysylltedd ecolegol.
- 9.6 Mae'r dull sy'n seiliedig ar feini prawf ym Mholisi NE2 yn ceisio sicrhau bod cynefinoedd a rhywogaethau yn cael eu gwarchod yn addas rhag datblygiad niweidiol. Er mwyn sicrhau cysondeb â pholisïau eraill a PPW, mae **MAC 066** yn disodli'r cyfeiriad at yr hierarchaeth lliniaru ym maen prawf A â'r dull fesul cam, ac mae'n cynnwys cyfeiriad at sicrhau budd net i fioamrywiaeth o dan faen prawf B.
- 9.7 Mae newidiadau pellach i gyfiawnhad rhesymedig y polisi yn esbonio y byddai'r dull fesul cam yn berthnasol i'r amgylchiadau eithriadol lle mae'r rhesymau dros ddatblygu yn amlwg yn fwy na buddiannau bioamrywiaeth a chadwraeth natur, a ffynonellau gwybodaeth gyfeirio a gedwir gan Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol, o ystyried eu perthnasedd ar gyfer gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau trwy **MAC 066** yn sicrhau cysondeb y Cynllun â pholisi cenedlaethol.
- 9.8 Mae Polisi NE3 yn ceisio sicrhau diogelu a rheoli coridorau, rhwydweithiau a nodweddion unigryw ecolegol yn briodol. O ystyried bod ei gynnwys a'i strwythur yn debyg i Bolisi NE2, mae **MAC 067** yn diwygio maen prawf A i gyfeirio at y dull fesul cam yn lle'r hierarchaeth lliniaru, a'r cyfiawnhad rhesymedig i gyfeirio at Fframwaith DECCA ar gyfer hyrwyddo gwydnwch ecolegol. Eglura hefyd beth yw ystyr amgylchiadau eithriadol ym maen prawf C. Unwaith eto, mae'r newidiadau angenrheidiol hyn yn gyson â pholisi cenedlaethol.
- 9.9 Mae ACA Caeau Mynydd Mawr yn cynnal un o boblogaethau glöynnod byw brith y gors pwysicaf Cymru. Mae ei diogelwch a'i gwydnwch hirdymor yn dibynnu ar gynnal rhwydwaith helaeth, wedi'i gysylltu'n dda o gynefin addas. Mae'r Cyngor wedi mapio

ardal lle bydd angen i gynigion datblygu gyfrannu tuag at gynyddu ansawdd a maint y cynefin sydd ar gael i löyn byw brith y gors [CSD46 - CSD49].

- 9.10 Mae Polisi NE4 yn darparu'r sail bolisi ar gyfer prosiect Caeau Mynydd Mawr ac yn esbonio y gellir ceisio rhwymedigaethau cynllunio o gynigion datblygu yn yr ardal [CSD87]. Fel y'i cyflwynwyd, nid oes gan Bolisi NE4 eglurder ar ei gwmpas a'i gymhwyso. Gwna **MAC 068** nifer o newidiadau angenrheidiol. Mae'n cyfeirio at ardal y prosiect a ddiffinnir ar y Map Cynigion; mae'n ailenwi'r 'ardal SPG' yn 'ardal y prosiect'; mae'n symud y prawf gweinyddol o'r polisi i'r cyfiawnhad rhesymedig; ac mae'n egluro sut y byddai'r polisi yn cael ei weithredu. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn sicrhau bod y polisi yn darparu sicrwydd ynghylch ei gymhwyso ac yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol.
- 9.11 Mae polisiâu NE5 a NE6 yn cwmpasu cynlluniau rheoli arfordirol a chynigion datblygu mewn lleoliadau arfordirol, yn y drefn honno. Er bod yr amcanion yn glir, mae angen diwygiadau i esbonio'r dull o weithredu gofynion polisi. Fel y cyfryw, eglura **MAC 069** y dylid cymhwyso'r holl feini prawf ym Mholisi NE5 wrth asesu cynigion ac mae'n cyfeirio at Bolisi SP14 yn y cyfiawnhad rhesymedig. Yn yr un modd, eglura **MAC 070** fod Polisi NE6 yn ymwneud â chynigion mewn lleoliadau arfordirol datblygedig a heb eu datblygu, ac y dylai'r holl feini prawf cyfatebol fod yn berthnasol. Mae geiriad ychwanegol a gynigir i'r cyfiawnhad rhesymedig yn helpu i ddehongli polisi.
- 9.12 Nodwyd Ardal Rheoli Newid Arfordirol (CCMA) yng Nghynllun Rheoli Traethlin 2 [RPG6] i lywio ystyriaethau datblygu yn yr ardal arfordirol yn y dyfodol. Ym Mholisi NE7 nodir sefyllfa'r Cynllun ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygu o fewn y CCMA. O ystyried ei gwmpas eang, mae'r polisi yn hir ac yn brin o eglurder. Felly, mae angen rhannu'r polisi yn ddau, gan fynd i'r afael â datblygiadau preswyl ac amhreswyl yn y drefn honno o dan Bolisiâu newydd NE7 a NE8. **MAC 071** sy'n gwneud y newid hwn ac yn cadarnhau y peidir â chaniatáu eiddo preswyl o fewn y CCMA yn hytrach na pheidio â'u cefnogi. Mae newid pellach yn cadarnhau y dylai cynigion ar gyfer adleoli anheddau o fewn y CCMA ymwneud ag aneddiadau fel y'u diffinnir ym Mholisi SP3. O ystyried bod y polisiâu hyn yn cyfeirio at ardal ddynodedig, mae newid i'r cyfiawnhad rhesymedig yn esbonio ymhle y gellir gweld ehangder y CCMA wedi'i fapio ar-lein.
- 9.13 Gyda **MAC 069, 070 a 071**, mae Polisiâu diwygiedig NE5, NE6 a NE7 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer rheoli datblygiad mewn lleoliadau arfordirol.

Amgylchedd adeiledig a hanesyddol

- 9.14 Mae Polisi Strategol SP15 yn nodi ymagwedd y Cyngor tuag at ddiogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol. Mae Polisi cysylltiedig BHE1 yn cwmpasu adeiladau rhestredig a chynigion mewn ardaloedd cadwraeth; wrth wneud hynny mae'n ailadrodd polisi a deddfwriaeth genedlaethol i raddau helaeth. Felly, mae **MAC 072** yn dileu Polisi BHE1 ac yn symud y cyfeiriad arbennig lleol at nodweddion arbennig ardal i Bolisi SP15.
- 9.15 Mae **MAC 074** yn trosglwyddo rhannau o Bolisi BHE1 i gyfiawnhad rhesymedig Polisi SP15 ac yn egluro materion megis yr angen i gynigion perthnasol gyd-fynd â Datganiad Effaith Treftadaeth yn unol â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Mae angen diwygiadau pellach i'r cyfiawnhad rhesymedig i gydnabod bod

Parciau a Gerddi Hanesyddol a Henebion Cofrestredig wedi'u dynodi ar Fap Cyfyngiadau'r CDLI yn hytrach na'r Map Cynigion. Ymdrinnir â'r rhain trwy **MAC 073**.

Tirwedd

- 9.16 Mae tirwedd Sir Gaerfyrddin yn helaeth ac amrywiol. Yn unol â pholisi cenedlaethol, mae'r Cyngor wedi cymhwyso tystiolaeth o LANDMAP, set ddata genedlaethol o wybodaeth am dirwedd, i lywio Asesiad Cymeriad Tirwedd (LCA) Sir Gaerfyrddin sy'n dod i'r amlwg. Mae'r astudiaeth yn rhannu ardal y Cynllun yn 28 o wahanol Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ac yn disgrifio nodweddion a rhinweddau tirwedd pob ardal.
- 9.17 Bwriad y Cyngor yw mabwysiadu'r LCA fel SPG a defnyddio'r dystiolaeth i benderfynu ar gynigion. Fodd bynnag, ni ddylid gosod polisi cynllunio trwy SPG. Ceisiodd Polisi BHE2 gynnal uniondeb cyffredinol cymeriad tirwedd trwy nifer o feini prawf eang a oedd heb y manylion angenrheidiol am ei gymhwyso. I fynd i'r afael â hyn, mae **MAC 075 a MAC 130** yn cynnig diwygiadau i Bolisi BHE2 yn seiliedig ar allbynnau LCA. Ehangwyd y meini prawf polisi ac yn hollbwysig, ceir bellach gyfeiriad at yr LCA fel ffynhonnell dystiolaeth sylfaenol. Mae hyn yn darparu sail bwysig i asesu cynigion, gan ystyried nodweddion allweddol a rhinweddau gwerthfawr pob Ardal Cymeriad Tirwedd. Eglura'r cyfiawnhad rhesymedig sut y bydd yr LCA yn cael ei ddefnyddio i asesu effeithiau tirwedd cynigion datblygu. Bydd atodiad newydd yn rhestru'r holl ardaloedd cymeriad tirwedd gyda diagram sy'n dangos y ffiniau ar lefel uchel.
- 9.18 Er y dylai pob cynnig datblygu ddiogelu a gwella nodweddion tirwedd a nodwyd, bydd y meini prawf polisi manwl yn berthnasol i gynlluniau sydd y tu allan i derfynau datblygu. Mae'r dull hwn yn cydreddeg yn agosach â'r canfyddiadau ar gyfer pob ardal cymeriad tirwedd. Eglura newidiadau pellach yn fanylach pryd y byddai angen asesiadau tirwedd gwahanol fel arfer i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio. Yn olaf, mae diwygiadau i'r cyfiawnhad rhesymedig yn esbonio'n fanylach sut a phryd y byddai'r polisi yn berthnasol.
- 9.19 Nid yw'r diwygiadau i Bolisi BHE2 yn nodi ardaloedd tirwedd arbennig (SLA). Fodd bynnag, nid oes gofyniad i'r Cyngor wneud hynny, gan fod SLA yn ddynodiadau anstatudol ac y dylid eu cymhwyso dim ond lle mae rheswm da dros gredu na all polisiâu cynllunio arferol ddarparu'r amddiffyniad angenrheidiol. Nid oes unrhyw ofyniad i esbonio pam nad yw SLA wedi'u cynnwys yn y CDLI newydd, gan ei fod yn gynllun newydd gyda'i sylfaen dystiolaeth ei hun nad yw'n ddyledus i'r CDLI a fabwysiadwyd a baratowyd nifer o flynyddoedd yn ôl.
- 9.20 Nid yw dull y Cyngor yn golygu y bydd ardaloedd gwledig yn fwy agored i gynigion datblygu tybiannol, yn absenoldeb SLA dynodedig. Yn wir, mae'r dull a ddewiswyd yn cydymffurfio â byrdwn eang polisi cenedlaethol ar dirweddau a rheolaeth gaeth ar ddatblygiad yng nghefn gwlad.
- 9.21 Mae'r newidiadau a gynigir drwy **MAC 075 a MAC 130** yn angenrheidiol i ddarparu eglurder ynghylch asesu cynigion datblygu ym Mholisi BHE2 a sicrhau bod tirweddau a morluniau unigryw Sir Gaerfyrddin yn cael eu diogelu a'u gwella.

Darparu mannau agored

- 9.22 Mae polisiâu PSD7 a PSD8 yn mynd i'r afael â diogelu a darparu mannau agored ar draws ardal y cynllun, yn y drefn honno. Mae'r Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus (POSA) [CSD23] yn darparu astudiaeth gynhwysfawr o fannau gwyrdd agored ffurfiol ac anffurfiol presennol. Nodwyd nifer o fannau agored ar y Map Cynigion ac mae Polisi PSD7 yn nodi dull sy'n seiliedig ar feini prawf o'u diogelu. Gan nad yw'n glir a yw'r polisi yn berthnasol i'r ardaloedd hynny wedi'u mapio yn unig, eglura **MAC 053 a MAC 119** yn y cyfiawnhad rhesymedig fod cwmplas y polisi yn estyn i ardaloedd a nodwyd yn y POSA ac ardaloedd eraill sy'n cydymffurfio â diffiniad y cynllun o fannau agored. Eglura hyn nad yw cwmplas y polisi wedi'i gyfyngu i'r ardaloedd hynny ar y Map Cynigion. Diwygiwyd y diffiniadau mannau agored yng nghyfiawnhad rhesymedig y polisi a geirfa'r Cynllun i fod yn gyson â'i gilydd.
- 9.23 Ceisiodd nifer o gynrychiolwyr warchod tir yn hen Ysbyty Glanaman trwy ddarpariaethau Polisi PSD7. Er bod i'r tir efallai werth hamdden i'r gymuned a mynediad i'r cyhoedd, mae mewn perchnogaeth breifat ac nid yw wedi'i gyflwyno at ddibenion mannau agored gan y tirfeddiannwr. Nid yw o fewn ein rhodd i ddiogelu tir lle nad oes caniatâd ffurfiol tirfeddiannwr ar waith. Pe bai unrhyw gynigion datblygu ar gyfer y safle yn dod i'r amlwg yn y dyfodol, byddai fframwaith polisi'r CDLI newydd yn gofyn am dirlunio ac, yn achos datblygiad tai, darparu mannau agored yn unol â'r safonau perthnasol.
- 9.24 Mae Polisi PSD8 yn nodi'r dull o sicrhau y darperir mannau agored ar gyfer datblygiadau preswyl o 5 neu fwy o anheddau. Byddai'r polisi yn elwa ar gyfeirio at y safonau mannau agored a gynhwysir yn y POSA. Bu'r safonau hefyd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn rhan o'r SPG Mannau Agored drafft, heb unrhyw ddiwygiadau pellach wedi'u cynnig. Mae **MAC 054** yn ymgorffori'r manylion angenrheidiol ar safonau mannau agored o fewn Polisi PSD8 a chyfiawnhad rhesymedig, sydd o fudd i'w weithredu.

Casgliadau

- 9.25 Yn gyffredinol, mae polisiâu'r cynllun yn darparu sail briodol i ddiogelu a gwella'r amgylcheddau naturiol ac adeiledig.

10 Cysylltiadau Cadarn – Newid yn yr Hinsawdd, Ynni Adnewyddadwy, Trafnidiaeth, Mwynau a Gwastraff

Newid yn yr hinsawdd ac ynni adnewyddadwy

- 10.1 Mae Polisi SP16 yn darparu fframwaith ar gyfer cynigion datblygu sy'n ymateb i achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn cwtogi arnynt. Er mwyn cynorthwyo'r dehongli, mae **MAC 076** yn gywir yn dileu 'neu' ar ôl maen prawf D, a thrwy hynny'n cadarnhau bod yr holl feini prawf polisi yn berthnasol.
- 10.2 Yn yr un modd â phynciau eraill o fewn y CDLI newydd, mae Polisi SP16 yn darparu cysylltiad priodol â'r polisiâu newid hinsawdd cysylltiedig ac felly nid yw'n ailadrodd rhannau eraill o'r cynllun yn ddiangen. Lle ceir dyblygu gyda pholisi cenedlaethol, mae'r Cyngor wedi cynnig newidiadau i'r polisiâu perthnasol. Er enghraifft, gan fod Polisi CCH5 yn ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â chynigion datblygu mewn ardaloedd perygl llifogydd, nid oes unrhyw gyfiawnhad dros ei gadw yn y cynllun. O ganlyniad mae **MAC 081** yn tynnu Polisi CCH5 o'r cynllun.

- 10.3 Mae Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel Sir Gaerfyrddin (RLCEA) [CSD27] yn asesiad lefel uchel o'r potensial ar gyfer gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy a charbon isel a di-garbon yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r ffigurau cynhyrchu ynni a nodir yn yr RLCEA yn uchelgeisiol ond wedi'u cefnogi gan dystiolaeth. Er bod yr RLCEA yn dyddio cyn cyhoeddiad terfynol Cymru'r Dyfodol, mae wedi ystyried polisïau drafft ymgynghoriad y ddogfen honno ar wynt ac ynni. Yn wir, mae'r galluedd posibl o ran ynni gwynt a solar yn darparu'r cyfraniadau mwyaf yn ystod cyfnod y Cynllun, yn seiliedig ar ddull trefnus o asesu gwahanol ffynonellau ynni adnewyddadwy. I'r perwyl hwnnw, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt, gan gynnwys un yn Sir Gaerfyrddin, lle mae'r effeithiau tebygol ar y dirwedd wedi'u modelu a bydd rhagdybiaeth o blaid datblygu ynni gwynt ar raddfa fawr yn cael ei asesu drwy Bolisïau 17 a 18 Cymru'r Dyfodol. Mae ei fethodoleg yn cyd-fynd â Chynllunio LIC ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Pecyn Cymorth i Gynllunwyr (2015).
- 10.4 Mae'r RLCEA yn nodi ac yn argymhell tair LSA lle bydd datblygiadau ynni solar o 5MW neu fwy o gapasiti gosodedig yn cael eu cefnogi.
- 10.5 Mae Polisi CCH1 y CDLI newydd yn cefnogi datblygiadau solar o 5MW neu fwy o fewn yr LSA yn amodol ar fodloni nifer o feini prawf polisi. Er nad oes cyfeiriadau yn y polisi at BMVAL a phriddoedd carbon uchel, mae methodoleg dewis safle RLCEA yn cadarnhau bod y cyfyngiadau defnydd tir hyn wedi'u hystyried yn yr asesiad. O ystyried yr aseswyd bod dwy o'r tair LSA â sensitifrwydd tirwedd 'uchel', mae'r gefnogaeth bolisi, yn hollbwysig, yn amodol ar sicrhau nad oes unrhyw effaith annerbyniol ar amwynder gweledol na chymeriad tirwedd. Nid yw'r polisi yn enwi'r tair LSA, y mae **MAC 077** yn ei gywiro'n gywir ynghyd â chroesgyfeiriad at y Map Cynigion a chadarnhad y dylid asesu cynigion yn erbyn y tri maen prawf polisi. Mae newid cysylltiedig pellach i'r cyfiawnhad rhesymedig yn egluro y bydd datblygiadau solar uwchlaw 10MW o fewn LSA yn cael eu pennu trwy bolisi Cymru'r Dyfodol.
- 10.6 Mae Polisi CCH1 hefyd yn cefnogi cynigion ynni gwynt o 10MW ac uwch o fewn yr ardal a aseswyd ymlaen llaw yn Cymru'r Dyfodol, yn amodol ar fodloni meini prawf polisi. Fodd bynnag, eglura Cymru'r Dyfodol fod rhagdybiaeth o blaid datblygu ynni gwynt ar y tir ar raddfa fawr yn yr ardaloedd hyn, yn amodol ar y meini prawf ym Mholisi 18. Er mwyn unioni'r anghysondeb hwn, mae **MAC 077** yn dileu pob cyfeiriad at ffermydd gwynt ar raddfa fawr o Bolisi CCH1, sydd bellach yn canolbwyntio'n unig ar gynlluniau solar o fewn LSA.
- 10.7 Y tu allan i'r ardal a aseswyd ymlaen llaw ac LSA, mae Polisi CCH2 yn cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel lle maent yn bodloni meini prawf polisi. Nid yw'r cyfeiriad at ddim effeithiau afresymol ar amwynder preswyl ym maen prawf E yn gyson â'r meini prawf eraill sy'n cyfeirio at effeithiau annerbyniol. Yn ogystal, mae maen prawf B yn cyfeirio at 'ardaloedd sydd wedi'u dynodi am eu gwerth tirwedd' nad yw'n berthnasol mwyach yn dilyn newidiadau i Bolisi BHE2. Er mwyn sicrhau cysondeb mae **MAC 078** yn unioni'r gwrthdaro hwn.
- 10.8 Er nad yw Polisi CCH2 yn benodol ar BMVAL a phriddoedd carbon uchel, mae **MAC 078** yn darparu'r cyfeiriadau angenrheidiol yn y cyfiawnhad rhesymedig, gan sicrhau mai dim ond lle mae angen trechaf y dylai cynlluniau ynni adnewyddadwy ddigwydd ar dir o'r fath. Mae newid pellach i'r cyfiawnhad rhesymedig yn egluro bod Polisïau CCH1 a CCH2 yn berthnasol i geisiadau sy'n dod o dan y trothwy 10MW

yn unig. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau yn egluro'r dull lleol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'i berthynas â Cymru'r Dyfodol.

- 10.9 Ym Mholisi 16 Cymru'r Dyfodol enwir Llanelli yn ardal flaenoriaeth rhwydwaith gwresogi ardal, lle dylai awdurdodau cynllunio nodi cyfleoedd ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal a chynllunio'n gadarnhaol ar gyfer eu gweithredu. Yn unol â hynny, mae'r RLCEA yn nodi pedwar cynllun posibl ar draws yr ardaloedd trefol, gan gynnwys dau yn Llanelli, y mae angen eu dadansoddi ymhellach i bennu hyfywedd ariannol. Darperir cefnogaeth y Cynllun i gynlluniau o'r fath ym Mholisiau CCH2 a CCH6.
- 10.10 Mae Polisi CCH6 yn annog ymgorffori technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel mewn datblygiadau newydd. Gan adeiladu ar argymhellion RLCEA, mae **MAC 082** yn diwygio'r polisi, a'i gyfiawnhad rhesymedig i esbonio bod datblygiadau masnachol o 10,000 metr sgwâr neu fwy yn gofyn am Asesiad Ynni i bennu dichonoldeb ymgorffori ynni adnewyddadwy a charbon isel mewn cynlluniau. Mae'r darpariaethau yn bwrw ymlaen â'r gofynion lleiaf ym Mholisi 16 Cymru'r Dyfodol. Mae'r newidiadau hyn, ynghyd â geiriad ychwanegol yn y cyfiawnhad rhesymedig, yn cadarnhau y bydd dull hyblyg yn cael ei gymhwyso i'r polisi lleol, i gydnabod amgylchiadau safle-benodol.
- 10.11 Mae polisi CCH7 yn cefnogi cynigion sy'n ceisio creu coetir, coedwigoedd, lleiniau o goed a choridorau o goed. Mae hyn yn darparu sail polisi leol i gefnogi targedau cenedlaethol ar gyfer cynyddu gorchudd coetir sydd yn ei dro'n gallu helpu i leihau allyriadau carbon. Ceir cwmplas hefyd i blannu coed ar hyd cyrsiau dŵr i leihau maetholion ffo ac erydiad pridd, a thrwy hynny gefnogi strategaeth lliniaru maetholion y Cyngor. Mae angen diwygio'r polisi i sicrhau ei fod yn wahanol i Bolisi PSD4, sy'n ymwneud ag effeithiau cynigion datblygu ar goed, coetiroedd a gwrychoedd presennol. Eglura **MAC 048** fod y polisi yn cyfeirio at gynigion datblygu, ac mae'n dileu cyfeiriad at warchod, gan fod hynny eisoes wedi'i gynnwys ym Mholisi PSD4. Ymhlith y newidiadau pellach i Bolisi CCH7 a gynhwysir ym **MAC 083** mae ystyriaethau mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd ac ecosystemau ynghyd ag esboniad o'r materion hyn yn y cyfiawnhad rhesymedig.
- 10.12 Gwnaethpwyd newidiadau hefyd i Bolisi PSD4 sy'n egluro bod y polisi yn berthnasol i ddatblygiadau newydd, tra bod y cyfiawnhad rhesymedig yn esbonio y gallai cynigion olygu bod angen plannu coed newydd a chydadferol. Mae'r newidiadau hyn yn sicrhau bod y ddau bolisi yn cael eu cyfiawnhau ac nad ydynt yn dyblygu ei gilydd.

Trafnidiaeth a hygyrchedd

- 10.13 Darpara Polisi SP17 y fframwaith i gefnogi darparu system drafnidiaeth hygyrch, integredig a chynaliadwy. Mae'r meini prawf polisi yn eang ac yn nodi datganiadau o uchelgais a chefnogaeth sy'n cysylltu â nifer o bolisiau trwy gydol y CDLI newydd. Ymhlith pethau eraill, mae Polisi SP17 yn cydnabod bod atgyfnerthu swyddogaeth a rôl aneddiadau yn cyfrannu at ddarparu system drafnidiaeth gynaliadwy. I'r perwyl hwn, mae **MAC 084** yn diwygio maen prawf d i ddarparu croesgyfeiriad at Bolisi SP3, sy'n gyson â chyfeiriadau at y fframwaith aneddiadau mewn mannau eraill yn y Cynllun.

- 10.14 Mae maen prawf arall ym Mholisi SP17 yn darparu ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) mewn datblygiadau newydd. Cysyllta hyn â Pholisi CCH3, sy'n nodi gofynion y cynllun am unedau gwefru ULEV mewn datblygiadau preswyl ac amhreswyl. Fodd bynnag, wrth fynnu unedau gwefru ULEV, mae Polisi CCH3 yn mynd y tu hwnt i ddarpariaethau polisi cenedlaethol, sy'n cyfeirio at bwyntiau gwefru. Gwna tystiolaeth y Cyngor yn ei Ddiweddariad FVR [CSD32] lwfans o £550 fesul annedd ar gyfer pwyntiau gwefru ULEV. Gan nad oes cyfiawnhad lleol sy'n mynnu bod unedau gwefru'n cael eu gosod gan ddatblygwr, dylai Polisi CCH3 gyfeirio at bwyntiau gwefru. **MAC 079** sy'n gwneud y newid angenrheidiol.
- 10.15 Mae rhagdybiaethau'r FVR yn seiliedig ar gostau nodweddiadol yn cael eu hychwanegu at brisiau cyfartalog y Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu. Mae'r FVR yn cydnabod bod ystod brisiau ar gyfer pwyntiau gwefru ac mae rhagdybiaethau'r astudiaeth wedi'u gosod yn bwrpasol ar lefel uchel i grisialu hyfywedd eang ar gyfer yr ystod eang o ddatblygiadau y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno. Rydym yn fodlon bod y dystiolaeth yn darparu sail briodol i gynnal asesiad lefel uchel ac yn cyfiawnhau'r dull a gymerwyd ym Mholisi CCH3.
- 10.16 Mae Polisi TRA2 yn cefnogi cynigion sy'n gwella mynediad cerdded a beicio. Ymhlith pethau eraill, mae'r polisi yn darparu sail i geisio lle parcio beiciau diogel a chyfleus o fewn datblygiadau. Cyfeiria ail ran y polisi at yr effeithiau ar hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau teithio llesol presennol. Eglura **MAC 085** nifer o bethau angenrheidiol o fewn y polisi. Mae bellach yn cadarnhau bod y polisi yn berthnasol i gynigion datblygu, sy'n sail gliriach i gymhwyso'r polisi. Mae newid pellach yn gofyn i gynigion datblygu sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar hawliau tramwy cyhoeddus neu llwybrau teithio llesol presennol ddarparu llwybrau amgen trwy gyflwyno'r Strategaeth Beicio a'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Daw'r newid hwn i gymryd lle'r cyfeiriad polisi at Gynllun Teithio Llesol y Cyngor ac mae'n fwy penodol yn ei ddisgwyliadau a'i ffynhonnell dystiolaeth. Ceir mân ychwanegiad at y cyfiawnhad rhesymedig sy'n croesgyfeirio at atodiad y cynllun presennol sy'n rhestru llwybrau teithio llesol. Gyda'r newidiadau hyn, mae Polisi TRA2 yn darparu sail leol briodol i frwr ymlaen â pholisi a deddfwriaeth genedlaethol ar fesurau teithio llesol.
- 10.17 Er bod polisi a chanllawiau cenedlaethol yn TAN 18 Trafnidiaeth yn darparu llyw ar gyfer gosod safonau parcio, nid yw'n glir sut y bydd y ddarpariaeth parcio ceir yn cael ei rheoli yn y CDLI newydd. Heb sail polisi leol, byddai'n anoddach ceisio a chyfiawnhau unrhyw safonau. Mae **MAC 085** felly'n ymgorffori maen prawf ychwanegol ym Mholisi TRA5 sy'n cefnogi cynigion datblygu sy'n unol â safonau parcio'r Cyngor. Mae newidiadau cysylltiedig i gyfiawnhad rhesymedig y polisi yn esbonio'r sail i'r safonau ac y byddant yn cael eu mabwysiadu fel SPG a'u cymhwyso'n hyblyg. Mae'r dull hwn yn gyson â pholisi cenedlaethol.
- 10.18 Yn gyffredinol, ac yn destun MAC, mae'r fframwaith polisi ar gyfer trafndiaeth a hygyrchedd yn gyson â pholisi cenedlaethol ac yn cael ei gefnogi.

Adnoddau mwynol

- 10.19 Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru – 2il adolygiad (Medi 2020) [RPG8] yn nodi'r safbwynt rhanbarthol ar gynllunio mwynau. Mae'r Datganiad yn nodi ffigurau

dosrannu ar gyfer Sir Gaerfyrddin o 27.556 miliwn tunnell ar gyfer agregau creigiau mâl hyd at 2041 a 0.058 miliwn tunnell o dywod a graean hyd at 2038.

- 10.20 Mae'r datganiad o gydweithio is-ranbarthol ar gyfer is-ranbarth Dinas Abertawe [RPG10] yn cadarnhau cytundeb rhwng Cynghorau Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe i dderbyn eu dosraniadau o greigiau mâl. Mae Papur Pwnc Mwynau y Cyngor [CSD84] yn esbonio bod digon o gronfeydd a ganiateir o greigiau mâl ar safleoedd presennol yn ardal yr awdurdod i gwrdd â'i ddosraniad dros gyfnod y Cynllun, gan hefyd gynnal banc tir o 10 mlynedd o leiaf fel sy'n ofynnol gan Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau, Mawrth 2004 (MTAN1). O ganlyniad, nid oes angen dyraniadau newydd yn y CDLI newydd ar gyfer creigiau mâl yn Sir Gaerfyrddin.
- 10.21 Mae'r Cyngor yn rhan o is-ranbarth gwahanol ar gyfer adnoddau tywod a graean a gafwyd o'r tir, ac yn cael ei gyfuno â Chynghorau Sir Penfro a Cheredigion ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae un safle yn Sir Gaerfyrddin yn cyfrannu at y cyflenwad. Mae RTS2 yn cadarnhau diffyg banc tir o dywod a graean ar draws yr is-ranbarth, a safleoedd echdynnu newydd yn ofynnol. Eglura is-ranbarth De-orllewin Cymru [RPG11], er mwyn bodloni RTS2, fod dwy ardal chwilio am dywod a graean y cytunwyd arnynt wedi'u nodi ar draws y rhanbarth. Ceir un o'r ardaloedd hyn yn rhannol o fewn Sir Gaerfyrddin ac fe'i nodir o dan Bolisi SP18 ac fe'i hanodwyd ar y Map Cynigion. Nid yw'r awdurdodau is-ranbarth wedi cwblhau dosrannu adnoddau tywod a graean eto. Fodd bynnag, mae'r dull o nodi ardaloedd chwilio yn caniatáu archwilio a chynhyrchu yn y dyfodol, yn amodol ar gydymffurfio â pholisïau mwynau perthnasol.
- 10.22 Mae'r dystiolaeth hon wedi llywio dull y CDLI newydd o reoli adnoddau mwynau yn gynaliadwy. Ym Mholisi SP18 darperir fframwaith lefel uchel priodol sy'n cwmpasu cyflenwi, ailddefnyddio a diogelu adnoddau a seilwaith mwynau, ynghyd â defnyddio clustogfeydd a chynlluniau adfer. Mae Polisi MR1 yn cefnogi ceisiadau i echdynnu mwynau lle mae angen wedi'i brofi, a lle na fyddent yn arwain at unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar wahanol faterion o ystyried y meini prawf polisi. Mae **MAC 086** a **MAC 087** yn angenrheidiol i gadarnhau bod yr holl feini prawf yn y ddau bolisi yn berthnasol.
- 10.23 Mae Polisi MR2 yn dynodi clustogfeydd o amgylch pob safle gyda chaniatâd cynllunio yn bodoli ar gyfer gweithio mwynau. Er bod y clustogfeydd yn cael eu dangos ar y Map Cynigion, nid yw'r safleoedd wedi'u henwi yn y polisi. Er mwyn sicrhau bod Polisi MR2 yn cael ei gymhwyso'n effeithiol yn unol â pholisi cenedlaethol, mae **MAC 088** yn nodi safleoedd mwynau gweithredol, anweithredol a segur gyda chlustogfeydd a'r mwyn echdynnu perthnasol. Croesgyfeirir y rhestr o safleoedd ym Mholisi MR2 â thabl manylach yn Atodiad 4 sy'n rhestru statws a math y mwynau a dynnwyd o bob safle. Ychwanega **MAC 121** ddyddiadau ar gyfer yr adolygiad o hen ganiatâd mwynau at y tabl. Mae'r newidiadau hyn yn rhoi eglurder i'r polisi ac yn helpu dehongli.
- 10.24 Er mwyn osgoi sterileiddio adnoddau mwynol yn barhaol, mae Polisi MR3 yn nodi ardaloedd diogelu mwynau ac yn nodi meini prawf ar gyfer cynigion datblygu. Er bod y polisi yn cyfeirio at ardaloedd a ddiogelwyd a nodwyd ar y Map Cynigion, mae'r manylion perthnasol ar goll. Yn gywir, mae **MACM/MSA** yn ceisio cywiro'r hepgoriad hwn trwy sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn cael eu hanodi ar y Map Cynigion. Er mwyn darparu cysondeb â pholisi cenedlaethol, mae **MAC 089** yn

sicrhau bod Polisi MR3 a'i gyfiawnhad rhesymedig yn cyfeirio at ddiogelu seilwaith sy'n gysylltiedig â mwynau ochr yn ochr â'r agreg.

- 10.25 Yn amodol ar **MAC**, rydym yn fodlon bod fframwaith mwynau y CDLI newydd wedi'i gyfiawnhau a bod yr ymagwedd tuag at ofynion banc tir yn bodloni RTS2. Yn amodol ar y newidiadau fel y nodir uchod, mae'r polisïau hefyd yn cydymffurfio â PPW a MTAN 1.

Rheoli gwastraff cynaliadwy

- 10.26 Mae Polisi SP19 yn nodi fframwaith y cynllun ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy. Mae rhan gyntaf y polisi yn rhestru meini prawf i gefnogi cynigion priodol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy ym mhob datblygiad newydd. Er nad yw'r CDLI newydd yn dyrannu safleoedd gwastraff, mae'r Papur Pwnc Gwastraff [CSD85 a CSD86] cysylltiedig yn nodi dyraniadau cyflogaeth dosbarth B2 a safleoedd a ddiogelwyd a allai fod yn briodol ar gyfer cyfleusterau gwastraff yn yr adeilad. Mae'n ychwanegu bod y broses yn cael ei sbarduno gan y farchnad i raddau helaeth, ac y bydd addasrwydd safleoedd yn cael ei asesu yn erbyn meini prawf polisi. I'r perwyl hwn, mae ail ran Polisi SP19 yn nodi gofynion ar gyfer cynigion datblygu gwastraff. Yn gywir, mae **MAC 090** yn cadarnhau bod yn rhaid bodloni'r ddau faen prawf, sy'n mynd i'r afael ag ystyriaethau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a chydawnsedd â defnyddiau cyfagos. Mae hefyd yn croesgyfeirio at Bolisïau EME1 ac EME3 yn y cyfiawnhad rhesymedig, ynghylch safleoedd cyflogaeth a allai fod yn addas ar gyfer cyfleusterau gwastraff yn yr adeilad.
- 10.27 Rhaid i gynigion datblygu newydd ddarparu ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy trwy Bolisi WM1. Mae'r meini prawf cysylltiedig yn y cyfiawnhad rhesymedig yn darparu sail leol sy'n cefnogi targedau Tuag at Ddyfodol Diwastraff, strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru [NPG67]. Yn Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff 2022/23 Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru [RPG7] nodir capasiti digonol yn safleoedd tirlenwi'r rhanbarth yn seiliedig ar fonitro sbardunau yn TAN 21 – Gwastraff (2014). Ceir capasiti yn safle tirlenwi arall y Sir yn Nantycaws ond nid yw'n weithredol ar hyn o bryd. Er nad yw safleoedd tirlenwi ychwanegol yn ofynnol ar hyn o bryd yn lleol nac yn rhanbarthol, mae Polisi WM2, fel y'i diwygiwyd gan **MAC 091**, yn nodi meini prawf i ystyried safleoedd newydd.
- 10.28 Mae polisi PSD5 yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu ddangos sut mae cynhyrchu gwastraff wedi'i leihau a'i reoli i gadw adnoddau mewn defnydd cyhyd â phosibl. Ar lefel leol, mae Polisi PSD5 yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun rheoli deunyddiau naturiol gael ei gyflwyno gyda chynigion i ddangos cydymffurfiaeth polisi. Mae hyn yn cynnwys ystyried dewisiadau dylunio ac arferion adeiladu, ymhlith pethau eraill. Er mwyn sicrhau cysondeb â pholisi cenedlaethol, mae **MAC 050** yn diwygio'r cyfeiriad polisi at 'gynllun rheoli deunyddiau naturiol' ac yn cadarnhau bod yr holl feini prawf polisi yn berthnasol. Nid yw'n glir ble a sut y byddai'r cynllun rheoli yn berthnasol i gynigion datblygu. Mae newidiadau canlyniadol i'r cyfiawnhad rhesymedig yn esbonio y dylid ceisio cynllun rheoli ar gyfer pob cynnig datblygu, tra bod ei gynnwys yn gymesur â maint pob cynnig. Gyda'r newidiadau hyn, mae Polisi PSD5 yn cefnogi PPW drwy gymryd camau i symud tuag at economi fwy cylchol yng Nghymru.

- 10.29 Mae polisi WM3 yn mynd i'r afael â chynigion sy'n ymwneud â gosod deunyddiau gwastraff anadweithiol wedi'u mewnforio i wella tir amaethyddol gradd isel. Er bod nodau'r polisi yn rhesymol, mae **MAC 092** yn angenrheidiol i egluro y dylid bodloni'r holl feini prawf.

Casgliadau

- 10.30 Ar y cyfan, rydym yn fodlon bod y polisïau a'r cynigion mewn perthynas â rheoli gwastraff yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy ac, yn amodol ar **MAC 090, MAC 050 a MAC 092**, yn gyson â pholisi cenedlaethol.

11. Monitro ac Adolygu'r Cynllun

- 11.1 Ochr yn ochr â datganiad ar y ffordd y mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y Cynllun yn cael ei weithredu, mae adran 12 o'r CDLI yn cynnwys fframwaith monitro sy'n manylu ar y dangosyddion a ddefnyddir i fonitro polisïau a chynigion. Mae'r dangosyddion wedi'u grwpio gyda'i gilydd o dan y polisïau strategol. Mae gan bob dangosydd darged a phwynt sbarduno cyfatebol a fydd yn galluogi monitro blynyddol. Fel sy'n ofynnol gan y DPM, mae dangosyddion allweddol ar gwblhau tai, manteisio ar dir cyflogaeth, hyfywedd a datblygiad mewn parthau perygl llifogydd hefyd wedi'u cynnwys.
- 11.2 Yn y Cynllun nodir camau gweithredu â chodau lliw y gellid eu cymryd, gan ddibynnu ar ganlyniad dangosyddion unigol, i wneud newidiadau neu gymryd camau gweithredu amgen. Yn eu plith mae hyfforddiant swyddogion ac aelodau, paratoi canllawiau cynllunio, cynnal ymchwil bellach, adolygu polisi ac yn y pen draw adolygiad o'r Cynllun.
- 11.3 Mae angen diwygiadau i'r dangosyddion i ddarparu eglurder ar yr hyn sy'n cael ei fonitro. Yn eu plith mae newidiadau i eiriad targedau a phwyntiau sbarduno ar gyfer dangosyddion ar fanwerthu a chanol trefi (**MAC 093**) cyflenwi tai (**MAC 095, MAC 096 a MAC 097**), safleoedd strategol (**MAC 098 a MAC 099**) cyflogaeth (**MAC 100 a MAC 101**) llety sipsiwn a theithwyr (**MAC 103, MAC 104 a MAC 105**), darpariaeth GBI (**MAC 106**), cyflenwi cynlluniau solar o fewn LSA (**MAC 111**) gweithredu'r cynlluniau ffyrdd a nodwyd (**MAC 115**), ac adnoddau mwynol (**MAC 116, MAC 117 a MAC 118**). Byddai'r newidiadau hyn yn gyson â thargedau'r Cynllun ar gyfer darparu tai, cyflogaeth a safleoedd strategol. Byddai newidiadau pellach i fonitro canol trefi yn egluro bod eiddo masnachol, ac nid unedau manwerthu yn unig, yn cael eu cynnwys, ochr yn ochr â chyfeirio at arolygon archwilio'r Cyngor.
- 11.4 Cynigir dangosyddion newydd i fonitro rhai polisïau gan gynnwys colli defnyddiau manwerthu A1 yng nghanol trefi (**MAC 094**), y Gymraeg (**MAC 102**), colli cyfleusterau cymunedol (**MAC 107**), darparu mannau agored cyhoeddus (**MAC 108**), dwysedd tai (**MAC 109**) gwella bioamrywiaeth (**MAC 110**) ac i fonitro cyflawni SPG a'r Cynllun Gweithredu mewn perthynas ag ACA Morol (**MAC 112, MAC 113 a MAC 114**). Mae'r ychwanegiadau hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod nodau polisi perthnasol yn cael eu monitro'n effeithiol.
- 11.5 Yn ogystal, mae'r ISA yn nodi cyfres o ddangosyddion gyda'r bwriad o fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol y CDLI newydd ac fe'u cynlluniwyd yn benodol i nodi unrhyw effeithiau andwyol annisgwyl a galluogi camau adfer priodol. Nodir y fframwaith monitro yn briodol o dan y 15 amcan cynaliadwyedd a gynhwysir yn yr SA

[CSD16, Pennod 8] ac mae'n nodi cyfres o ddangosyddion cyd-destunol posibl y bydd pob un ohonynt, yn unigol neu ar y cyd, yn galluogi'r Cyngor i asesu a yw'r Cynllun yn cael ei gyflawni yn y modd a fwriadwyd, ac os na, yn arwyddo bod angen camau adferol.

Casgliadau

- 11.6 Ar y cyfan, rydym yn fodlon bod y darpariaethau a wnaed ar gyfer monitro'r CDLI newydd, fel y'u diwygiwyd gan y MAC, yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol ac y byddant yn darparu sylfaen gadarn i asesu perfformiad y Cynllun.

12 Casgliadau Cyffredinol

- 12.1 Rydym yn dod i'r casgliad, gyda'r newidiadau rhwymol a argymhellir a nodwyd yn yr adroddiad hwn ac a nodir yn Atodiadau A, fod y CDLI newydd yn bodloni gofynion adran 64(5) o Ddeddf 2004 ac yn bodloni'r profion cadernid yn y DPM. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym wedi ystyried y ffyrdd o weithio a nodir yn adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y CDLI newydd fel y'i haddaswyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu a defnyddio tir mewn ffordd sy'n cyfrannu tuag at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac sy'n cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 12.2 Yn unol â gofynion Adran 12(4) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, bydd y CDLI newydd, ar ôl ei fabwysiadu, yn parhau i fod yn weithredol tan **31 Mawrth 2033**.

Nicola Gulley ac Ian Stevens
Arolygwyr